Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Mai 2019

Amser: 11.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Gareth Williams

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddMCD@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

2 Bil Deddfwriaeth (Cymru): trafodion Cyfnod 2

(11.00–14.00)

Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol

Dylan Hughes, Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Claire Fife, Cynghorwr Polisi i'r Cwnsler Cyffredinol, Llywodraeth Cymru

Ar 1 Ebrill 2019, cytunodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, o dan Reol Sefydlog 26.21, mai'r drefn ar gyfer trafod trafodion Cyfnod 2 fydd: Adrannau 1 i 5; Atodlen 1; Adrannau 6 i 39; Atodlen 2; Adrannau 40 i 43; Teitl hir

Mae dogfennau sy'n berthnasol i drafodion Cyfnod 2 ar gael ar dudalen y Bil.

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

14.00–14.10

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

3.1 SL(5)410 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

(Tudalennau 1 – 41)

CLA(5)-15-19 – Papur 1 – Adroddiad

CLA(5)-15-19 – Papur 2 – Rheoliadau

CLA(5)-15-19 – Papur 3 – Memorandwm Esboniadol

3.2 SL(5)411 - Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

(Tudalennau 42 - 121)

CLA(5)-15-19 – Papur 4 – Adroddiad

CLA(5)-15-19 – Papur 5 – Rheoliadau

CLA(5)-15-19 – Papur 6 – Memorandwm Esboniadol

4 Offerynnau Statudol sydd angen cydsyniad: Brexit

14.10-14.15

4.1 SICM(5)22 Rheoliadau Gorfodi'r Gyfraith a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 122 - 227)

CLA(5)-15-19 – Papur 7 – y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

CLA(5)-15-19 – Papur 8 – Rheoliadau

CLA(5)-15-19 – Papur 9 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)-15-19 – Papur 10 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 2 Mai 2019

CLA(5)-15-19 – Papur 11 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-15-19 – Papur 12 – Sylwadau

5 Papur(au) i'w nodi

14.15-14.25

5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: presenoldeb Gweinidogion mewn pwyllgorau ar ddydd Llun

(Tudalennau 228 - 229)

CLA(5)-15-19 – Papur 13 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 30 Ebrill 2019

5.2 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Bil Deddfwriaeth (Cymru)

(Tudalennau 230 - 236)

CLA(5)-15-19 – Papur 14 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 3 Mai

5.3 **Llythyr gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn: Ymgysylltiad rhwng gweinyddiaethau'r DU**

(Tudalennau 237 - 240)

CLA(5)-15-19 - Papur 15 - Llythyr gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn, 3 Mai 2019

5.4 **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Bil Masnach - cydsyniad deddfwriaethol**

(Tudalennau 241 - 242)

CLA(5)-15-19 - Papur 16 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Mai 2019

5.5 **Llythyr gan y Llywydd: cymhwyso Rheol Sefydlog 30A**

(Tudalennau 243 - 247)

CLA(5)-15-19 - Papur 17 - Llythyr gan y Llywydd, 7 Mai 2019

CLA(5)-15-19 - Papur 18 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at y Llywydd, 25 Mawrth 2019

5.6 **Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Y Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd)**

(Tudalen 248)

CLA(5)-15-19 - Papur 19 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 8 Mai 2019

5.7 **Llywodraeth Cymru: Ymateb Interim i Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru**

(Tudalennau 249 - 254)

CLA(5)-15-19 - Papur 20 - Datganiad Ysgrifenedig ac Ymateb Interim

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

14.25

7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Amaethyddiaeth

14.25 - 14.40 (Tudalennau 255 - 272)

CLA(5)-15-19 – Papur 21 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

CLA(5)-15-19 – Papur 22 – Nodyn cyfreithiol

CLA(5)-15-19 – Papur 23 – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 26 Mawrth 2019

8 Ystyried yr ymateb i'r llythyr gan Bruce Crawford ASA, Cynullydd y Pwyllgor Cyllid a'r Cyfansoddiad

14.40–14.50 (Tudalennau 273 – 284)

CLA(5)-15-19 – Papur 24 – Llythyr gan Bruce Crawford ASA, 26 Mawrth 2019

CLA(5)-15-19 – Papur 25 – Ymateb drafft

9 Blaenraglen waith

14.50–15.00 (Tudalennau 285 – 287)

CLA(5)-15-19 – Papur 26 – Blaenraglen waith

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 20 Mai

SL(5)410 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn diwygio'r gyfundrefn rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi manylion system hysbysiadau cosb, lle gall Gweinidogion Cymru roi cosb i ddarparwyr ac unigolion cyfrifol gwasanaethau rheoledig yn hytrach na dwyn achos trosedd, os digwydd rhai rheoliadau yn cael eu torri. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r troseddau lle y gellir rhoi hysbysiad cosb.

Bydd y Rheoliadau hyn yn disodli'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017 presennol.

Gweithdrefn

Negyddol.

Craffu ar faterion technegol

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 8(1) yn nodi troseddau rhagnodedig o dan Reoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019, ond mae'n nodi bod y troseddau rhagnodedig hyn " at ddibenion rheoliad 12". Mae rheoliad 12 yn ymwneud â'r cyfnod pan na chaniateir cychwyn achos. Dylai'r cyfeiriad cywir gyfeirio at adran 3 52(1) o'r Ddeddf.

2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg

Gallai'r testun Cymraeg o'r drosedd "mynd yn groes i'r gofynion i gael polisïau a gweithdrefnau penodedig yn eu lle, neu fethiant i gydymffurfio â hwy" yn atodlenni 1 i 5 o'r Rheoliadau beri dryswch. Oherwydd y ffordd y mae wedi'i ddrafftio, nid yw'n glir a yw'r methiant i gydymffurfio yn ymwneud â'r gofynion i gael polisïau a gweithdrefnau ar waith, neu mewn perthynas â'r polisïau a'r gweithdrefnau eu hunain.

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Goblygiadau sy'n deillio o adael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
3 Mai 2019

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 Rhif 887 (Cy. 159)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn sefydlu system newydd o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, sy'n disodli'r system a sefydlwyd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae adran 2 o'r Ddeddf ac Atodlen 1 iddi yn pennu'r gwasanaethau sy'n "gwasanaethau rheoleiddiedig" at ddibenion y Ddeddf. Y rhain yw gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel, gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion, gwasanaeth eirioli a gwasanaeth cymorth cartref.

O dan adran 3(1)(c) o'r Ddeddf, cyfeirir at berson sydd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig fel "darparwr gwasanaeth". Mae rheoliadau a wneir o dan adran 27 o'r Ddeddf yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn cysylltiad â'r gwasanaethau rheoleiddiedig y maent yn eu darparu.

Mae adran 6 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth ddynodi unigolyn fel yr "unigolyn cyfrifol" mewn cysylltiad â phob man y mae gwasanaeth rheoleiddiedig i'w ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. Mae rheoliadau a wneir o dan adran 28 o'r Ddeddf yn gosod gofynion ar yr unigolyn cyfrifol mewn perthynas â'r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'n gyfrifol amdanynt.

Mae adran 45 o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ei bod yn drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau a wneir o

dan adran 27. O dan adran 46 o'r Ddeddf, caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud rheoliadau sy'n darparu ei bod yn drosedd i unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau a wneir o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") yn darparu ei bod yn drosedd i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol dynodedig ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref rheoleiddiedig fethu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir yn rheoliadau 85 a 86 yn y drefn honno o'r Rheoliadau hynny.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 ("y Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu") yn darparu ei bod yn drosedd i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol dynodedig ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig fethu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir yn rheoliadau 54 a 55 yn y drefn honno o'r Rheoliadau hynny.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 ("y Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion") yn darparu ei bod yn drosedd i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol dynodedig ar gyfer gwasanaethau lleoli oedolion rheoleiddiedig fethu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir yn rheoliadau 64 a 65 yn y drefn honno o'r Rheoliadau hynny.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 ("y Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli") yn darparu ei bod yn drosedd i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol dynodedig ar gyfer gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig fethu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir yn rheoliadau 55 a 56 yn y drefn honno o'r Rheoliadau hynny.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 ("y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu") yn darparu ei bod yn drosedd i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol dynodedig ar gyfer gwasanaethau maethu rheoleiddiedig fethu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir yn rheoliadau 68 a 69 yn y drefn honno o'r Rheoliadau hynny.

Mae adran 52(1) o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i roi hysbysiad cosb i berson yn lle dwyn achos am drosedd, ond dim ond mewn perthynas â'r troseddau hynny a ragnodir mewn rheoliadau. O dan adran 52(2), dim ond troseddau o dan adrannau 47 (datganiadau anwir), 48 (methiant i gyflwyno datganiad blynyddol) neu 49 (methiant i ddarparu gwybodaeth) neu o dan reoliadau a wneir o dan adrannau 45 neu 46 o'r Ddeddf y caniateir iddynt gael eu rhagnodi felly.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r troseddau y caniateir i hysbysiad cosb gael ei roi i berson ar eu cyfer yn lle dwyn achos mewn perthynas â'r drosedd.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn rhagnodi'r troseddau yn y Ddeddf y caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad cosb i berson mewn cysylltiad â hwy. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn pennu swm y gosb sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob un o'r troseddau rhagnodedig.

Mynegir swm y gosb sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob un o'r troseddau a ragnodir yn y Rheoliadau hyn fel lluosrifau o'r swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol (ac maent yn amrywio rhwng lluosrifau o un i ddwywaith a hanner).

Mae rheoliad 5 a'r golofn gyntaf yn y tabl yn Atodlen 1 yn rhagnodi'r troseddau yn Rheoliadau 2017 y caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad cosb i'r darparwr gwasanaeth neu i'r unigolyn cyfrifol dynodedig mewn cysylltiad â hwy. Mae'r ail golofn a'r drydedd golofn yn cynnwys disgrifiad o'r drosedd ragnodedig a swm y gosb sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob trosedd.

Mae rheoliad 6 a'r golofn gyntaf yn y tabl yn Atodlen 2 yn rhagnodi'r troseddau yn y Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu y caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad cosb i'r darparwr gwasanaeth neu i'r unigolyn cyfrifol dynodedig ar eu cyfer. Mae'r ail golofn a'r drydedd golofn yn cynnwys disgrifiad o'r drosedd ragnodedig a swm y gosb sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob trosedd.

Mae rheoliad 7 a'r golofn gyntaf yn y tabl yn Atodlen 3 yn rhagnodi'r troseddau yn y Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion y caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad cosb i'r darparwr gwasanaeth neu i'r unigolyn cyfrifol dynodedig ar eu cyfer. Mae'r ail golofn a'r drydedd golofn yn cynnwys disgrifiad o'r drosedd ragnodedig a swm y gosb sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob trosedd.

Mae rheoliad 8 a'r golofn gyntaf yn y tabl yn Atodlen 4 yn rhagnodi'r troseddau yn y Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli y caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad cosb i'r darparwr gwasanaeth neu i'r unigolyn cyfrifol dynodedig ar eu cyfer. Mae'r ail

golofn a'r drydedd golofn yn cynnwys disgrifiad o'r drosedd ragnodedig a swm y gosb sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob trosedd.

Mae rheoliad 9 a'r golofn gyntaf yn y tabl yn Atodlen 5 yn rhagnodi'r troseddau yn y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu y caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad cosb i'r darparwr gwasanaeth neu i'r unigolyn cyfrifol dynodedig ar eu cyfer. Mae'r ail golofn a'r drydedd golofn yn cynnwys disgrifiad o'r drosedd ragnodedig a swm y gosb sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob trosedd.

Mae rheoliadau 10 ac 11 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amser erbyn pryd y mae rhaid talu hysbysiad cosb ac yn pennu'r ffordd y caniateir i swm gael ei dalu ynddi.

Mae rheoliad 12 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfnod pan na chaniateir i achos gael ei gychwyn am y drosedd y mae'r hysbysiad cosb yn ymwneud â hi.

Mae rheoliad 13 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan ganiateir i hysbysiad cosb gael ei dynnu'n ôl wedi iddo gael ei roi, canlyniadau'r tynnu'n ôl hwnnw, ac yn pennu pa bryd y caniateir i achos gael ei gychwyn neu ei barhau mewn cysylltiad â'r drosedd y mae'r hysbysiad cosb yn ymwneud â hi.

Mae rheoliad 14 yn nodi'r gofynion ar gyfer cynnwys hysbysiad cosb.

Mae rheoliad 15 yn nodi'r gofynion o ran y cofnodion sydd i'w cadw gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw hysbysiad cosb a roddir.

Mae rheoliad 16 yn dirymu Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 Rhif 887 (Cy. 159)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

Gwnaed	*25 Ebrill 2019*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*26 Ebrill 2019*
Yn dod i rym	*1 Gorffennaf 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 52(1) a (6) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(**2**):

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2019.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "cyfnod talu" ("*payment period*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 10;

ystyr "darparwr gwasanaeth" ("*service provider*") yw person y mae ei gais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth rheoleiddiedig wedi cael ei ganiatáu o dan adran 7(1) o'r Ddeddf;

(**1**) 2016 dccc 2.
(**2**) *Gweler* adran 189 o'r Ddeddf am y diffiniad o "a ragnodir" a "rhagnodedig".

ystyr "derbynnydd" ("*recipient*") yw person y rhoddir hysbysiad cosb iddo yn unol ag adran 52 o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "hysbysiad cosb" ("*penalty notice*") yw hysbysiad cosb a roddir yn unol ag adran 52 o'r Ddeddf;

ystyr "Rheoliadau 2017" ("*the 2017 Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017(**1**);

ystyr "y Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli" ("*the Advocacy Services Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**2**);

ystyr "y Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion" ("*the Adult Placement Services Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**3**);

ystyr "y Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu" ("*the Adoption Services Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**4**);

ystyr "y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu" ("*the Fostering Services Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**5**);

ystyr "trosedd" ("*offence*") yw trosedd ragnodedig.

Troseddau o dan y Ddeddf

3. Mae trosedd a gyflawnir o dan adran 47 (gwneud datganiadau anwir) o'r Ddeddf wedi ei rhagnodi'n drosedd at ddibenion adran 52(1) o'r Ddeddf honno. Y gosb i'w thalu yw swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol(**6**).

4. Mae trosedd a gyflawnir o dan adran 48 (methiant i gyflwyno datganiad blynyddol) neu 49 (methiant i

(**1**) O.S. 2017/1264 (Cy. 295).
(**2**) O.S. 2019/165 (Cy. 41).
(**3**) O.S. 2019/163 (Cy. 40).
(**4**) O.S. 2019/762 (Cy. 145)
(**5**) O.S. 2019/169 (Cy. 42).
(**6**) *Gweler* adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p. 48) ("Deddf 1982"); ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, mae lefel 4 ar y raddfa safonol wedi ei phennu'n £2,500 (caniateir i'r ffigur hwn gael ei gynyddu yn rhinwedd diwygiad i Ddeddf 1982).

ddarparu gwybodaeth) o'r Ddeddf wedi ei rhagnodi'n drosedd at ddibenion adran 52(1) o'r Ddeddf honno. Y gosb i'w thalu yw swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol.

Troseddau o dan Reoliadau 2017

5.—(1) Mae'r troseddau o dan ddarpariaethau Rheoliadau 2017 a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodlen 1 wedi eu rhagnodi'n droseddau at ddibenion adran 52(1) o'r Ddeddf.

(2) Mae ail golofn y tabl yn Atodlen 1 yn cynnwys disgrifiad o'r drosedd ragnodedig.

(3) Mae swm y gosb sydd i'w dalu ar gyfer pob trosedd wedi ei bennu yn nhrydedd golofn y tabl yn Atodlen 1.

Troseddau o dan y Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu

6.—(1) Mae'r troseddau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodlen 2 wedi eu rhagnodi'n droseddau at ddibenion adran 52(1) o'r Ddeddf.

(2) Mae ail golofn y tabl yn Atodlen 2 yn cynnwys disgrifiad o'r drosedd ragnodedig.

(3) Mae swm y gosb sydd i'w dalu ar gyfer pob trosedd wedi ei bennu yn nhrydedd golofn y tabl yn Atodlen 2.

Troseddau o dan y Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion

7.—(1) Mae'r troseddau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodlen 3 wedi eu rhagnodi'n droseddau at ddibenion adran 52(1) o'r Ddeddf.

(2) Mae ail golofn y tabl yn Atodlen 3 yn cynnwys disgrifiad o'r drosedd ragnodedig.

(3) Mae swm y gosb sydd i'w dalu ar gyfer pob trosedd wedi ei bennu yn nhrydedd golofn y tabl yn Atodlen 3.

Troseddau o dan y Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli

8.—(1) Mae'r troseddau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodlen 4 wedi eu rhagnodi'n droseddau at ddibenion rheoliad 12.

(2) Mae ail golofn y tabl yn Atodlen 4 yn cynnwys disgrifiad o'r drosedd ragnodedig.

(3) Mae swm y gosb sydd i'w dalu ar gyfer pob trosedd wedi ei bennu yn nhrydedd golofn y tabl yn Atodlen 4.

Troseddau o dan y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu

9.—(1) Mae'r troseddau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodlen 5 wedi eu rhagnodi'n droseddau at ddibenion adran 52(1) o'r Ddeddf.

(2) Mae ail golofn y tabl yn Atodlen 5 yn cynnwys disgrifiad o'r drosedd ragnodedig.

(3) Mae swm y gosb sydd i'w dalu ar gyfer pob trosedd wedi ei bennu yn nhrydedd golofn y tabl yn Atodlen 5.

Y cyfnod ar gyfer talu'r gosb

10.—(1) Yr amser erbyn pryd y mae'r gosb a bennir mewn hysbysiad cosb i'w thalu yw diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ("cyfnod talu").

(2) Mae adran 184 o'r Ddeddf(**1**) yn gymwys i hysbysiad cosb fel y mae'n gymwys i hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan y Ddeddf.

Talu'r gosb

11.—(1) Rhaid talu'r gosb a bennir mewn hysbysiad cosb i Weinidogion Cymru drwy'r dull a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif yr honnir ei bod wedi ei llofnodi gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan, sy'n datgan i daliad cosb ddod i law neu na ddaeth i law erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif, yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.

Y cyfnod pan na chaniateir i achos gael ei gychwyn

12. Pan fo derbynnydd yn cael hysbysiad cosb, ni chaniateir i achos am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi gael ei gychwyn yn erbyn y derbynnydd cyn diwedd y cyfnod talu.

(**1**) Mae adran 184 o'r Ddeddf (cyflwyno dogfennau etc.) yn pennu y caniateir i hysbysiadau gael eu traddodi â llaw, cael eu gadael yng nghyfeiriad y derbynnydd, cael eu hanfon drwy'r gwasanaeth danfon cofnodedig neu, os yw'r derbynnydd wedi cytuno i'w cael ar ffurf electronig, drwy gael eu hanfon yn electronig i gyfeiriad a ddarperir at y diben hwnnw; mae is-adran (8) yn darparu pan fo hysbysiad yn cael ei anfon drwy'r gwasanaeth danfon cofnodedig neu'n electronig fod rhaid barnu bod yr hysbysiad wedi ei gael 48 awr ar ôl iddo gael ei anfon (oni ddangosir i'r gwrthwyneb).

Tynnu hysbysiad cosb yn ôl

13.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru dynnu hysbysiad cosb yn ôl drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o'r tynnu'n ôl i'r derbynnydd—

(a) os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu—

(i) na ddylai fod wedi cael ei roi, neu

(ii) na ddylai fod wedi cael ei roi i'r person a enwir fel y derbynnydd; neu

(b) os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod yr hysbysiad yn cynnwys gwallau perthnasol.

(2) Caniateir i hysbysiad cosb gael ei dynnu'n ôl yn unol â pharagraff (1) pa un a yw'r cyfnod talu wedi dod i ben ai peidio, a pha un a yw'r gosb wedi cael ei thalu ai peidio.

(3) Pan fo hysbysiad cosb wedi cael ei dynnu'n ôl yn unol â pharagraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu unrhyw swm sydd wedi ei dalu fel cosb yn unol â'r hysbysiad hwnnw, i'r person a'i talodd.

(4) Ac eithrio fel y darperir ym mharagraff (5), ni chaniateir i achos gael ei gychwyn neu ei barhau yn erbyn derbynnydd am y drosedd y mae'r hysbysiad cosb yn ymwneud â hi pan fo'r hysbysiad wedi cael ei dynnu'n ôl yn unol â pharagraff (1).

(5) Pan fo hysbysiad cosb wedi cael ei dynnu'n ôl o dan baragraff (1)(b), caniateir i achos gael ei gychwyn neu ei barhau am y drosedd y rhoddwyd yr hysbysiad cosb hwnnw mewn cysylltiad â hi os yw hysbysiad cosb pellach wedi cael ei roi mewn cysylltiad â'r drosedd ac nad yw'r gosb wedi ei thalu cyn diwedd y cyfnod talu.

Cynnwys hysbysiad cosb

14.—(1) Rhaid i hysbysiad cosb roi'r manylion hynny am yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn drosedd y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn rhesymol ofynnol i roi gwybodaeth i'r derbynnydd amdani.

(2) Rhaid i hysbysiad cosb ddatgan—

(a) enw a chyfeiriad y derbynnydd;

(b) swm y gosb;

(c) y cyfnod talu;

(d) y bydd talu o fewn y cyfnod hwnnw yn rhyddhau unrhyw atebolrwydd am y drosedd;

(e) y cyfnod pan na fydd achos yn cael ei ddwyn mewn cysylltiad â'r drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi;

(f) y canlyniadau os na chaiff y gosb ei thalu cyn i'r cyfnod ar gyfer ei thalu ddod i ben;

(g) y person y caniateir i'r gosb gael ei thalu iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir ei thalu ac y caniateir anfon unrhyw ohebiaeth am yr hysbysiad cosb iddo;

(h) y dulliau a ganiateir ar gyfer talu'r gosb;

(i) ar ba seiliau y caniateir i'r hysbysiad cosb gael ei dynnu'n ôl.

Cofnodion

15. Rhaid i Weinidogion Cymru gadw cofnod o unrhyw hysbysiadau cosb a roddir, y mae rhaid iddo gynnwys—

(a) copi o bob hysbysiad cosb a roddir;

(b) cofnod o'r holl daliadau a wnaed a'r dyddiad pan y'u derbyniwyd;

(c) manylion unrhyw hysbysiad cosb sydd wedi ei dynnu'n ôl a'r seiliau dros hynny;

(d) manylion ynghylch a gafodd y derbynnydd ei erlyn am y drosedd y rhoddwyd yr hysbysiad cosb ar ei chyfer.

Dirymu

16. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017(**1**) wedi eu dirymu.

Julie Morgan
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
25 Ebrill 2019

(**1**) O.S. 2017/1292 (Cy. 298).

ATODLEN 1 Rheoliad 5

Troseddau rhagnodedig – gwasanaethau a reoleiddir o dan Reoliadau 2017

Y ddarpariaeth sy'n creu'r drosedd	*Natur gyffredinol y drosedd*	*Swm y gosb*
Rheoliad 7(3) a (5) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 11(3) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 12(1) a (2) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion i gael polisïau a gweithdrefnau penodedig yn eu lle, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 19(1), (2), (3) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth am y gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 20(1) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu cytundeb gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 35(1) o Reoliadau	Mynd yn groes i'r gofynion	Swm sy'n cyfateb i

2017	mewn perthynas ag addasrwydd staff, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 38(1) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth ar gyfer staff, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 59(1), (2) a (3) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â chofnodion, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 60(1), (2) a (4) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â hysbysiadau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 67(1) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd unigolyn cyfrifol i benodi rheolwr, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 74(1) a (2) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd unigolyn cyfrifol i adrodd am ddigonolrwydd yr adnoddau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 75(1) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas ag unigolyn cyfrifol yn gwneud	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol

	adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	
Rheoliad 80(4) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â llunio gan unigolyn cyfrifol adroddiad mewn cysylltiad ag adolygiad o ansawdd y gofal, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 81(1) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â llunio gan unigolyn cyfrifol ddatganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 84(1) a (3) o Reoliadau 2017	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd yr unigolyn cyfrifol i wneud hysbysiadau i'r rheoleiddiwr gwasanaethau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol

ATODLEN 2 Rheoliad 6

Troseddau rhagnodedig – gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig

Y ddarpariaeth sy'n creu'r drosedd	*Natur gyffredinol y drosedd*	*Swm y gosb*
Rheoliad 5(3) a (5) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofyniad i roi hysbysiad o ddiwygiad i'r datganiad o ddiben, neu fethiant i gydymffurfio ag ef	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 9(3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofyniad i ddarparu copïau o'r cyfrifon, neu fethiant i gydymffurfio ag ef	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 10(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion i gael polisïau a gweithdrefnau penodedig yn eu lle, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 13(1), (2) a (3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth am y gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 14(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu cytundeb gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 23(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas ag addasrwydd	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar

	staff, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	y raddfa safonol
Rheoliad 26(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth ar gyfer staff, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 30(1) a (2) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â chofnodion, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 31(1), (2), (3) a (5) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â hysbysiadau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 36(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd unigolyn cyfrifol i benodi rheolwr, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 43(1) a (2) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd unigolyn cyfrifol i adrodd am ddigonolrwydd yr adnoddau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 44(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas ag unigolyn cyfrifol yn gwneud adroddiadau eraill i'r	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol

	darparwr gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	
Rheoliad 49(4) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â llunio gan unigolyn cyfrifol adroddiad mewn cysylltiad ag adolygiad o ansawdd y gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 50(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â llunio gan unigolyn cyfrifol ddatganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau'r cymorth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 53(1) a (3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd yr unigolyn cyfrifol i wneud hysbysiadau i'r rheoleiddiwr gwasanaethau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol

ATODLEN 3 Rheoliad 7

Troseddau rhagnodedig – gwasanaethau lleoli oedolion

Y ddarpariaeth sy'n creu'r drosedd	*Natur gyffredinol y drosedd*	*Swm y gosb*
Rheoliad 3(3) a (5) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofyniad i roi hysbysiad o ddiwygiad i'r datganiad o ddiben, neu fethiant i gydymffurfio ag ef	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 7(3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofyniad i ddarparu copïau o'r cyfrifon, neu fethiant i gydymffurfio ag ef	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 8(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion i gael polisïau a gweithdrefnau penodedig yn eu lle, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 11(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu cytundeb gofalwr, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 16(1), (2) a (3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth am y gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 28(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas ag addasrwydd	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar

Oedolion	staff, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	y raddfa safonol
Rheoliad 31(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth ar gyfer staff, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 40(1) a (2) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â chofnodion, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 41(1) a (3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â hysbysiadau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 46(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd unigolyn cyfrifol i benodi rheolwr, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 53(1) a (2) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd unigolyn cyfrifol i adrodd am ddigonolrwydd yr adnoddau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 54(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas ag unigolyn cyfrifol yn gwneud adroddiadau eraill i'r	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol

	darparwr gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	
Rheoliad 59(4) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â llunio gan unigolyn cyfrifol adroddiad mewn cysylltiad ag adolygiad o ansawdd y gofal, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 60(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â llunio gan unigolyn cyfrifol ddatganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 63(1) a (3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd yr unigolyn cyfrifol i wneud hysbysiadau i'r rheoleiddiwr gwasanaethau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol

ATODLEN 4 Rheoliad 8

Troseddau rhagnodedig – gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig

Y ddarpariaeth sy'n creu'r drosedd	*Natur gyffredinol y drosedd*	*Swm y gosb*
Rheoliad 4(3) a (5) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofyniad i roi hysbysiad o ddiwygiad i'r datganiad o ddiben, neu fethiant i gydymffurfio ag ef	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 8(3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofyniad i ddarparu copïau o'r cyfrifon, neu fethiant i gydymffurfio ag ef	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 9(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion i gael polisïau a gweithdrefnau penodedig yn eu lle, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 15(1), (2) a (3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth am y gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 24(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas ag addasrwydd staff, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 27(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth ar	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol

	gyfer staff, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	
Rheoliad 31(1) a (2) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â chofnodion, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 32(1) a (3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â hysbysiadau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 37(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd unigolyn cyfrifol i benodi rheolwr, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 44(1) a (2) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd unigolyn cyfrifol i adrodd am ddigonolrwydd yr adnoddau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 45(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas ag unigolyn cyfrifol yn gwneud adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 50(4) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â llunio gan	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa

	unigolyn cyfrifol adroddiad mewn cysylltiad ag adolygiad o ansawdd y gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	safonol
Rheoliad 51(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â llunio gan unigolyn cyfrifol ddatganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau eiriolaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 54(1) a (3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd yr unigolyn cyfrifol i wneud hysbysiadau i'r rheoleiddiwr gwasanaethau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol

ATODLEN 5 Rheoliad 9

Troseddau rhagnodedig – gwasanaethau maethu rheoleiddiedig

Y ddarpariaeth sy'n creu'r drosedd	*Natur gyffredinol y drosedd*	*Swm y gosb*
Rheoliad 4(3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofyniad i roi hysbysiad o ddiwygiad i'r datganiad o ddiben, neu fethiant i gydymffurfio ag ef	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 8(3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofyniad i ddarparu copïau o'r cyfrifon, neu fethiant i gydymffurfio ag ef	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 9(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion i gael polisïau a gweithdrefnau penodedig yn eu lle, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 12(1), (2) a (3) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth am y gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 30(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas ag addasrwydd staff, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 33(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth ar	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol

	gyfer staff, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	
Rheoliad 39(1) a (2) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â chofnodion, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 40(1), (2), (3), (4), (5) ac (8) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â hysbysiadau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 50(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd unigolyn cyfrifol i benodi rheolwr, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 57(1) a (2) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd unigolyn cyfrifol i adrodd am ddigonolrwydd yr adnoddau, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 58(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas ag unigolyn cyfrifol yn gwneud adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaeth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 63(4) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â llunio gan	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa

	unigolyn cyfrifol adroddiad mewn cysylltiad ag adolygiad o ansawdd y gofal, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	safonol
Rheoliad 64(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â llunio gan unigolyn cyfrifol ddatganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol
Rheoliad 67(1) a (4) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu	Mynd yn groes i'r gofynion mewn perthynas â dyletswydd yr unigolyn cyfrifol i wneud hysbysiadau i Weinidogion Cymru, neu fethiant i gydymffurfio â hwy	Swm sy'n cyfateb i ddwywaith lefel 4 ar y raddfa safonol

Explanatory Memorandum to:

The Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2019

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Health and Social Services Department and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

Deputy Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of:

The Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2019

I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

Julie Morgan
Deputy Minister for Health and Social Services

26 April 2019

Part 1 – OVERVIEW

1. Description

The Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 ("the 2016 Act") reforms the regulation and inspection regime for social care in Wales and provides the statutory framework for the regulation and inspection of social care services and the social care workforce. It enables the Welsh Ministers to put in place a number of items of subordinate legislation through the making of regulations, the publication of guidance and the issuing of codes of practice.

This Explanatory Memorandum relates to *The Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2019* ('the 2019 Regulations') which will come into force on 1 July 2019. These Regulations prescribe the details of a penalty notice system, whereby the regulator - the Care Inspectorate Wales (CIW) - may issue a penalty to providers and responsible individuals (RIs) of regulated services in lieu of prosecution, should certain regulatory breaches occur.

This Explanatory Memorandum and Regulatory Impact Assessment relate to penalty notices as may be issued to all services regulated under the 2016 Act. These are:

- Care home services;
- Secure accommodation services;
- Residential family centre services;
- Domiciliary support services;
- Adoption services;
- Fostering services;
- Advocacy services; and
- Adult placement services.

The 2019 Regulations will replace the current *Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2017* which only apply to care home, secure accommodation, residential family centre and domiciliary support services.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

No specific matters have been identified.

3. Legislative background

The powers enabling the 2019 Regulations to be made are contained in section 52 of the 2016 Act. Section 52 is a regulation making power to enable Welsh Ministers to prescribe offences in respect of which a penalty notice may be issued. Only offences committed under sections 47, 48 and 49 of the 2016 Act, and under Regulations made under sections 45 and 46 of the 2016 Act, may be so prescribed.

Further details about the relevant sections of the 2016 Act are set out below:

- section 47 - a person who knowingly makes false or materially misleading statements in relation to:
    - an application for registration as a service provider,
    - an application for variation or cancellation of registration,
    - an annual return,
    - responding to a requirement to provide information imposed by the Welsh Ministers;

- section 48 - failure of a service provider to submit an annual return in time;

- section 49 - failure to comply with a requirement to provide information imposed by the Welsh Ministers by:
    - a service provider;
    - a responsible individual;
    - a person employed by or otherwise working for a service provider; and
    - any person who has held any of these positions.

- Regulations made under section 45 of the 2016 Act detail which of the breaches of the requirements in regulations made under section 27 of the 2016 Act – requirements on regulated service providers – are criminal offences.

- Regulations under section 46 of the 2016 Act detail which of the breaches of the requirements in regulations made under section 28 of the 2016 Act - requirements on responsible individuals – are criminal offences.

A number of regulations made under section 45 and 46 of the 2016 Act provide that it is an offence to fail to comply with specified provisions of those regulations, including:

- *The Regulated Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2017*,
- *The Regulated Fostering Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019,*
- *The Regulated Advocacy Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019*,
- *The Adult Placement Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019* and
- *The Regulated Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) Regulations 2019.*

The 2019 Regulations made under section 52 of the 2016 Act, set out which of the offences listed in the above regulations may be discharged by the service provider or responsible individual (as applicable) by payment of a penalty.

The purpose of the penalty notice is to offer the recipient of the notice the opportunity to discharge any liability for the offence by paying the sum specified in the notice. If the

person pays the sum specified in the notice as required, the person cannot be prosecuted for the offence to which the notice relates.

The 2019 Regulations are being laid under the negative procedure.

4. Purpose & intended effect of the legislation

The purpose of the 2019 Regulations is to set out the details of a penalty notice system, enabling CIW to issue a penalty notice to providers and responsible individuals of all services regulated under the 2016 Act, should certain offences occur.

The intention is to create a more flexible system of regulation so that CIW has a full range of powers at its disposal to deal with a failure by service providers and responsible individuals to comply with the requirements imposed on them under the 2016 Act and associated regulations.

Section 52(6) of the 2016 Act states that Welsh Ministers may by regulations make provision –

- as to the form and content of the penalty notices;
- as to the sum payable under a penalty notice and the time within which it is to be paid (including provision permitting a different sum to be payable in relation to different offences and according to the time by which it is paid);
- determining the ways in which a sum may be paid;
- as to the records to be kept in relation to penalty notices;
- about the circumstances in which a penalty notice may be withdrawn, including provision about –
    - the repayment of any sum paid before a notice is withdrawn, and
    - the circumstances in which proceedings for an offence may not be brought despite the withdrawal of a notice.

The approach in the 2019 Regulations is to provide clarity to both the regulator and the recipient of the penalty notice as to the way in which the scheme will operate.

Penalty amounts vary depending on the nature of the offence committed, but are currently capped at a maximum of two and a half times level 4 on the standard scale (Level 4 is currently set at £2,500).

Prescribing the amounts by reference to the standard scale means the 2019 Regulations will not need to be amended should the level change as a result of amendments being made to the Criminal Justice Act 1982.

5. Consultation

The suite of Regulations made under the 2016 Act were developed in three overlapping phases. During phase two of implementation, *The Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2017* established a penalty notice system for care home services, domiciliary support services, secure accommodation services and residential family centre services. Those regulations were consulted on between 2 May and 15 July 2017. A summary of the comments that were made and the Welsh Government's response to

these is set out in the consultation summary report[1] published on the Welsh Government website on 21 November 2017.

The proposal to extend the penalty notice system to phase three services (adoption, fostering, adult placement and advocacy services) was also highlighted within the consultation documents for each set of Regulations at phase three of implementation.

The consultations for the regulations in relation to regulated fostering, adult placement and regulated advocacy services were held between 24 May and 16 August 2018. The regulations in relation to regulated adoption services were consulted on between 4 September and 27 November 2018.

The consultation summary reports have been published on the Welsh Government website at https://gov.wales/consultations.

[1] http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/regulation-and-inspection-act/?lang=en

PART 2 – REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

Options

Option one: do not implement a penalty notice scheme for the remaining regulated services under the 2016 Act[2]

Under this option there would not be a penalty notice scheme in relation to adoption, fostering, adult placement and advocacy services under the 2016 Act. However, there would be a penalty notice scheme for care home services, domiciliary support services, secure accommodation services and residential family centres, as set out in the *Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2017*, which are already in force.

Option two: create regulations which provide detail about how the penalty notice scheme will operate in relation to all regulated services.

Under option two, the Welsh Government would establish a penalty notice scheme for all regulated services under the 2016 Act and Regulations would be created that set out:

- the offences that can be dealt with via a penalty notice;
- the amount that can be charged for each of the offences;
- the form the penalty notice must take and the information that must be included in it;
- the payment methods that can be used to pay the penalty;
- the records CIW must keep in relation to issuing penalty notices; and
- the circumstances in which a penalty notice can be withdrawn.

Costs

Option one: do not implement a penalty notice scheme for the remaining regulated services under the 2016 Act

Under option one there would be no additional costs to the regulator or sector in relation to adoption, fostering, advocacy or adult placement services. The costs in relation to care home services, domiciliary support services, secure accommodation services and residential family centre services are set out in the Regulatory Impact Assessment for *the Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2017* which can be accessed here: http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11334-em/sub-ld11334-em-e.pdf

Option two: create regulations which provide detail about how the penalty notice scheme will operate in relation to all regulated services

Under this option there would be obvious costs to providers and RIs that receive penalty notices as a result of non-compliance with certain requirements. The penalty amounts would be set out in the 2019 Regulations. Section 54 of the 2016 Act restricts

[2] These are adoption services, fostering services, advocacy services and adult placement services.

the amount of the sum payable to two and a half times level 4 on the standard scale. Level 4 on the standard scale is currently £2,500.

The penalties listed in the 2019 Regulations would range from one to two and a half times level 4 on the standard scale, which means the penalties would range from £2,500 to £6,250 at the moment.

The frequency of issuing such fines would depend on how CIW implements the scheme. The Securing Improvement and Enforcement policy sets out CIW's proportionate approach to enforcement. The issuing of penalty notices is one of a suite of enforcement actions that is available to CIW. However, the issuing of a penalty notice will depend on the particular circumstances of each case as to whether this is most appropriate or whether an alternative enforcement action would be more appropriate.

Therefore, CIW will continue to apply the principles of its existing inspection process that enables providers the opportunity to remedy any non-compliance identified during an inspection before enforcement action is taken. To gauge the number of fines that may be issued under the new system we have looked at the level of non-compliance for similar offences under the Care Standards Act 2000 ("the 2000 Act") in 2016-17.

The 2000 Act was the legislative framework previously in operation. The table below shows the provisions creating penalties under the 2016 Act against the closest corresponding regulations in the 2000 Act and the number of non-compliance notices issued against these regulations in 2016-17. The services highlighted in bold relate to the additional regulated services to be included in the scope of the penalty notices scheme:

General nature of the offence	***Amount of penalty***	**Existing closest corresponding Regulation under the 2000 Act**	***No. of non-compliance notices issued in 2016-17***	***No. of non-compliance persisting over 12 months***	***Amount, if penalty notice issued***
Making false statements	An amount corresponding to two and a half times level 4 on the standard scale(1)	Adult care homes: regulation 7 Children's homes: regulation 6 Domiciliary support services: regulation 8 **Fostering services: 8**	None	None	£0
Failure to submit an annual return	An amount corresponding to level 4 on the standard scale	N/A as this is a new offence	N/A as this is a new offence	N/A	£0

Failure to provide information	An amount corresponding to level 4 on the standard scale	Adult care homes: regulations 11, 38, 39,40 Children's homes: regulations 10, 29, 36, 37 Domiciliary support services: regulations 12, 26, 27, 28 **Fostering services: 9, 43, 45, 46.**	4 for adult care homes	1 for adult care homes	£2500
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to the statement of purpose	An amount corresponding to two and a half times level 4 on the standard scale	Adult care homes: regulation 4 Children's homes: regulation 4 Domiciliary support services: regulation 4 **Fostering services: 3**	1 for adult care homes 2 for children's homes 2 for domiciliary support services	1 for adult care homes 1 for domiciliary support services	£12,500
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to the financial position of the service	An amount corresponding to level 4 on the standard scale	Adult care homes: regulation 26(2) Children's homes: regulation 35 Domiciliary support services: regulation 25 **Fostering services: 44**	None	None	£0
Contravention of, or failure to comply with, requirements to have in place specified	An amount corresponding to level 4 on the standard scale	Adult care homes: regulation 13(2), 23(1)	3 for adult care homes: 2 for children's homes	None	£0

policies and procedures		Children's homes: regulation 17, 11 **Fostering services: 44**			
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to the provision of information about the service	An amount corresponding to two times level 4 on the standard scale	Adult care homes: regulation 5 Children's homes: regulation 4 Domiciliary support services: regulation 5 **Fostering services: 4**	None	None	£0
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to the provision of a service agreement	An amount corresponding to level 4 on the standard scale	Adult care homes: regulation 5(1)(c) Children's homes: regulation 4 Domiciliary support services: regulation 5 **Fostering services: 4**	None	None	£0
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to the fitness of staff	An amount corresponding to two and a half times level 4 on the standard scale	Adult care homes: regulation 19 Children's homes: regulation 26 Domiciliary support services: regulation 15 **Fostering services: 20**	6 for adult care homes 6 for domiciliary support services	None	£0

Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to the provision of information for staff	An amount corresponding to two times level 4 on the standard scale	Adult care homes: regulation 18(4) Children's homes: regulation 27 Domiciliary support services: regulation 16 **Fostering services: 21**	None	None	£0
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to the making and maintenance of records	An amount corresponding to two times level 4 on the standard scale	Adult care homes: regulation 17 Children's homes: regulation 28 Domiciliary support services: regulation 20 **Fostering services: 22**	1 for adult care homes	None	£5000
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to notifications to the service regulator	An amount corresponding to two times level 4 on the standard scale	Adult care homes: regulations 11, 38, 39,40 Children's homes: regulations 10, 29, 36, 37 Domiciliary support services: regulations 12, 26, 27, 28 **Fostering services: 9, 43, 45, 46**	None	None	£0
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to	An amount corresponding to two and a half times level 4 on the	N/A as this is a new offence	N/A as this is a new offence	N/A	unknown

the duty of a responsible individual to appoint a manager	standard scale				
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to the duty of a responsible individual to report the adequacy of resources	An amount corresponding to two times level 4 on the standard scale	N/A as this is a new offence	N/A as this is a new offence	N/A	unknown
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to the making by a responsible individual of other reports to the service provider	An amount corresponding to two ties level 4 on the standard scale				
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to the preparation by a responsible individual of a report in respect of a quality of care review	An amount corresponding to two times level 4 on the standard scale	[this is applicable currently to the registered person] Adult care homes: regulation 25 Children's homes: regulation 33 Domiciliary support services: regulation 23 **Fostering services: 42**	[this is applicable currently to the registered person] 9 for adult care homes 3 for children's homes	None	£0
Contravention of, or failure to comply with, requirements in relation to the preparation by a responsible individual of a statement of	An amount corresponding to two times level 4 on the standard scale	Adult care homes: regulation 27 Children's homes: regulation 32 Domiciliary	11 for adult care homes	1 for adult care homes	£5000

compliance with the requirements as to standards of care and support		support services: regulation 23 **Fostering services: 42**			
Contravention of, or failure to comply with requirements in relation to the responsible individual's duty to make notifications to the service regulator	An amount corresponding to two times level 4 on the standard scale	N/A as this is a new offence	N/A as this is a new offence	N/A	
			Total = 50		**£25,000**

The table shows that the total amount for fines for all services[3] over a year would be £25,000, if CIW focussed on non-compliance that persisted over 12 months. However, these fines relate to services which are already included in *The Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2017*, which are already in force.

In relation to the additional services to be included in *The Regulated Services (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2019*, there were no breaches which might have led to the issuing of a penalty notice. However, this table does not take into account some of the new offences under the 2016 Act or the offences that could be brought against Advocacy services which are a newly regulated service under the 2016 Act. As there are currently only two advocacy service providers that are likely to be required to register under the 2016 Act however, costs are likely to be minimal. Due to the lack of data it is not possible to estimate the level of non-compliance against these requirements.

Benefits

<u>Option one: Do not implement a penalty notice scheme for the remaining regulated services under the 2016 Act</u>

For some providers there would be cost savings in not having to pay fines for non-compliance of certain requirements. For CIW, there would be a small saving in terms of staff time, as the regulator would be able to focus their efforts more strongly on inspecting services and spend less time on administering a penalty notice system. However, implementing a penalty notice scheme could arguably reduce the number of prosecutions brought forward, as providers may opt to pay the penalty rather than go through the lengthy process of criminal proceedings.

[3] All services except Advocacy services which are a new type of regulated service and were not previously regulated under the Care Standards Act 2000.

Option two: create regulations which provide detail about how the penalty notice scheme will operate in relation to all regulated services

Establishing a penalty notice scheme for all regulated services is in keeping with the policy intention of ensuring consistency across the range of regulated services. A penalty notice scheme provides CIW with a more flexible and proportionate system of regulation so that the regulator has a full range of powers at its disposal to deal with regulatory breaches. Sometimes there may be a need for prosecution as an alternative to civil enforcement, to deal with more serious offences under the 2016 Act. At other times there may not be an overriding desire to pursue prosecution which is expensive and consumes valuable time and resources in preparing for prosecution. In these circumstances, the regulator can opt to issue a penalty notice which sends a clear message to providers and RIs who are failing to comply with their duties; this goes further than the issuing of a non-compliance notice under civil enforcement powers. Creating regulations about penalty notices would add clarity about the way in which the penalty notice system would operate. It would benefit both CIW and service providers who would have a better understanding of the circumstances in which it would be appropriate to issue a penalty notice, the amount that can be charged, the time limit within which to pay the penalty and the information the notice should contain.

Risks

Option one: Do not implement a penalty notice scheme for the remaining regulated services under the 2016 Act

Without a penalty notice scheme for the remaining regulated services there is a risk that unscrupulous providers who continually fail to comply with the regulations will not make the necessary improvements because the current enforcement mechanisms do not act as a sufficient deterrent to non-compliance. There is also a risk of not fulfilling the policy intention of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 to ensure a consistent approach across all regulated services.

Option two: create regulations which provide detail about how the penalty notice scheme will operate in relation to all regulated services.

There is a risk that providers could challenge the penalty notices issued which would result in CIW having to take forward criminal proceedings, which is costly and time-consuming. The risk has been mitigated by developing the Securing Improvement and Enforcement policy which sets out CIW's proportionate approach to enforcement, of which the issuing of penalty notices is a part. Service Providers and Responsible Individuals are likely to be given notice and time to address non-compliance before penalty notices are issued.

Conclusion

The preferred option is option two in all cases.

The competition filter test

Question	Answer yes or no
Q1: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 10% market share?	Yes*
Q2: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 20% market share?	Yes*
Q3: In the market(s) affected by the new regulation, do the largest three firms together have at least 50% market share?	Yes*
Q4: Would the costs of the regulation affect some firms substantially more than others?	Yes
Q5: Is the regulation likely to affect the market structure, changing the number or size of firms?	No
Q6: Would the regulation lead to higher set-up costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet?	No
Q7: Would the regulation lead to higher ongoing costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet?	No
Q8: Is the sector categorised by rapid technological change?	No
Q9: Would the regulation restrict the ability of suppliers to choose the price, quality, range or location of their products?	No

*only in relation to advocacy services.

The filter test shows that it is not likely that the regulation will have any detrimental effect on competition; therefore a detailed assessment has not been conducted.

Post implementation review

CIW will monitor the implementation of these Regulations following their coming-into-force date of July 2019.

SL(5)421 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gwneud grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar gyfer cyrsiau gradd feistr ôl-raddedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019.

Er mwyn cymhwyso i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i fyfyriwr fod yn "myfyriwr cymwys". I fod yn fyfyriwr cymwys, rhaid i berson fodloni'r darpariaethau cymhwystra ym Mhennod 2 o Ran 4 ac unrhyw ofynion cymhwystra eraill mewn mannau eraill yn y Rheoliadau. Rhaid i fyfyriwr cymwys fodloni hefyd y gofynion penodol sy'n gymwys i bob math o gymorth ariannol. Nid yw person yn fyfyriwr cymwys os, ymhlith pethau eraill, yw'r person hwnnw eisoes wedi ennill cymhwyster sy'n cyfateb i radd feistr neu'n uwch na gradd feistr.

Nid yw cymorth ond ar gael o dan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â chyrsiau "dynodedig" o fewn ystyr rheoliadau 5 ac 8. Darperir cymorth i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig ble bynnag y bônt yn astudio yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi darpariaethau ar gyfer, ymhlith pethau eraill:

- cyfrifiadau cymorth manwl
- trosglwyddiadau rhwng cyrsiau dynodedig
- terfynau amser ar gyfer ceisiadau
- casglu gwybodaeth
- taliadau, gordaliadau ac adennill taliadau
- carcharorion cymwys
- gwelliannau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(i): ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires;

Mae eithriad 3 yn rheoliad 10(1), a rheoliad 13(1), yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru nad yw fel arall yn ddarostyngedig i feini prawf neu gyfyngiadau penodol (ac nid ymhelaethir arno yn y Memorandwm Esboniadol). Felly, ymddengys fod hyn yn rhoi disgresiwn sy'n golygu is-ddirprwyo o fath sy'n gofyn am bwerau galluogi penodol.

Nodir bod y pŵer galluogi[1] yn caniatáu i reoliadau wneud darpariaeth "ar gyfer penderfynu" ar gymhwystra sydd, mewn gwirionedd, yn caniatáu i Weinidogion Cymru is-ddirprwyo swyddogaeth ddewisol iddynt hwy eu hunain. Fodd bynnag, mae'r ragdybiaeth yn erbyn is-ddirprwyo yn un gref am resymau rheol y gyfraith, ac nid ymddengys ei bod wedi'i gwrthbrofi'n glir yn yr achos hwn dim ond drwy gyfeirio at ddarpariaeth "ar gyfer penderfynu" ar gymhwystra. Er y derbynnir na ellir yn hawdd nodi rhestr gynhwysfawr o feini prawf gwrthrychol yn y ddeddfwriaeth alluogi (er y gallai rheoliadau ei diwygio o bryd i'w gilydd), mae'r Pwyllgor o'r farn bod dadl barchus, sy'n cyfiawnhau adrodd ar y pwynt hwn, y dylai'r pŵer galluogi gyfeirio at feini prawf gwrthrychol yn hytrach na darparu disgresiwn agored yn unig.

Nodir bod Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyffredinol cyfraith gyhoeddus, neu yn wir y gellid cyhoeddi canllawiau gyda'r bwriad o leihau'r disgresiwn, ond nid yw hyn yn mynd i'r afael â'r cwestiwn sylfaenol a yw'r pŵer galluogi yn ddigon eang i roi'r disgresiwn yn y lle cyntaf.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v): bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn y diffiniad o 'corff cyhoeddus' ym mharagraff 20 o Atodlen 3, cyfeirir at 'cenedlaethol, rhanbarthol neu leol'. Mae hyn yn amwys ac yn aneglur. Er enghraifft, nid yw'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn glir a fwriedir i 'genedlaethol' gyfeirio at gyrff cyhoeddus Cymru, y DU neu gyrff cyhoeddus ehangach.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae rheoliad 10(1), eithriad 11 yn dweud nad yw person yn gymwys am fenthyciad ar gyfer Gradd Ddoethurol Ôl-raddedig os yw wedi cyrraedd 60 oed ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae'r cwrs yn dechrau.

1 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, adran 22(2)(a)

Mae'r Pwyllgor yn mynegi'r pryderon hawliau dynol a chydraddoldeb a ganlyn o ran y terfyn oedran hwn.

Mae Erthygl 2 o Brotocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn) yn cynnwys hawl gyffredinol i addysg.

Mae Erthygl 14 y Confensiwn yn darparu y bydd yr hawliau a'r rhyddfreiniau a nodir yn y Confensiwn yn cael eu sicrhau yn ddiwahân, heb wahaniaethu ar sawl sail amrywiol a ddiogelir, gan gynnwys oedran.[2]

Mae adran 13(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf Cydraddoldeb) yn gwahardd gwahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran, oni bai y gellir ei gyfiawnhau o dan adran 13(2).

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y ffiniau o ran disgresiwn yn ehangu'n unol â lefel yr addysg dan sylw, a bod gradd feistr ar lefel uchel yng nghyd-destun addysg. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y mesur wedi'i fwriadu i gyflawni nodau polisi cymdeithasol fel y'u nodir yn y Memorandwm Esboniadol, sy'n gyson â'r gyfraith achosion arweiniol sy'n ymwneud â chymhwyso Erthygl 6(1) o Gyfarwyddeb 2000/78/EC.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y materion a godwyd gan reoliad 10(1), eithriad 11 yn berthnasol i'r hawl i addysg. Mae gosod terfyn oedran uchaf o 60 yn wahaniaethol. Felly, mae'n angenrheidiol edrych a oes cyfiawnhad dros y terfyn oedran uchaf. Os gellir ei gyfiawnhau, nid yw'n groes i'r Confensiwn na'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r Goruchaf Lys wedi gosod prawf pedwar cwestiwn[3]:

a) A oes nod dilys i'r mesur a gymerir sy'n ddigonol i gyfiawnhau cyfyngiad ar hawl sylfaenol?

b) A yw'r mesur a gymerir wedi'i gysylltu yn rhesymegol â'r nod hwnnw?

c) A ellid defnyddio mesur llai ymwthiol?

d) A geir cydbwysedd teg?

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi cyfiawnhad dros osod terfyn oedran o'r fath ar y sail:

a) Mai nod y cynllun yw cynyddu sgiliau lefel uchel ar gyfer yr economi yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig. Mae'r Llywodraeth yn datgan, er mwyn sicrhau gwerth am arian, fod angen cyllid cynaliadwy a bod terfyn oedran o 60 yn lliniaru'r risg y caiff benthyciadau anghymesur eu cymryd gan fyfyrwyr hŷn a fydd yn

[2] Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi dyfarnu bod y 'mathau eraill o statws' a nodir yn Erthygl 14 yn cynnwys 'oedran', (Schwizgebel v Y Swistir (Rhif 25762/07).
[3] R (ar gais Tigere) (Apelydd) v yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau (Ymatebydd) [2015] UKSC 57

annhebygol o ad-dalu swm y benthyciad yn llawn neu wneud ad-daliadau sylweddol, ac y byddai ganddynt nifer cyfyngedig o flynyddoedd gwaith lle byddai eu sgiliau ar gael i'r economi. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi canfyddiadau dadansoddiadau y mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud, sy'n ei harwain at y casgliad hwn.

b) Mae angen sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ac mae'r Llywodraeth o'r farn bod gosod y terfyn oedran yn gysylltiedig yn rhesymol â'r nod.

c) Ystyriwyd y posibilrwydd o nodi mesur llai ymwthiol i gyflawni'r nod. Y casgliad oedd y byddai system a oedd yn gofyn am ymchwiliad ac asesiad unigol yn creu baich gweinyddol trwm a allai ddefnyddio adnoddau prin. Gallai system o'r fath hefyd gyflwyno cyfle i wneud penderfyniadau anghyson.

d) Bydd swm o gyllid drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn cael ei ddosbarthu i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i ddarparu bwrsariaeth na ellir ei had-dalu i fyfyrwyr cymwys, 60 oed a hŷn, sy'n astudio cyrsiau Meistr ôl-raddedig yng Nghymru sy'n dechrau yn y flwyddyn academaidd 2019/20. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, ar ôl hynny, nod y Llywodraeth yw darparu mynediad at elfennau grant cymorth Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr 60 oed a throsodd.

e) Gan ystyried ei thystiolaeth sy'n ymwneud â chyfraddau ad-dalu benthyciadau, ond hefyd y cyfraddau cyflogaeth (nid diben y benthyciad yw hwyluso nifer y myfyrwyr sy'n derbyn cyrsiau gradd doethurol nad oes ganddynt fwriad penodol i ddychwelyd i'r gweithle), mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y cyfyngiad oed yn taro cydbwysedd teg, ac y cyfiawnheir y terfyn oedran. Fodd bynnag, oherwydd oedran ymddeol cynyddol, mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i adolygu pob terfyn oedran sy'n cael ei roi ar israddedigion amser llawn a rhan-amser yn ogystal â chymorth i fyfyrwyr Meistr ôl-raddedig.

Rydym yn croesawu'r cyfiawnhad a nodir yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r amcanion polisi a ddilynir gan y Llywodraeth yn ymddangos yn ddilys ac mae'r camau a gymerwyd gan y Rheoliadau i'w cyflawni wedi'u cysylltu'n rhesymegol â nodau o'r fath. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dadansoddiad opsiynau a amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol sy'n rhoi tystiolaeth bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i osod cyfundrefn eithaf cytbwys sy'n llai ymwthiol. Felly, mae'n ymddangos bod y Llywodraeth wedi rhoi ystyriaeth briodol a gofalus i'r cyfiawnhad o osod terfyn oedran uchaf o 60 yn y Rheoliadau hyn.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r gofynion cymhwystra ar gyfer cyllid myfyrwyr wedi'u drafftio i roi ystyriaeth i aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Felly, bydd ambell fyfyriwr o'r UE yn gymwys i gael cymorth o dan y Rheoliadau. Nid yw wedi ei gadarnhau ar hyn o bryd pa effaith y bydd Brexit yn ei chael ar

symudedd myfyrwyr, ond roedd datganiad gan Lywodraeth Cymru ar 2 Gorffennaf 2018 yn cadarnhau y bydd myfyrwyr yr UE yn parhau i fod â hawl i gymorth i fyfyrwyr yn y flwyddyn academaidd 19/20.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb y Llywodraeth i'r pwyntiau craffu technegol yn yr adroddiad hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
8 Mai 2019

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 895 (Cy. 161)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gwneud grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar gyfer cyrsiau gradd feistr ôl-raddedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019.

Er mwyn cymhwyso i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i fyfyriwr fod yn "myfyriwr cymwys". I fod yn fyfyriwr cymwys, rhaid i berson fodloni'r darpariaethau cymhwystra ym Mhennod 2 o Ran 4 ac unrhyw ofynion cymhwystra eraill mewn mannau eraill yn y Rheoliadau. Rhaid i fyfyriwr cymwys fodloni hefyd y gofynion penodol sy'n gymwys i bob math o gymorth ariannol.

I fod yn fyfyriwr cymwys, rhaid i berson ddod o fewn un o'r categorïau a nodir yn Atodlen 2. Mae'r rhan fwyaf o'r categorïau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i'r person breswylio fel arfer yng Nghymru. At ddibenion y Rheoliadau hyn, ystyrir bod person sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, o ganlyniad i symud o un o'r ardaloedd hynny at ddiben ymgymryd â chwrs dynodedig, yn preswylio fel arfer yn y lle y symudodd y person hwnnw ohono (Atodlen 2, paragraff 11(1)). Nid yw person yn fyfyriwr cymwys os, ymhlith pethau eraill, yw'r person hwnnw eisoes wedi ennill cymhwyster sy'n cyfateb i radd feistr neu'n uwch na gradd feistr.

Penderfynir ar y cyfnod y mae myfyriwr yn gymwys i gael cymorth ar ei gyfer o dan y Rheoliadau hyn yn unol â rheoliadau 11 i 14. O dan amgylchiadau penodol, caiff myfyriwr cymwys drosglwyddo o un cwrs dynodedig i gwrs dynodedig arall.

Nid yw cymorth ond ar gael o dan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â chyrsiau "dynodedig" o fewn ystyr rheoliadau 5 ac 8. Darperir cymorth i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig ble bynnag y bônt yn astudio yn y Deyrnas Unedig. Mae rheoliadau 15 ac 16 yn nodi'r amgylchiadau y caiff myfyriwr gymhwyso i gael cymorth odanynt o dan y Rheoliadau hyn ar ôl i'r cwrs dynodedig ddechrau.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ceisiadau am gymorth (rheoliad 18), terfynau amser ar gyfer ceisiadau (rheoliad 19) ac mae rheoliad 20 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ymholiadau y maent yn meddwl eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniad ar gais ac er mwyn hysbysu ceisydd am benderfyniad. Mae'r Rhan hon hefyd yn gosod rhwymedigaethau ar fyfyrwyr cymwys i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru (rheoliad 22) ac i ymrwymo i gontract ar gyfer benthyciad (rheoliad 23).

Mae cymorth o dan y Rheoliadau hyn ar gael ar ffurf y grantiau a'r benthyciadau a ganlyn—

(a) grant sylfaenol a grant cyfrannu at gostau (Rhan 6);

(b) benthyciad cyfrannu at gostau (Rhan 7).

Swm y grant sylfaenol sy'n daladwy i fyfyriwr cymwys yw £1,000 (rheoliad 25). Penderfynir ar swm y grant cyfrannu at gostau sy'n daladwy i fyfyriwr drwy gyfeirio at incwm aelwyd y myfyriwr a pha un a yw'n berson sy'n ymadael â gofal (rheoliad 27). Cyfrifir incwm aelwyd myfyriwr cymwys yn unol â Rhan 2 o Atodlen 3. Diffinnir "person sy'n ymadael â gofal" yn rheoliad 29.

Mae benthyciadau cyfrannu ar gostau yn daladwy i fyfyrwyr cymwys yn unol â Rhan 7 o'r Rheoliadau hyn. Cyfrifir swm y benthyciad cyfrannu at gostau yn unol â rheoliad 31.

Mae Rhan 8 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â thaliadau, gordaliadau ac adennill taliadau. Mae rheoliad 33 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i dalu cymorth mewn rhandaliadau.

Mae rheoliad 34 yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad cymorth hyd nes eu bod wedi cael cadarnhad gan yr awdurdod academaidd perthnasol o bresenoldeb y myfyriwr ar y cwrs dynodedig. Mae rheoliad 35 yn galluogi Gweinidogion Cymru i beidio â thalu rhagor o daliadau cymorth os ydynt yn cael hysbysiad ynghylch diffyg presenoldeb myfyriwr ar y cwrs, ac eithrio pan fônt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud y taliadau hynny yn ystod absenoldeb y myfyriwr.

Mae rheoliad 36 yn nodi sut y mae hawlogaeth i gael cymorth yn newid pan fydd myfyriwr cymwys yn dod yn garcharor cymwys neu'n peidio â bod yn garcharor cymwys.

Mae Pennod 3 o Ran 8 yn nodi sut y gall Gweinidogion Cymru adennill unrhyw ordaliad o gymorth o dan y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 9 yn nodi'r gofynion gwybodaeth mewn perthynas â benthyciadau cyfrannu at gostau.

Mae Rhan 10 yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017.

Atodlen 4 yw'r atodlen olaf i'r Rheoliadau hyn ac mae'n cynnwys y mynegai o dermau wedi eu diffinio.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 Rhif 895 (Cy. 161)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

Gwnaed *29 Ebrill 2019*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *30 Ebrill 2019*

Yn dod i rym *27 Mai 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11; Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6; Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147; Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7; Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257; Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76; O.S. 2013/1181 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 88. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) i (i) a (k) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), ac mae is-adrannau (a), (c) a (k) yn arferadwy ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 27 Mai 2019.

Cymhwyso

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddarparu cymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019 pa un a gaiff unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn ei wneud cyn, ar neu ar ôl 1 Awst 2019.

(3) Ond nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddarparu cymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â chwrs o'r fath os yw'r cwrs yn un y mae statws y myfyriwr wedi trosglwyddo mewn perthynas ag ef o dan reoliad 6 o Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017(**1**) ("Rheoliadau Benthyciadau at Radd Feistr 2017").

(4) Am ddarpariaeth ynghylch cymorth a ddarperir i fyfyrwyr mewn perthynas â chwrs—

(a) y mae paragraff (3) yn gymwys iddo, neu

(b) sy'n dechrau cyn 1 Awst 2019,

gweler Rheoliadau Benthyciadau at Radd Feistr 2017.

RHAN 2

Trosolwg

Trosolwg

3.—(1) Mae'r Rhannau sy'n weddill o'r Rheoliadau hyn wedi eu trefnu fel a ganlyn.

(2) Mae Rhan 3 yn cyflwyno 2 Atodlen—

(a) Atodlen 1, sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch dehongli termau allweddol penodol;

(b) Atodlen 4, sy'n cynnwys mynegai o'r termau sydd wedi eu diffinio yn y Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 2017/523 (Cy. 109), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/712 (Cy. 169), O.S. 2018/277 (Cy. 53) ac O.S. 2018/814 (Cy. 165).

(3) Mae 2 Bennod i Ran 4, sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch y cysyniadau allweddol sy'n penderfynu ar gymhwystra i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn—

(a) mae Pennod 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch penderfynu a yw cwrs yn gwrs dynodedig at ddibenion y Rheoliadau hyn ac felly yn gwrs y caiff myfyriwr fod yn gymwys i gael cymorth mewn cysylltiad ag ef;

(b) mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y caiff myfyriwr sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig fod yn gymwys i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth weinyddol ynghylch—

(a) ceisiadau am gymorth o dan y Rheoliadau hyn;

(b) gofynion a osodir ar geiswyr a myfyrwyr cymwys i ddarparu gwybodaeth;

(c) contractau ar gyfer benthyciadau y gwneir cais amdanynt o dan y Rheoliadau hyn.

(5) Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cymorth grant sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) yr amodau cymhwyso y mae rhaid i fyfyriwr eu bodloni er mwyn cymhwyso i gael grant;

(b) swm y grant sydd ar gael.

(6) Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cymorth benthyciad sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) yr amodau cymhwyso y mae rhaid i fyfyriwr eu bodloni er mwyn cymhwyso i gael benthyciad;

(b) swm y benthyciad sydd ar gael.

(7) Mae 3 Pennod i Ran 8 ynghylch taliadau, gordaliadau ac adennill gordaliadau, yn benodol—

(a) mae Pennod 1 yn gwneud darpariaeth sy'n caniatáu i daliadau gael eu gwneud ar sail penderfyniadau dros dro;

(b) mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch talu grantiau a benthyciadau, gan gynnwys darpariaeth ynghylch pryd y caniateir i daliadau gael eu gwneud a'r gofynion sydd i'w bodloni cyn y gwneir taliadau;

(c) mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch gordaliadau, gan gynnwys darpariaeth sy'n pennu'r hyn sy'n ordaliad a sut y caniateir i ordaliad gael ei adennill.

(8) Mae Rhan 9 yn nodi cyfyngiadau ar dalu benthyciadau, gan gynnwys darpariaeth sy'n—

(a) cyfyngu ar dalu benthyciad os yw'r myfyriwr yn methu â darparu rhif Yswiriant Gwladol;

(b) cadw taliad benthyciad yn ôl os yw'r myfyriwr yn methu â darparu gwybodaeth benodol y gofynnir amdani.

(9) Mae Rhan 10 yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau Benthyciadau at Radd Feistr 2017.

RHAN 3

Dehongli a'r mynegai

Dehongli a'r mynegai

4.—(1) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli termau allweddol penodol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) Mae Atodlen 4, sef yr Atodlen olaf i'r Rheoliadau hyn, yn cynnwys y mynegai o dermau wedi eu diffinio.

RHAN 4

Cysyniadau allweddol

PENNOD 1

Cyrsiau dynodedig

Cyrsiau dynodedig

5. Yn y Rheoliadau hyn (ac at ddibenion adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998")), mae cwrs yn gwrs dynodedig—

(a) os yw'n bodloni pob un o'r amodau yn rheoliad 6, a

(b) os nad yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r eithriadau yn rheoliad 7.

Cyrsiau dynodedig – amodau

6.—(1) Yr amodau yw—

Amod 1

Mae'r cwrs yn un—

(a) sy'n arwain at ddyfarndal sydd wedi ei roi neu sydd i'w roi gan gorff sy'n dod o fewn

adran 214(2)(a) neu (b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**), a

(b) y mae'r addysgu a'r goruchwylio sy'n ffurfio'r cwrs wedi eu cymeradwyo gan y corff hwnnw.

Amod 2

Mae'r cwrs yn un o'r canlynol—

(a) cwrs llawnamser sy'n para un flwyddyn academaidd neu ddwy flynedd academaidd, neu

(b) cwrs rhan-amser y mae fel arfer yn bosibl ei gwblhau ymhen pedair blynedd academaidd.

Amod 3

Mae'r cwrs wedi ei ddarparu gan—

(a) sefydliad a gyllidir gan Gymru, sefydliad a gyllidir gan yr Alban, sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon neu sefydliad rheoleiddiedig Seisnig (pa un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â sefydliad sydd o fewn neu y tu allan i'r Deyrnas Unedig), neu

(b) sefydliad Seisnig cofrestredig ar ran darparwr cynllun Seisnig.

Amod 4

Mae o leiaf hanner yr addysgu a'r goruchwylio sy'n ffurfio'r cwrs yn cael ei ddarparu yn y Deyrnas Unedig.

(2) At ddibenion Amod 3—

(a) mae cwrs yn cael ei ddarparu gan sefydliad os yw'n darparu'r addysgu a'r goruchwylio sy'n ffurfio'r cwrs, pa un a yw'r sefydliad wedi ymrwymo i gytundeb â'r myfyriwr i ddarparu'r cwrs ai peidio;

(b) bernir bod prifysgol ac unrhyw goleg neu sefydliad cyfansoddol sydd o natur coleg prifysgol yn—

(i) sefydliad a gyllidir gan Gymru,

(ii) sefydliad a gyllidir gan yr Alban,

(iii) sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon,

(iv) sefydliad rheoleiddiedig Seisnig,

(v) sefydliad Seisnig cofrestredig, neu

(vi) darparwr cynllun Seisnig,

os yw naill ai'r brifysgol neu'r coleg neu sefydliad cyfansoddol yn sefydliad o'r fath;

(**1**) 1998 p. 40; diwygiwyd adran 214(2) gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), adran 93 ac Atodlen 8 a chan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 53.

(c) ni fernir bod sefydliad yn sefydliad a gyllidir gan Gymru dim ond am ei fod yn cael arian oddi wrth gorff llywodraethu sefydliad addysg uwch fel sefydliad cysylltiedig yn unol ag adran 65(3A) a (3B) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**).

Cyrsiau dynodedig – eithriadau

7. Nid yw cwrs yn gwrs dynodedig os yw'n cael ei gydnabod yn gwrs dynodedig at ddibenion—

(a) rheoliad 5 neu 83 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**2**) ("Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr 2017");

(b) rheoliad 5 neu 8 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**3**) ("Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr 2018");

(c) rheoliad 4 o Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(**4**) ("Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol 2018").

Dynodi cyrsiau eraill

8.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru bennu bod cwrs i'w drin fel pe bai'n gwrs dynodedig er gwaethaf y ffaith na fyddai fel arall yn gwrs dynodedig, oni bai am y pennu.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu ddirymu pennu cwrs a wneir o dan baragraff (1).

PENNOD 2

Cymhwystra

Myfyrwyr cymwys

9.—(1) Mae person yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig y mae'r person yn ymgymryd ag ef—

(a) os yw'r person yn dod o fewn un o'r categorïau o bersonau a nodir yn Atodlen 2, a

(**1**) 1992 p. 13; mewnosodwyd is-adrannau (3A) a (3B) o adran 65 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 27.
(**2**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/191 (Cy. 42) ac O.S. 2018/814 (Cy. 165).
(**3**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/813 (Cy. 164) ac O.S. 2018/814 (Cy. 165).
(**4**) O.S. 2018/656 (Cy. 124), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/814 (Cy. 165).

(b) os nad yw unrhyw un neu ragor o'r eithriadau a nodir yn rheoliad 10 yn gymwys i'r person.

(2) Dim ond mewn cysylltiad ag un cwrs dynodedig y caiff person fod yn fyfyriwr cymwys ar unrhyw un adeg.

Myfyrwyr cymwys – eithriadau

10.—(1) Nid yw person ("P") yn fyfyriwr cymwys os yw unrhyw un neu ragor o'r eithriadau a ganlyn yn gymwys—

Eithriad 1

Mae P wedi torri unrhyw rwymedigaeth i ad-dalu unrhyw fenthyciad.

Eithriad 2

Mae P wedi cyrraedd 18 oed ac nid yw wedi cadarnhau unrhyw gytundeb ar gyfer benthyciad a wnaed gyda P pan oedd P o dan 18 oed.

Eithriad 3

Mae Gweinidogion Cymru yn meddwl bod ymddygiad P o'r fath fel nad yw P yn addas i gael cymorth.

Eithriad 4

Mae P yn garcharor, oni bai bod P yn garcharor cymwys.

Eithriad 5

Mae P wedi ymrestru ar gwrs sy'n gwrs dynodedig o dan—

(a) rheoliad 5, 66 neu 83 o Reoliadau Cymorth i Fyfyrwyr 2017 ac yn cael cymorth o dan y Rheoliadau hynny ar gyfer y cwrs hwnnw;

(b) rheoliad 5 o Reoliadau Cymorth i Fyfyrwyr 2018 ac yn cael cymorth o dan y Rheoliadau hynny ar gyfer y cwrs hwnnw;

(c) rheoliad 4 o Reoliadau Benthyciadau at Radd Feistr 2017 ac yn cael cymorth o dan y Rheoliadau hynny ar gyfer y cwrs hwnnw;

(d) rheoliad 4 o Reoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol 2018 ac yn cael cymorth o dan y Rheoliadau hynny ar gyfer y cwrs hwnnw.

Eithriad 6

Mae P eisoes wedi cael cymhwyster cyfatebol neu uwch.

Eithriad 7

Mae P eisoes wedi ymrestru ar gwrs dynodedig ac yn cael cymorth o dan y Rheoliadau hyn ar gyfer y cwrs hwnnw.

Eithriad 8

Mae P wedi cael cymorth yn flaenorol mewn cysylltiad â chwrs—

(a) o dan y Rheoliadau hyn,

(b) o dan Reoliadau Benthyciadau at Radd Feistr 2017, neu

(c) ar ffurf benthyciad a ddarparwyd o gronfeydd a ddarperir gan awdurdod llywodraeth o fewn y Deyrnas Unedig.

Ond caiff P fod yn fyfyriwr cymwys er gwaethaf yr eithriad hwn os yw Gweinidogion Cymru o'r farn nad oedd P wedi gallu cwblhau'r cwrs yr oedd y benthyciad blaenorol yn ymwneud ag ef o ganlyniad i resymau personol anorchfygol.

Eithriad 9

Mewn cysylltiad â P yn ymgymryd â'r cwrs dynodedig, rhoddwyd i P neu talwyd iddo—

(a) bwrsari gofal iechyd;

(b) unrhyw lwfans o dan Reoliadau Lwfansau Myfyrwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth (Yr Alban) 2007(**1**);

(c) unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg a wneir o dan adran 67(4)(a) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**2**) ac eithrio i'r graddau y mae A yn gymwys i gael y taliad hwnnw mewn cysylltiad â threuliau teithio;

(d) unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg a wneir o dan adran 116(2)(a) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**3**) ac eithrio i'r graddau y mae P yn gymwys i gael y taliad hwnnw mewn cysylltiad â threuliau teithio;

(e) unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal a wneir o dan Gynllun KESS 2.

Eithriad 10

Mae'r cwrs dynodedig yn gwrs dysgu o bell ac nid yw P yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan—

(a) bo P neu berthynas agos i P yn aelod o'r lluoedd arfog,

(**1**) O.S.A. 2007/151, a ddiwygiwyd gan O.S.A. 2007/503, O.S.A. 2008/206, O.S.A. 2009/188, O.S.A 2009/309, O.S.A. 2012/72, O.S.A. 2013/80 ac O.S.A. 2017/180.

(**2**) 2000 p. 14; a ddiwygiwyd gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2), Atodlen 3(2), paragraff 43.

(**3**) 2016 dccc 2.

(b) na fo P yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf, ac

(c) na fo P yng Nghymru ar y diwrnod hwnnw oherwydd bod P neu'r berthynas agos yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog y tu allan i Gymru.

Eithriad 11

Mae P yn 60 oed neu drosodd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(2) Yn Eithriadau 1 a 2, ystyr "benthyciad" yw benthyciad a wneir o dan unrhyw ddarpariaeth o'r ddeddfwriaeth ar fenthyciadau i fyfyrwyr.

(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond arfer eu disgresiwn o dan Eithriad 8 unwaith mewn cysylltiad â myfyriwr penodol.

Cyfnod cymhwystra – y rheol gyffredinol

11.—(1) Cedwir statws myfyriwr fel myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig tan ddiwedd cyfnod cymhwystra'r myfyriwr oni bai bod ei statws wedi ei derfynu yn unol â rheoliad 12 neu 13.

(2) Daw cyfnod cymhwystra myfyriwr i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn cwblhau'r cwrs dynodedig ynddi.

Terfynu cymhwystra yn gynnar

12.—(1) Mae cyfnod cymhwystra myfyriwr cymwys ("P") yn terfynu ar ddiwedd y diwrnod—

(a) pan fydd P yn tynnu'n ôl o'i gwrs dynodedig ac nad yw Gweinidogion Cymru yn trosglwyddo statws P fel myfyriwr cymwys o dan reoliad 17, neu

(b) pan fydd P yn cefnu ar ei gwrs dynodedig neu'n cael ei ddiarddel ohono.

(2) Pan—

(a) bo cwrs dynodedig myfyriwr cymwys ("P") yn gwrs dysgu o bell, a

(b) bo P yn ymgymryd â'r cwrs y tu allan i'r Deyrnas Unedig,

mae cyfnod cymhwystra P yn terfynu ar ddechrau'r diwrnod cyntaf pan fydd P yn ymgymryd â'r cwrs y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys pan fo P yn ymgymryd â chwrs dysgu o bell y tu allan i'r Deyrnas Unedig oherwydd bod P neu berthynas agos i P yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog.

Camymddwyn a methu â darparu gwybodaeth gywir

13.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru derfynu cyfnod cymhwystra myfyriwr cymwys os ydynt wedi eu bodloni bod ymddygiad y myfyriwr o'r fath fel nad yw'r myfyriwr yn addas mwyach i gael cymorth.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod myfyriwr cymwys—

(a) wedi methu â chydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth o dan y Rheoliadau hyn, neu

(b) wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth a oedd yn sylweddol anghywir.

(3) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) terfynu cyfnod cymhwystra'r myfyriwr;

(b) penderfynu nad yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael categori penodol o gymorth neu swm y cymorth hwnnw.

Adfer cymhwystra ar ôl terfynu

14. Pan fo cyfnod cymhwystra myfyriwr yn terfynu o dan reoliad 12 neu 13 yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn cwblhau'r cwrs dynodedig ynddi, caiff Gweinidogion Cymru adfer cyfnod cymhwystra'r myfyriwr am unrhyw gyfnod y maent yn meddwl ei fod yn briodol.

Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod cwrs

15. Pan fo un o'r digwyddiadau a restrir yn rheoliad 16(1) yn digwydd yn ystod cwrs myfyriwr, caiff myfyriwr gymhwyso i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn, ar yr amod bod y myfyriwr yn cydymffurfio â'r darpariaethau gwneud cais a nodir yn Rhan 5.

16.—(1) Y digwyddiadau yw—

(a) bod cwrs y myfyriwr yn dod yn gwrs dynodedig;

(b) bod y myfyriwr yn dod yn fyfyriwr cymwys ar y sail—

(i) bod y myfyriwr neu ei briod, ei bartner sifil neu ei riant yn cael ei gydnabod yn ffoadur, yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(ii) bod gwladwriaeth yn ymaelodi â'r UE pan fo'r myfyriwr yn wladolyn o'r

wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu gwladolyn o'r wladwriaeth honno;

(iii) bod y myfyriwr yn dod yn aelod o deulu gwladolyn UE;

(iv) bod y myfyriwr yn ennill yr hawl i breswylio'n barhaol;

(v) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i weithiwr Twrcaidd;

(vi) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6(1)(a) o Atodlen 2;

(vii) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd;

(viii) bod y myfyriwr neu riant y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;

(c) bod y myfyriwr yn cychwyn cwrs dynodedig ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs dynodedig am fod yr awdurdod academaidd perthnasol wedi caniatáu i'r myfyriwr gychwyn y cwrs ar y dyddiad dechrau diweddarach hwn.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae i'r termau a ganlyn yr un ystyr ag yn Atodlen 2—

"aelod o deulu" ("*family member*") (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 8(5) o Atodlen 2);

"ffoadur" ("*refugee*");

"gweithiwr Twrcaidd" ("*Turkish worker*");

"hawl i breswylio'n barhaol" ("*right of permanent residence*");

"person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" ("*person with section 67 leave to remain*");

"person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*");

"person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth" ("*person granted stateless leave*");

"plentyn" ("*child*");

"rhiant" ("*parent*").

Trosglwyddo statws

17.—(1) Pan fo myfyriwr cymwys ("P") yn trosglwyddo o gwrs dynodedig i gwrs dynodedig arall ("y cwrs newydd"), rhaid i Weinidogion Cymru drosglwyddo statws y myfyriwr fel myfyriwr cymwys i'r cwrs newydd—

(a) os ydynt yn cael cais oddi wrth y myfyriwr i wneud hynny,

(b) os ydynt wedi eu bodloni bod un o'r seiliau trosglwyddo yn gymwys (gweler paragraff (2)), ac

(c) os nad yw cyfnod cymhwystra'r myfyriwr wedi terfynu.

(2) Y seiliau dros drosglwyddo yw—

(a) bod P, ar argymhelliad yr awdurdod academaidd, yn rhoi'r gorau i un cwrs dynodedig ac yn dechrau ymgymryd â chwrs dynodedig arall yn yr un sefydliad; neu

(b) bod P yn dechrau ymgymryd â chwrs dynodedig mewn sefydliad arall.

(3) Pan fo P yn trosglwyddo o dan baragraff (1), mae hawlogaeth gan P, mewn cysylltiad â'r cwrs y mae P yn trosglwyddo iddo, i gael gweddill y cymorth, os oes unrhyw swm yn weddill, yn unol â rheoliad 33 a, phan fo'n berthnasol, reoliad 36, mewn cysylltiad â'r cwrs y mae P yn trosglwyddo ohono.

RHAN 5

Ceisiadau, darparu gwybodaeth a chontractau benthyciadau

Gofyniad i wneud cais am gymorth

18.—(1) Nid yw person yn cymhwyso i gael cymorth fel myfyriwr cymwys mewn perthynas â chwrs dynodedig oni bai bod y person yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â'r cwrs hwnnw.

(2) Rhaid i gais o dan baragraff (1)—

(a) bod ar y ffurf honno a chynnwys yr wybodaeth honno sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru,

(b) dod gydag unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru,

(c) cyrraedd Gweinidogion Cymru o fewn y terfyn amser a bennir yn rheoliad 19, a

(d) datgan a yw'r person yn gwneud cais am—

(i) grant sylfaenol,

(ii) grant cyfrannu at gostau,

(iii) benthyciad cyfrannu at gostau, neu

(iv) unrhyw gyfuniad o'r uchod.

Terfynau amser

19.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i gais o dan reoliad 18(1) neu gais i ddiwygio swm y benthyciad o dan reoliad 31(4) gyrraedd Gweinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na diwedd y nawfed mis o flwyddyn academaidd olaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried, ar ôl rhoi sylw i amgylchiadau'r achos penodol, na ddylai'r terfyn

amser fod yn gymwys ac, yn yr achos hwnnw, rhaid i'r cais i ddiwygio'r swm gyrraedd Gweinidogion Cymru heb fod yn hwyrach nag unrhyw ddyddiad a bennir ganddynt yn ysgrifenedig.

Penderfyniad Gweinidogion Cymru ar gais

20.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau a gwneud unrhyw ymholiadau y maent yn meddwl eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniad ar gais o dan reoliad 18.

(2) Caiff y camau hynny gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth bellach.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud penderfyniad dros dro ar gais o dan reoliad 18 (gweler rheoliad 32 am ddarpariaeth ynghylch taliadau a wneir ar sail penderfyniad dros dro).

(4) Caniateir i benderfyniad ar gais a wneir gan Weinidogion Cymru ar ôl i benderfyniad dros dro gael ei wneud—

(a) cadarnhau'r penderfyniad dros dro, neu

(b) rhoi penderfyniad gwahanol yn ei le.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am benderfyniad (gan gynnwys penderfyniad dros dro) ar gais o dan reoliad 18.

(6) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan—

(a) a yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y ceisydd yn fyfyriwr cymwys,

(b) os felly, a yw'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael cymorth mewn perthynas â'r cwrs dynodedig,

(c) os yw'r myfyriwr yn cymhwyso, gategori'r cymorth y mae'r myfyriwr yn cymhwyso i'w gael a'r swm sy'n daladwy,

(d) yn achos penderfyniad dros dro, y ffaith bod y penderfyniad yn un dros dro a chanlyniadau'r ffaith honno.

21.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo person ("P") yn gwneud cais am gymorth yn unol â rheoliad 18,

(b) pan na fo unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth a ddarperir gan P yn y cais, neu mewn cysylltiad ag ef, yn sylweddol anghywir, ac

(c) pan fo P yn cael hysbysiad gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 20(5) sy'n datgan yn anghywir fod P yn fyfyriwr cymwys.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, er bod yr hysbysiad yn datgan yn anghywir fod P yn fyfyriwr

cymwys, caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion y Rheoliadau hyn, drin P fel pe bai'n fyfyriwr cymwys.

Gofynion ar fyfyrwyr cymwys i ddarparu gwybodaeth

22.—(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael cais i wneud hynny, rhaid i fyfyriwr cymwys ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru—

(a) at ddibenion penderfynu—

(i) cymhwystra myfyriwr;

(ii) a yw myfyriwr yn cymhwyso i gael cymorth;

(iii) y math o gymorth a swm y cymorth sy'n daladwy i fyfyriwr;

(iv) a yw gordaliad wedi cael ei wneud i fyfyriwr;

(b) at unrhyw ddiben sy'n ymwneud ag adennill gordaliad;

(c) at unrhyw ddiben sy'n ymwneud ag addalu benthyciad;

(d) at unrhyw ddiben arall sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei fod yn briodol.

(2) Caniateir i gais o dan baragraff (1) gynnwys gofyn i fyfyriwr cymwys am gael gweld—

(a) ei basbort dilys a ddyroddwyd gan y wladwriaeth y mae'r myfyriwr hwnnw yn wladolyn ohoni,

(b) ei gerdyn adnabod cenedlaethol dilys, neu

(c) ei dystysgrif geni.

(3) Pan fo digwyddiad a grybwyllir ym mharagraff (4) yn digwydd mewn cysylltiad â myfyriwr cymwys, rhaid i'r myfyriwr roi gwybod i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y digwyddiad.

(4) Y digwyddiadau yw—

(a) bod y myfyriwr yn tynnu'n ôl o'i gwrs, yn cael ei atal dros dro ohono, yn cefnu arno neu'n cael ei ddiarddel ohono;

(b) bod y myfyriwr yn trosglwyddo i gwrs arall (pa un ai yn yr un sefydliad neu mewn sefydliad gwahanol);

(c) bod y myfyriwr fel arall yn peidio ag ymgymryd â'i gwrs ac nad yw'n bwriadu parhau ag ef am weddill y flwyddyn academaidd neu na chaniateir iddo barhau ag ef am weddill y flwyddyn academaidd;

(d) bod y myfyriwr yn absennol o'r cwrs—

(i) am fwy na 60 niwrnod oherwydd salwch, neu

(ii) am unrhyw gyfnod am unrhyw reswm arall;

(e) bod y mis ar gyfer dechrau ar y cwrs neu ei gwblhau yn newid;

(f) bod y manylion a ganlyn, sef—

(i) cyfeiriad cartref y ceisydd neu ei gyfeiriad yn ystod y tymor,

(ii) rhif ffôn cartref y ceisydd neu ei rif ffôn yn ystod y tymor, neu

(iii) cyfeiriad e-bost cartref y ceisydd neu ei gyfeiriad e-bost yn ystod y tymor,

yn newid;

(g) bod y ceisydd yn dod yn garcharor neu'n peidio â bod yn garcharor.

(5) Rhaid darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth y mae'n ofynnol iddi gael ei darparu i Weinidogion Cymru o dan y Rheoliadau hyn ar y ffurf honno a bennir gan Weinidogion Cymru.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol bod rhaid llofnodi—

(a) cais o dan reoliad 18;

(b) unrhyw ddogfennaeth arall a ddarperir iddynt o dan y Rheoliadau hyn,

yn y modd (gan gynnwys ar ffurf electronig) a bennir ganddynt.

(7) Mae'r cyfeiriad at fyfyriwr cymwys ym mharagraff (1) i'w drin fel pe bai'n cynnwys person sy'n gwneud cais o dan reoliad 18 hyd yn oed os penderfyniad Gweinidogion Cymru ar y cais yw nad yw'r person yn fyfyriwr cymwys.

(8) Gweler rheoliad 13 am ddarpariaeth ynghylch canlyniadau methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliad hwn.

Gofyniad i ymrwymo i gontract ar gyfer benthyciad

23.—(1) Ni chaiff myfyriwr cymwys gael benthyciad cyfrannu at gostau o dan y Rheoliadau hyn oni bai bod y myfyriwr yn ymrwymo i gontract ar gyfer y benthyciad â Gweinidogion Cymru.

(2) O ran y contract—

(a) rhaid iddo fod ar y ffurf ac ar y telerau, a

(b) caiff fod yn ofynnol iddo gael ei lofnodi yn y modd (gan gynnwys ar ffurf electronig),

a bennir gan Weinidogion Cymru.

RHAN 6

Y grant sylfaenol a'r grant cyfrannu at gostau

PENNOD 1

Amodau cymhwyso

Y grant sylfaenol a'r grant cyfrannu at gostau

24. Grantiau sy'n cael eu rhoi ar gael gan Weinidogion Cymru i fyfyriwr cymwys mewn perthynas â chwrs dynodedig yw'r grant sylfaenol a'r grant cyfrannu at gostau.

PENNOD 2

Y grant sylfaenol

Swm y grant sylfaenol

25. Swm y grant sylfaenol sydd ar gael i fyfyriwr cymwys yw £1,000.

PENNOD 3

Grant cyfrannu at gostau

Amodau cymhwyso i gael grant cyfrannu at gostau

26. Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant cyfrannu at gostau mewn perthynas â chwrs dynodedig oni bai bod y myfyriwr cymwys yn garcharor cymwys.

Swm y grant cyfrannu at gostau

27.—(1) Uchafswm y grant cyfrannu at gostau sydd ar gael i fyfyriwr cymwys yw £5,885.

(2) Pan—

(a) na fo incwm aelwyd y myfyriwr yn fwy na £18,370, neu

(b) bo'r myfyriwr yn berson sy'n ymadael â gofal,

swm y grant cyfrannu at gostau yw £5,885.

(3) Pan fo incwm aelwyd y myfyriwr yn fwy na £18,370 ond yn llai na £59,200, swm y grant cyfrannu at gostau sy'n daladwy i'r myfyriwr yw uchafswm y grant cyfrannu at gostau, wedi ei ostwng £1 am bob £6.937 o incwm aelwyd sy'n fwy na £18,370.

(4) Pan fo incwm aelwyd y myfyriwr cymwys yn £59,200 neu ragor, swm y grant cyfrannau at gostau sy'n daladwy yw £0.

Incwm yr aelwyd

28. Gweler Atodlen 3 am ddarpariaeth ynghylch cyfrifo incwm aelwyd myfyriwr cymwys.

Ystyr person sy'n ymadael â gofal

29. Mae myfyriwr cymwys yn "person sy'n ymadael â gofal"—

(a) os yw'r myfyriwr o dan 25 oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig,

(b) os yw'r myfyriwr yn gategori o berson ifanc, neu wedi bod yn gategori o berson ifanc, a ddiffinnir yn adran 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), neu yn rhinwedd yr adran honno, ac

(c) os, rhwng pen-blwydd y myfyriwr yn 14 oed a diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(i) oedd y myfyriwr yn derbyn gofal, wedi ei faethu neu wedi ei letya (o fewn ystyr adrannau 74 a 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) am gyfnod cyfanredol o 13 wythnos neu ragor, neu

(ii) oedd y myfyriwr yn berson yr oedd gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig (o fewn yr ystyr a roddir i "special guardianship order" gan adran 14A o Ddeddf Plant 1989(**2**)) mewn grym mewn cysylltiad ag ef am gyfnod o 13 wythnos neu ragor.

RHAN 7

Benthyciad cyfrannu at gostau

Benthyciad cyfrannu at gostau

30. Mae benthyciad cyfrannu at gostau yn fenthyciad sy'n cael ei roi ar gael gan Weinidogion Cymru i fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig.

(**1**) 2014 dccc 4.

(**2**) 1989 p. 41; mewnosodwyd adran 14A gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6) a Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

Swm y benthyciad cyfrannu at gostau

31.—(1) Cyfrifir swm y benthyciad cyfrannu at gostau sy'n daladwy i fyfyriwr cymwys fel a ganlyn—

Uchafswm y benthyciad cyfrannu at gostau sydd ar gael i'r myfyriwr mewn cysylltiad â chwrs dynodedig.

Minws

Swm y grant cyfrannu at gostau sy'n daladwy i'r myfyriwr o dan reoliad 27.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), uchafswm y benthyciad cyfrannu at gostau yw £16,000.

(3) Pan fo carcharor cymwys yn gwneud cais am fenthyciad cyfrannu at gostau, ni chaiff swm y benthyciad fod yn fwy na'r lleiaf o'r canlynol—

(a) y ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r cwrs dynodedig minws swm y grant sylfaenol sy'n daladwy i'r carcharor cymwys o dan reoliad 25, a

(b) £16,000.

(4) Ac eithrio pan fo rheoliad 36(5) i (10) yn gymwys, caiff myfyriwr cymwys wneud cais i Weinidogion Cymru i ddiwygio swm y benthyciad cyfrannu at gostau y mae'r myfyriwr wedi gwneud cais amdano, ar yr amod—

(a) nad yw cyfanred symiau'r benthyciad cyfrannu at gostau y gwneir cais amdanynt yn fwy na'r symiau cymwys a nodir ym mharagraffau (2) a (3);

(b) bod cais o'r fath yn cael ei wneud yn unol â rheoliad 18(2).

RHAN 8

Taliadau, Gordaliadau ac Adennill

PENNOD 1

Taliad yn dilyn penderfyniad dros dro

Taliad ar sail asesiad dros dro

32. Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad dros dro ar gais a wneir o dan reoliad 18, caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad sy'n seiliedig ar y penderfyniad hwnnw.

PENNOD 2

Talu grantiau a benthyciadau

Talu grantiau a benthyciadau

33.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu swm y grant sylfaenol, y grant cyfrannu at gostau neu'r benthyciad cyfrannu at gostau i fyfyriwr cymwys pan fo'n daladwy i'r myfyriwr.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), caiff Gweinidogion Cymru dalu'r swm hwnnw—

(a) naill ai fel cyfandaliad neu mewn rhandaliadau, a

(b) ar unrhyw adegau, ac mewn unrhyw fodd, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn amod o'r hawlogaeth i gael taliad bod yn rhaid i'r myfyriwr cymwys ddarparu i Weinidogion Cymru fanylion cyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig y gall taliadau gael eu talu iddo drwy drosglwyddiad electronig.

(4) Yn achos carcharor cymwys, rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r grant sylfaenol a'r benthyciad cyfrannu at gostau y mae carcharor cymwys yn cymhwyso i'w cael i'r sefydliad y mae'r carcharor cymwys yn atebol i wneud taliad o'r ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r cwrs dynodedig iddo neu i unrhyw drydydd parti y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol at ddiben sicrhau y telir y ffioedd hynny i'r sefydliad perthnasol.

Cadarnhad o bresenoldeb

34.—(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru dalu'r grant neu'r benthyciad neu unrhyw randaliad o'r grant neu'r benthyciad y mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i'w gael oni bai eu bod wedi cael gan yr awdurdod academaidd perthnasol gadarnhad (ar y ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru) o bresenoldeb y myfyriwr ar y cwrs dynodedig.

(2) Rhaid i'r awdurdod academaidd roi gwybod i Weinidogion Cymru ar unwaith a darparu manylion i Weinidogion Cymru os yw'r myfyriwr yn tynnu'n ôl o'r cwrs dynodedig, yn cael ei atal dros dro neu ei ddiarddel ohono, neu os yw fel arall yn absennol.

(3) Nid yw myfyriwr cymwys i'w ystyried yn absennol o'i gwrs os nad yw'n gallu bod yn bresennol oherwydd salwch ac nad yw'r myfyriwr cymwys wedi bod yn absennol am fwy na 60 niwrnod.

Absenoldeb o'r cwrs

35.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4), os yw Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o dan reoliad 34(2) neu o dan reoliad 22(3) mewn perthynas â digwyddiad a restrir yn rheoliad 22(4)(a) i (d), ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad pellach o'r grant sylfaenol, y grant cyfrannu at gostau neu'r benthyciad cyfrannu at gostau mewn cysylltiad â'r myfyriwr cymwys y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

(2) Caniateir gwneud taliadau pellach er gwaethaf diffyg presenoldeb y myfyriwr os, ym marn Gweinidogion Cymru, byddai'r taliadau hynny yn briodol o dan yr holl amgylchiadau yn ystod absenoldeb y myfyriwr.

(3) Os yw'r myfyriwr cymwys yn ailgychwyn y cwrs dynodedig, rhaid i'r myfyriwr hysbysu Gweinidogion Cymru a rhoi manylion llawn am hyd ac achos yr absenoldeb blaenorol.

(4) Ar ôl ystyried hysbysiad y myfyriwr o dan baragraff (3), caiff Gweinidogion Cymru ailgychwyn unrhyw daliadau sy'n weddill o'r grant sylfaenol, y grant cyfrannu at gostau neu'r benthyciad cyfrannu at gostau o dan reoliad 33 os, ym marn Gweinidogion Cymru, byddai'n briodol o dan yr holl amgylchiadau i'r taliad hwnnw gael ei wneud.

Effaith dod, neu beidio â bod, yn garcharor cymwys

36.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo myfyriwr cymwys sy'n cael grant sylfaenol, grant cyfrannu at gostau neu fenthyciad cyfrannu at gostau yn dod yn garcharor cymwys ac yn parhau i ymgymryd â chwrs dynodedig.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) peidio â gwneud unrhyw daliad yn y dyfodol o'r grant cyfrannu at gostau,

(b) addasu taliad o'r grant sylfaenol a'r benthyciad cyfrannu at gostau yn y dyfodol neu daliadau yn y dyfodol o randaliadau'r grant sylfaenol a'r benthyciad cyfrannu at gostau, fel nad yw cyfanswm y cymorth a geir gan y myfyriwr cymwys yn fwy na'r swm y mae hawlogaeth gan y myfyriwr, fel carcharor cymwys, i'w gael o dan reoliad 31(3), ac

(c) gwneud unrhyw daliadau yn y dyfodol o'r grant sylfaenol neu'r benthyciad cyfrannu at gostau, yn unol â rheoliad 33(4).

(3) Mae paragraffau (4) i (10) yn gymwys pan fo carcharor cymwys sy'n cael grant sylfaenol neu fenthyciad cyfrannu at gostau yn peidio â bod yn

garcharor cymwys ac yn aros yn fyfyriwr cymwys, ac yn parhau i ymgymryd â chwrs dynodedig.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud unrhyw daliadau o'r grant sylfaenol, y benthyciad cyfrannu at gostau a'r grant cyfrannu at gostau yn y dyfodol, os oes rhai, yn unol â rheoliad 33(2).

(5) Pan fo myfyriwr cymwys ("P") yn peidio â bod yn garcharor cymwys caiff P, yn ddarostyngedig i baragraffau (6) i (8) wneud cais am grant cyfrannu at gostau.

(6) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), cyfrifir swm y grant cyfrannu at gostau sy'n daladwy i P drwy gyfeirio at y fformiwla a ganlyn—

$$G\ x\ (\frac{R}{T})$$

pan fo—

G yn gyfwerth ag uchafswm y grant cyfrannu at gostau sy'n daladwy i P yn unol â pharagraff (7);

T yn gyfwerth â chyfanswm nifer y diwrnodau y mae'r cwrs dynodedig yn para;

R yn gyfwerth â nifer y diwrnodau o'r cwrs dynodedig sy'n weddill pan fydd P yn peidio â bod yn garcharor cymwys.

(7) Uchafswm y grant cyfrannu at gostau sy'n daladwy i P yw—

(a) £5,885 pan na fo incwm aelwyd y myfyriwr yn fwy na £18,370;

(b) £5,885 wedi ei ostwng £1 am bob £6.937 o incwm aelwyd sy'n fwy na £18,370;

(c) £0 pan fo incwm aelwyd y myfyriwr yn £59,200 neu ragor.

(8) Ni chaiff swm y grant cyfrannu at gostau sy'n daladwy i fyfyriwr o dan baragraff (6) fod yn fwy nag £16,000 minws A, pan A yw swm y benthyciad cyfrannu at gostau y mae'r myfyriwr eisoes wedi ei gael pan fydd yn peidio â bod yn garcharor cymwys.

(9) Pan fo P yn peidio â bod yn garcharor cymwys caiff P, yn ddarostyngedig i baragraff (10), wneud cais i swm y benthyciad cyfrannu at gostau gael ei gynyddu.

(10) Cyfrifir yr uchafswm cynnydd ym menthyciad cyfrannu at gostau P y caiff P wneud cais amdano o dan baragraff (9) drwy gyfeirio at y fformiwla a ganlyn—

$$(J - F)x(\frac{R}{T})$$

pan fo—

J yn gyfwerth ag £16,000 minws uchafswm y grant cyfrannu at gostau sy'n daladwy i P o dan baragraff (7);

F yn gyfwerth â swm y benthyciad cyfrannu at gostau y mae P yn cymhwyso i'w gael fel carcharor cymwys;

T yn gyfwerth â chyfanswm nifer y diwrnodau y mae'r cwrs dynodedig yn para;

R yn gyfwerth â nifer y diwrnodau o'r cwrs dynodedig sy'n weddill pan fydd P yn peidio â bod yn garcharor cymwys.

PENNOD 3

Gordaliadau ac adennill

Gordaliadau – cyffredinol

37.—(1) Pan fo myfyriwr cymwys wedi cael swm unrhyw grant neu unrhyw fenthyciad cyfrannu at gostau sy'n fwy na'r swm y mae gan y myfyriwr hawlogaeth i'w gael o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i'r myfyriwr ad-dalu'r swm dros ben os yw Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny.

(2) Yn y Bennod hon, mae cyfeiriadau at fyfyriwr cymwys i'w trin fel pe baent yn cynnwys person sydd wedi cael cymorth ond nad yw'n fyfyriwr cymwys neu nad yw'n fyfyriwr cymwys mwyach.

Adennill grantiau sydd wedi cael eu gordalu

38.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru adennill unrhyw ordaliad o grant oni bai eu bod yn meddwl nad yw'n briodol gwneud hynny.

(2) Mae taliad o grant sydd wedi ei wneud cyn y diwrnod y mae'r cwrs yn dechrau arno yn ordaliad os yw'r myfyriwr yn tynnu'n ôl o'r cwrs cyn y diwrnod hwnnw.

(3) Caniateir adennill gordaliad o grant drwy ddidynnu'r gordaliad o unrhyw grant sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys o bryd i'w gilydd o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw reoliadau eraill a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998.

(4) Nid yw paragraff (3) yn rhwystro Gweinidogion Cymru rhag adennill gordaliad drwy unrhyw ddull arall sydd ar gael iddynt.

Adennill gordaliad o'r benthyciad cyfrannu at gostau

39.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru adennill unrhyw ordaliad o fenthyciad cyfrannu at gostau oddi wrth—

(a) y sefydliad neu'r trydydd parti a gafodd arian y benthyciad cyfrannu at gostau pan wnaed taliad i'r sefydliad hwnnw neu'r trydydd parti hwnnw, neu

(b) y myfyriwr a gafodd y benthyciad cyfrannu at gostau.

(2) Caniateir adennill gordaliad o fenthyciad cyfrannu at gostau oddi wrth fyfyriwr o dan baragraff (1)(b) ym mha un bynnag neu ym mha rai bynnag o'r ffyrdd a ganlyn y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol o dan yr holl amgylchiadau—

(a) drwy ddidynnu'r gordaliad o unrhyw swm o'r benthyciad cyfrannu at gostau sy'n weddill i'w dalu;

(b) drwy ddidynnu'r gordaliad o unrhyw fath o grant neu fenthyciad sy'n daladwy i'r myfyriwr o bryd i'w gilydd yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998;

(c) drwy ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr ad-dalu'r benthyciad cyfrannu at gostau yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998;

(d) drwy gymryd unrhyw gamau gweithredu eraill i adennill y gordaliad sydd ar gael iddynt.

Ad-dalu

40.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg ei gwneud yn ofynnol i geisydd neu fyfyriwr cymwys ymrwymo i gytundeb i ad-dalu benthyciad cyfrannu at gostau drwy ddull penodol.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol cael cytundeb ynghylch y dull ad-dalu o dan y rheoliad hwn, caiff Gweinidogion Cymru gadw'n ôl unrhyw daliad o fenthyciad cyfrannu at gostau hyd nes bod y ceisydd neu'r myfyriwr cymwys yn darparu'r hyn a wnaed yn ofynnol.

RHAN 9

Cyfyngiadau sy'n ymwneud â benthyciadau cyfrannu at gostau

Gofyniad i ddarparu rhif yswiriant gwladol

41.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn amod o'r hawlogaeth i gael taliad o'r benthyciad cyfrannu at gostau neu unrhyw randaliad o'r benthyciad fod yn rhaid i fyfyriwr cymwys ddarparu iddynt ei rif yswiriant gwladol yn y Deyrnas Unedig.

(2) Os yw'r amod hwnnw wedi ei osod, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o'r benthyciad cyfrannu at gostau hyd nes bod y myfyriwr cymwys wedi cydymffurfio ag ef, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, oherwydd amgylchiadau eithriadol, y byddai'n briodol gwneud taliad er na chydymffurfiwyd â'r amod.

Gofynion gwybodaeth sy'n ymwneud â benthyciadau

42.—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth o dan reoliad 22(1), at unrhyw un neu ragor o'r dibenion a grybwyllir ym mharagraff (2) o'r rheoliad hwn, cânt gadw yn ôl unrhyw daliad o fenthyciad cyfrannu at gostau neu grant cyfrannu at gostau hyd nes bod y myfyriwr yn cydymffurfio â'r gofyniad neu'n darparu esboniad boddhaol dros beidio â gwneud hynny.

(2) Y dibenion yw—

(a) penderfynu a yw'r myfyriwr yn fyfyriwr cymwys sy'n cymhwyso i gael benthyciad;

(b) penderfynu ar swm y benthyciad sy'n daladwy i'r myfyriwr;

(c) unrhyw fater sy'n ymwneud â thalu benthyciad gan y myfyriwr.

RHAN 10

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017

43. Mae Rheoliadau Benthyciadau at Radd Feistr 2017 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

44. Yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a chymhwyso), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddarparu benthyciadau at radd feistr ôl-raddedig i fyfyrwyr mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019 oni bai bod rheoliad 2(3) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 yn gymwys i'r cwrs."

45. Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1)—

(a) yn lle'r diffiniad o "ffioedd" rhodder—

"mae i "ffioedd" ("*fees*") yr ystyr a roddir yn adran 57(1) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**1**);";

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" ("*person with section 67 leave to remain*") yw person—

(a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016(**2**) ac yn unol â'r rheolau mewnfudo(**3**); a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;".

46. Yn rheoliad 4—

(a) yn lle paragraff (1)(b) rhodder—

"(b) os yw'n cael ei ddarparu yn gyfan gwbl gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig a oedd cyn 1 Awst 2019 yn sefydliad a oedd yn cael ei gyllido'n gyhoeddus (pa un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â sefydliad arall o'r fath neu â sefydliad sydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig);";

(b) yn lle paragraff (3)(d) rhodder—

"(d) ni fernir bod sefydliad wedi cael ei gyllido'n gyhoeddus cyn 1 Awst 2019 dim ond am ei fod wedi cael arian o gronfeydd cyhoeddus cyn y dyddiad hwnnw gan gorff llywodraethu sefydliad addysg uwch yn unol ag adran 65(3A) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992; ac".

47. Yn rheoliad 8 (digwyddiadau), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(ba)bod y myfyriwr neu riant y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;".

(**1**) 2015 dccc 1.
(**2**) 2016 p. 19.
(**3**) *Gweler* paragraffau 352ZG i 352ZS.

48. Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 5 (personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd) mewnosoder—

"**Personau sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67**

5A.—(1) Person—

(a) sy'n berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig."

Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
29 Ebrill 2019

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Rheoliad 4(1)

Dehongli

Ystyr blwyddyn academaidd

1.—(1) Penderfynir ar "blwyddyn academaidd", mewn cysylltiad â chwrs, fel a ganlyn—

(a) nodi'r cyfnod yng Ngholofn 2 o Dabl 1 y mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ynddo mewn gwirionedd;

(b) y flwyddyn academaidd yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y dyddiad a bennir yn y cofnod yng Ngholofn 1 o'r Tabl sy'n cyfateb i'r cyfnod a nodir yng Ngholofn 2.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at "blwyddyn academaidd" yn gyfeiriad at flwyddyn y penderfynir arni yn unol ag is-baragraff (1).

Tabl 1

Colofn 1 *Dyddiad dechrau'r flwyddyn academaidd at ddibenion y Rheoliadau hyn*	*Colofn 2* *Y cyfnod y mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ynddo*
1 Medi	Ar neu ar ôl 1 Awst ond cyn 1 Ionawr
1 Ionawr	Ar neu ar ôl 1 Ionawr ond cyn 1 Ebrill
1 Ebrill	Ar neu ar ôl 1 Ebrill ond cyn 1 Gorffennaf
1 Gorffennaf	Ar neu ar ôl 1 Gorffennaf ond cyn 1 Awst

Sefydliadau addysgol

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "sefydliad a gyllidir gan Gymru" yw sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gronfeydd a ddarperir gan Weinidogion Cymru;

(b) ystyr "sefydliad a gyllidir gan yr Alban" yw sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gronfeydd a ddarperir gan Weinidogion yr Alban;

(c) ystyr "sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon" yw sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o

gronfeydd a ddarperir gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon;

(d) ystyr "sefydliad rheoleiddiedig Seisnig" yw sefydliad Seisnig cofrestredig sy'n ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd o dan adran 10 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017(**1**);

(e) ystyr "sefydliad Seisnig cofrestredig" yw sefydliad sydd wedi ei gofrestru gan y Swyddfa Fyfyrwyr(**2**) yn y gofrestr;

(f) ystyr "darparwr cynllun Seisnig" yw sefydliad Seisnig cofrestredig sydd â chynllun mynediad a chyfranogiad a gymeradwywyd gan y Swyddfa Fyfyrwyr o dan adran 29 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 ac sy'n parhau mewn grym.

(2) Yn y paragraff hwn, mae unrhyw gyfeiriad at y gofrestr yn gyfeiriad at y gofrestr a sefydlwyd ac a gynhelir gan y Swyddfa Fyfyrwyr o dan adran 3 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.

Dehongli termau allweddol eraill

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod o'r lluoedd arfog" ("*member of the armed forces*") yw aelod o lynges, byddin neu lu awyr rheolaidd y Goron;

ystyr "awdurdod academaidd" ("*academic authority*"), mewn perthynas â sefydliad, yw'r corff llywodraethu neu gorff arall a chanddo swyddogaethau corff llywodraethu ac mae'n cynnwys person sy'n gweithredu gydag awdurdod y corff hwnnw;

ystyr "blwyddyn academaidd gyfredol" ("*current academic year*") yw blwyddyn academaidd y cwrs dynodedig y mae'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth ynddi;

ystyr "bwrsari gofal iechyd" ("*healthcare bursary*") yw bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg o dan adran 63(6) o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968(**3**) neu Erthygl 44 o Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972(**4**);

ystyr "carcharor" ("*prisoner*") yw person sy'n bwrw dedfryd mewn carchar yn y Deyrnas Unedig gan gynnwys person sy'n cael ei gadw'n gaeth

(**1**) 2017 p. 29.
(**2**) Mae'r Swyddfa Fyfyrwyr yn gorff corfforedig a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.
(**3**) 1968 p. 46.
(**4**) O.S. 1972/1265 (G.I. 14).

mewn sefydliad troseddwyr ifanc (ac mae "carchar" i'w ddehongli yn unol â hynny);

ystyr "carcharor cymwys" ("*eligible prisoner*") yw carcharor—

(a) sy'n dechrau cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Awst 2019,

(b) sydd wedi ei awdurdodi gan Lywodraethwr neu Gyfarwyddwr y carchar neu gan awdurdod priodol arall i astudio'r cwrs dynodedig, ac

(c) y mae ei ddyddiad rhyddhau cynharaf o fewn 4 blynedd i ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig;

ystyr "cronfeydd cyhoeddus" ("*public funds*") yw arian a ddarperir gan Senedd y Deyrnas Unedig gan gynnwys cronfeydd a ddarperir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "cwrs" ("*course*"), oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, yw rhaglen astudio a gaiff ei haddysgu, rhaglen ymchwil, neu gyfuniad o'r ddwy, ac a gaiff gynnwys un neu ragor o gyfnodau o brofiad gwaith, ac sy'n arwain, ar ôl eu cwblhau'n llwyddiannus, at ddyfarnu gradd feistr ôl-raddedig;

ystyr "cwrs dysgu o bell" ("*distance learning course*") yw cwrs nad yw'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr sy'n ymgymryd â'r cwrs fod yn bresennol mewn perthynas ag ef, ac eithrio i fodloni unrhyw ofyniad a osodir gan y sefydliad i fod yn bresennol mewn unrhyw sefydliad—

(a) at ddiben cofrestru, ymrestru neu unrhyw arholiad, neu

(b) ar benwythnos neu yn ystod unrhyw wyliau;

ystyr "cyfnodau o brofiad gwaith" ("*periods of work experience*") yw—

(a) cyfnodau o brofiad diwydiannol, proffesiynol neu fasnachol sy'n gysylltiedig â'r cwrs dynodedig mewn sefydliad, ond mewn man y tu allan i'r sefydliad hwnnw;

(b) cyfnodau pan fydd myfyriwr yn cael ei gyflogi ac yn preswylio mewn gwlad y mae ei hiaith yn un y mae'r myfyriwr yn ei hastudio ar gyfer cwrs dynodedig y myfyriwr hwnnw (ar yr amod bod y cyfnod preswylio yn y wlad honno yn un o ofynion cwrs y myfyriwr hwnnw a bod astudio un neu ragor o ieithoedd modern yn cyfrif am ddim llai na hanner cyfanswm yr amser a dreulir yn astudio ar y cwrs);

ystyr "cymhwyster cyfatebol neu uwch" ("*equivalent or higher qualification*") yw cymhwyster y penderfynir yn unol â pharagraff (2) ei fod yn gymhwyster cyfatebol neu uwch;

ystyr "cymorth" ("*support*"), ac eithrio pan nodir fel arall, yw cymorth ariannol ar ffurf grant neu fenthyciad a wneir gan Weinidogion Cymru o dan—

(a) y Rheoliadau hyn, neu

(b) unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998;

ystyr "Cynllun KESS 2" ("*KESS 2 Scheme*") yw Cynllun Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth 2 a gyllidir, yn rhannol, gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop(**1**);

ystyr "dyfarndal statudol" ("*statutory award*") yw unrhyw ddyfarndal a roddir, unrhyw grant a delir, neu unrhyw gymorth arall a ddarperir, yn rhinwedd Deddf 1998 neu Ddeddf Addysg 1962(**2**), neu unrhyw ddyfarndal, grant neu gymorth arall cyffelyb, mewn cysylltiad ag ymgymryd â chwrs sy'n cael ei dalu o gronfeydd cyhoeddus;

ystyr "y ddeddfwriaeth ar fenthyciadau i fyfyrwyr" ("*student loans legislation*") yw Deddf Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) 1990(**3**), Gorchymyn Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1990(**4**), Deddf Addysg (Yr Alban) 1980(**5**) a rheoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny neu'r Gorchymyn hwnnw, Gorchymyn Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1998(**6**) a rheoliadau a wneir o dan y Gorchymyn hwnnw neu Ddeddf 1998 a rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 1998;

mae i "ffioedd" ("*fees*") yr ystyr a roddir yn adran 57(1) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**7**);

ystyr "gwladolyn UE" ("*EU national*") yw gwladolyn o Aelod-wladwriaeth o'r UE;

(**1**) Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi ei sefydlu o dan Erthygl 162 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

(**2**) 1962 p. 12 (a ddiddymwyd bellach).

(**3**) Fe'i diddymwyd gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), Atodlen 4, gydag arbedion *gweler* Gorchymyn Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) 1998 (O.S. 1998/2004) (C. 46).

(**4**) O.S. 1990/1506 (G.I. 11), a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/274 (G.I. 1), Atodlen 5 Rhan 2, O.S. 1996/1918 (G.I. 15), Erthygl 3 a'r Atodlen ac O.S. 1998/258 (G.I. 1), Erthyglau 3 i 6 ac a ddirymwyd, gydag arbedion, gan Rh.St. (G.I.) 1998 Rhif 306.

(**5**) 1980 p. 44.

(**6**) O.S. 1998/1760 (G.I. 14) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**7**) 2015 dccc 1.

mae "gwybodaeth" ("*information*") yn cynnwys dogfennau;

ystyr "perthynas agos" ("*close relative*") (mewn perthynas â pherson ("P")) yw—

(a) priod neu bartner sifil P;

(b) person sy'n byw fel arfer gyda P fel pe bai'r person yn briod neu'n bartner sifil i P;

(c) rhiant P, pan fo P o dan 25 oed;

(d) plentyn P, pan fo P yn ddibynnol ar y plentyn hwnnw.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu bod cymhwyster yn gymhwyster cyfatebol neu uwch—

(a) os oes gan fyfyriwr cymwys gymhwyster uwch o unrhyw sefydliad pa un a yw yn y Deyrnas Unedig ai peidio, a

(b) os yw'r cymhwyster y cyfeirir ato ym mharagraff (a) yn radd feistr ôl-raddedig o sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu os yw o lefel academaidd sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn cyfateb i gymhwyster y mae'r cwrs dynodedig yn arwain ato neu'n uwch na'r cymhwyster hwnnw.

ATODLEN 2 Rheoliad 9(1)(a)

Categorïau o fyfyrwyr cymwys

Categori 1 – Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig

1.—(1) Person—

(a) sydd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac eithrio am y rheswm ei fod wedi ennill yr hawl i breswylio'n barhaol, a

(ii) yn preswylio fel arfer yng Nghymru,

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) na fu'n preswylio yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (b), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser (oni bai bod y person yn cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 11(2)).

(2) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd ennill yr hawl i breswylio'n barhaol,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

Categori 2 – Ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd

2.—(1) Person—

(a) sy'n ffoadur,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers i'r person gael ei gydnabod yn ffoadur, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur,

(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil ffoadur,

(b) ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches, a oedd yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw,

(c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches,

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig, ac

(e) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Categori 3 – Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd

3.—(1) Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth—

(a) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a)—(i) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, a

(ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a)—(i) sy'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, a

(ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i berson a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth,

(b) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros,

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth" yw person—

(i) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo, a

(ii) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;

(b) ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person

diwladwriaeth gais i aros yn y Deyrnas Unedig fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo.

Categori 4 – Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd

4.—(1) Person—

(a) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu sy'n blentyn i briod neu i bartner sifil person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw,

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" yw person ("P")—

(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i gael ei gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu iddo ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgresiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny,

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgresiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny,

(iii) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo,

(iv) wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i gael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo, fod P wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau(**1**) ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol,

(b) nad yw cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben, neu y mae'r cyfnod hwnnw wedi ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben, neu y mae apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002(**2**)) mewn cysylltiad â'i ganiatâd i ddod i mewn neu i aros, ac

(**1**) Mae paragraff 276BE(2) o'r Rheolau Mewnfudo yn cyfeirio at hyn.

(**2**) 2002 p. 41. Diwygiwyd adran 104 gan Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Ceiswyr etc.) 2004 (p. 19), Atodlenni 2 a 4, Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13), adran 9, O.S. 2010/21, Deddf Mewnfudo 2014 (p. 22), Atodlen 9.

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i P gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros.

(5) Yn y paragraff hwn, ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi.

Categori 5 – Personau sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67

5.—(1) Person—

(a) sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67,

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" yw person—

(i) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016(**1**) ac yn unol â'r rheolau mewnfudo, a

(ii) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;

(b) ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â

(**1**) 2016 p. 19.

chaniatâd i aros o dan adran 67 y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig.

Categori 6 – Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd

6.—(1) Person—

(a) sy'n un o'r canlynol—

(i) gweithiwr mudol AEE neu berson hunangyflogedig AEE, sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(ii) person cyflogedig Swisaidd neu berson hunangyflogedig Swisaidd, sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(iii) aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i) neu (ii), sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(iv) gweithiwr trawsffiniol AEE neu berson hunangyflogedig trawsffiniol AEE;

(v) person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu berson hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd;

(vi) aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (iv) neu (v), a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 10 o Reoliad (EU) Rhif 492/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ryddid gweithwyr i symud o fewn yr Undeb, fel y'i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE(**1**).

(**1**) OJ Rhif L141, 27.05.2011, t. 1.

(3) Yn is-baragraff (1)—

ystyr "aelod o deulu" ("*family member*") yw—

(a) mewn perthynas â gweithiwr trawsffiniol AEE, gweithiwr mudol AEE, person hunangyflogedig trawsffiniol AEE neu berson hunangyflogedig AEE—

(i) priod y person neu ei bartner sifil,

(ii) disgynyddion uniongyrchol y person neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y person sydd o dan 21 oed neu sy'n 21 oed a throsodd ac sy'n ddibynyddion y person neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y person, neu

(iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y person neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y person;

(b) mewn perthynas â pherson cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, person cyflogedig Swisaidd, person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu berson hunangyflogedig Swisaidd—

(i) priod y person neu ei bartner sifil, neu

(ii) plentyn y person neu blentyn priod neu bartner sifil y person;

ystyr "gweithiwr mudol AEE" ("*EEA migrant worker*") yw gwladolyn AEE sy'n weithiwr, ac eithrio gweithiwr trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gweithiwr trawsffiniol AEE" ("*EEA frontier worker*") yw gwladolyn AEE sydd—

(a) yn weithiwr yng Nghymru, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person cyflogedig Swisaidd" ("*Swiss employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson cyflogedig, ac eithrio person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd" ("*Swiss frontier employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sydd—

(a) yn berson cyflogedig yng Nghymru, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person hunangyflogedig AEE" ("*EEA self-employed person*") yw gwladolyn AEE sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig Swisaidd" ("*Swiss self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig trawsffiniol AEE" ("*EEA frontier self-employed person*") yw gwladolyn AEE sydd—

(a) yn berson hunangyflogedig yng Nghymru, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd" ("*Swiss frontier self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sydd—

(a) yn berson hunangyflogedig yng Nghymru, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, o leiaf unwaith yr wythnos.

(4) At ddibenion is-baragraff (3)—

ystyr "gweithiwr" yw "worker" o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd;

ystyr "gwladolyn AEE" ("*EEA national*") yw gwladolyn o Wladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig;

ystyr "person cyflogedig" ("*employed person*") yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr "person hunangyflogedig" ("*self-employed person*") yw—

(a) mewn perthynas â gwladolyn AEE, person sy'n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd, neu

(b) mewn perthynas â gwladolyn Swisaidd, person sy'n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir.

Categori 7 – Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio yn rhywle arall

7.—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig,

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn union cyn ymadael â'r Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod y mae'r cwrs yn dechrau,

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(e) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (d), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (d).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswylio os yw is-baragraff (3) neu (4) yn gymwys i'r person.

(3) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i berson sydd—

(a) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig,

(b) yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir), neu

(c) yn berson sydd wedi arfer hawl i breswylio'n barhaol,

sydd wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i berson ("P")—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig a chanddo hawl i breswylio'n barhaol, a

(b) sy'n mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir y mae P yn wladolyn ohoni neu y mae'r person y mae P yn aelod o deulu mewn perthynas ag ef yn wladolyn ohoni.

(5) At ddibenion is-baragraff (4), mae P yn aelod o deulu person arall ("Q") os yw P—

(a) yn briod neu'n bartner sifil i Q,

(b) yn ddisgynnydd uniongyrchol Q neu'n ddisgynnydd uniongyrchol priod neu bartner sifil Q a bod P—

(i) o dan 21 oed, neu

(ii) yn 21 oed neu drosodd ac yn ddibynnydd Q neu'n ddibynnydd priod neu bartner sifil Q, neu

(c) pan fo Q yn wladolyn UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38, yn berthynas uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol Q neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil Q.

Categori 8 – Gwladolion UE

8.—(1) Person—

(a) sydd naill ai—

(i) yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac eithrio person sy'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig nad yw wedi arfer hawl i breswylio, neu

(ii) yn aelod o deulu person o'r fath,

(b) sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser (oni bai bod y person yn cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth honno yn unol â pharagraff 11(2)).

(2) Person—

(a) sy'n wladolyn UE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(3) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad yn is-baragraff (1)(a) neu (2)(a) fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

(4) At ddibenion is-baragraff (1)(a), nid yw gwladolyn o'r Deyrnas Unedig wedi arfer hawl i breswylio os nad yw'r person hwnnw wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig.

(5) At ddibenion is-baragraff (1)(a), mae person ("P") yn aelod o deulu person arall ("Q") os yw—

(a) P yn briod neu'n bartner sifil i Q,

(b) P yn ddisgynnydd uniongyrchol Q neu'n ddisgynnydd uniongyrchol priod neu bartner sifil Q a bod P—

(i) o dan 21 oed, neu

(ii) yn 21 oed neu drosodd ac yn ddibynnydd Q neu'n ddibynnydd priod neu bartner sifil Q, neu

(c) mewn achos pan fo Q yn wladolyn UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38, P yn berthynas uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol Q neu yn llinell esgynnol priod neu bartner sifil Q.

Categori 9 – Plant gwladolion Swisaidd

9. Person—

(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato yn is-baragraff (c), yn

gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

Categori 10 – Plant gweithwyr Twrcaidd

10.—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i weithiwr Twrcaidd,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE, y Swistir a Thwrci drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "gweithiwr Twrcaidd" yw gwladolyn Twrcaidd—

(a) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, a

(b) sy'n cael, neu sydd wedi cael, ei gyflogi'n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig.

Preswylio fel arfer – darpariaeth ychwanegol

11.—(1) At ddiben yr Atodlen hon, mae person sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu'r Ynysoedd, o ganlyniad i fod wedi symud o un arall o'r ardaloedd hynny at ddiben ymgymryd—

(a) â'r cwrs dynodedig, neu

(b) gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, â chwrs yr ymgymerodd y person ag ef yn union cyn ymgymryd â'r cwrs dynodedig,

i'w ystyried yn berson sy'n preswylio fel arfer yn y lle y mae'r person wedi symud ohono.

(2) At ddiben yr Atodlen hon, mae person ("P") i'w drin fel rhywun sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE, y Swistir a Thwrci pe bai P wedi bod yn preswylio felly oni bai am y ffaith bod—

(a) P,

(b) priod neu bartner sifil P,

(c) rhiant P, neu

(d) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn P neu briod neu bartner sifil plentyn P,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r

Ynysoedd neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE, y Swistir a Thwrci.

(3) At ddibenion is-baragraff (2), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE, y Swistir a Thwrci yn cynnwys—

(a) yn achos aelodau o'r lluoedd arfog, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o luoedd o'r fath;

(b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth AEE neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir fel aelodau o luoedd o'r fath;

(c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE, y Swistir a Thwrci fel aelodau o luoedd o'r fath.

(4) At ddibenion yr Atodlen hon, mae myfyriwr cymwys sy'n garcharor i'w ystyried fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y rhan o'r Deyrnas Unedig lle yr oedd y carcharor yn preswylio cyn cael ei ddedfrydu.

(5) At ddibenion yr Atodlen hon, mae ardal—

(a) nad oedd gynt yn rhan o'r UE neu'r AEE, ond

(b) sydd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn dod yn rhan o'r naill neu'r llall, neu o'r ddwy, o'r tiriogaethau hyn,

i'w hystyried fel pe bai bob amser wedi bod yn rhan o'r AEE.

Darpariaeth bellach ar breswylio fel arfer: personau sy'n ymadael â gofal

12.—(1) Caiff person sy'n ymadael â gofal ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig hyd yn oed os yw'r person sy'n ymadael â gofal, ar y diwrnod hwnnw—

(a) yn derbyn gofal y tu allan i Gymru (mewn achos pan fo rheoliad 29(c)(i) yn gymwys i'r myfyriwr), neu

(b) yn preswylio y tu allan i Gymru o dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig (mewn achos pan fo rheoliad 29(c)(ii) yn gymwys i'r myfyriwr),

o dan drefniadau a wneir gan awdurdod lleol Cymreig.

(2) Ym mharagraff (1)—

ystyr "awdurdod lleol Cymreig" ("*Welsh local authority*") yw awdurdod lleol o fewn yr ystyr a roddir gan adran 197(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

mae i "derbyn gofal" ("*looked after*") yr ystyr a roddir yn adran 74 o'r Ddeddf honno;

mae i "person sy'n ymadael â gofal" ("*care leaver*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 29.

Dehongli

13. Yn yr Atodlen hon—

ystyr "AEE" ("*EEA*") yw'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, sef y diriogaeth a ffurfir gan y Gwladwriaethau AEE;

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/38" ("*Directive 2004/38*") yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ddyddiedig 29 Ebrill 2004 ar hawliau dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teuluoedd i symud a phreswylio'n rhydd yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau(**1**);

ystyr "Cytundeb y Swistir" ("*Swiss Agreement*") yw'r Cytundeb rhwng yr UE a'i Aelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a Chydffederasiwn y Swistir, o'r rhan arall, ar Symudiad Rhydd Personau a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999(**2**) ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

ystyr "ffoadur" ("*refugee*") yw person a gydnabyddir gan lywodraeth Ei Mawrhydi yn ffoadur o fewn ystyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951(**3**) fel y'i hestynnwyd gan ei Brotocol 1967(**4**);

ystyr "hawl i breswylio'n barhaol" ("*right of permanent residence*") yw hawl sy'n codi o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswylio yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad;

ystyr "rheolau mewnfudo" ("*immigration rules*") yw'r rheolau a osodir gerbron Senedd y Deyrnas Unedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**5**);

mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson a chanddo ofal am blentyn ac mae "plentyn" i'w ddehongli yn unol â hynny;

(**1**) OJ Rhif L158, 30.04.2004, t. 77-123.
(**2**) Gorch. 4904 ac OJ Rhif L114, 30.04.02, t. 6.
(**3**) Gorchmn. 9171.
(**4**) Gorchmn. 3906, daeth y Protocol i rym ar 4 Hydref 1967.
(**5**) 1971 p. 77.

mae i "wedi setlo" yr ystyr a roddir i "settled" gan adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**1**);

ystyr "Ynysoedd" ("*Islands*") yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

(**1**) 1971 p. 77; mewnosodwyd adran 33(2A) gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61).

ATODLEN 3 Rheoliad 28

Cyfrifo incwm

RHAN 1

Cyflwyniad

Trosolwg o'r Atodlen

1.—(1) Mae'r Atodlen hon wedi ei threfnu fel a ganlyn.

(2) Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo incwm aelwyd myfyriwr cymwys at ddibenion penderfynu ar swm y grant cyfrannu at gostau sy'n daladwy i'r myfyriwr.

(3) Mae Rhan 3 yn nodi ystyr "incwm trethadwy", sy'n ofynnol er mwyn cyfrifo incwm gweddilliol person.

(4) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo incwm gweddilliol pan fo—

(a) Pennod 1 yn nodi sut i gyfrifo incwm gweddilliol myfyriwr cymwys at ddibenion cyfrifo incwm aelwyd y myfyriwr, a

(b) Pennod 2 yn nodi sut i gyfrifo incwm gweddilliol rhiant myfyriwr cymwys, partner myfyriwr cymwys neu bartner rhiant myfyriwr cymwys at ddibenion cyfrifo incwm aelwyd y myfyriwr.

(5) Mae Rhan 5 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn yr Atodlen hon.

RHAN 2

Incwm yr aelwyd

Incwm aelwyd myfyriwr cymwys

2. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo incwm aelwyd myfyriwr cymwys.

Cyfrifo incwm yr aelwyd

3.—(1) Mae incwm aelwyd myfyriwr cymwys yn cael ei gyfrifo drwy gymhwyso'r camau a ganlyn—

Cam 1

Os nad yw'r myfyriwr yn fyfyriwr cymwys annibynnol (gweler paragraff 4), cyfrifo cyfanred incwm gweddilliol y personau a restrir yn Rhestr A.

Os yw'r myfyriwr yn fyfyriwr cymwys annibynnol, cyfrifo cyfanred incwm y personau a restrir yn Rhestr B.

Rhestr A

Y personau yw—

(a) y myfyriwr cymwys, plws

(b) naill ai—

(i) pob un o rieni'r myfyriwr cymwys (yn ddarostyngedig i baragraff 5), neu

(ii) pan fo rhieni'r myfyriwr wedi gwahanu, y rhiant a ddewisir o dan baragraff 6(3) a phartner y rhiant hwnnw (os oes un gan y rhiant hwnnw), (yn ddarostyngedig i baragraff 7).

Rhestr B

Y personau yw—

(a) y myfyriwr cymwys annibynnol, plws

(b) partner y myfyriwr (os oes un gan y myfyriwr), (yn ddarostyngedig i baragraffau 7 ac 8).

Cam 2

Cyfrifo swm cymwys didyniad plentyn dibynnol (gweler is-baragraffau (2) i (4)) a didynnu hynny o'r cyfanswm cyfanredol a gyfrifir o dan Gam 1.

Y canlyniad yw incwm aelwyd y myfyriwr cymwys.

(2) Mae didyniad plentyn dibynnol yn ddidyniad a wneir mewn cysylltiad â phob plentyn sy'n ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar—

(a) y myfyriwr cymwys,

(b) partner y myfyriwr cymwys,

(c) rhiant y myfyriwr cymwys, neu

(d) partner rhiant y myfyriwr cymwys,

pan fo incwm y person hwnnw yn cael ei ystyried at ddiben cyfrifo incwm yr aelwyd.

(3) Ond nid oes didyniad i'w wneud mewn cysylltiad â phlentyn—

(a) rhiant y myfyriwr cymwys, neu

(b) partner rhiant y myfyriwr cymwys,

os y myfyriwr cymwys yw'r plentyn.

(4) Yn Nhabl 2, mae Colofn 2 yn nodi swm y didyniad plentyn dibynnol mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd a nodir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 1.

Tabl 2

Colofn 1	*Colofn 2*
Blwyddyn academaidd	*Swm y didyniad plentyn dibynnol*
Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2019	£1,130

Myfyrwyr cymwys annibynnol

4.—(1) Mae myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys annibynnol os yw un o'r achosion a ganlyn yn gymwys—

Achos 1

Mae'r myfyriwr yn 25 oed neu drosodd ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol.

Achos 2

Mae'r myfyriwr yn briod neu mewn partneriaeth sifil cyn dechrau diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol, pa un a yw'r briodas neu'r bartneriaeth sifil yn parhau i fod ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio.

Achos 3

Nid oes gan y myfyriwr riant sy'n fyw.

Achos 4

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) na ellir dod o hyd i'r naill na'r llall o rieni'r myfyriwr, neu

(b) nad yw'n rhesymol ymarferol cysylltu â'r naill na'r llall o rieni'r myfyriwr.

Achos 5

Naill ai—

(a) nid yw'r myfyriwr wedi cyfathrebu â'r naill na'r llall o'i rieni am gyfnod o flwyddyn neu fwy sy'n dod i ben ar y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol, neu

(b) ym marn Gweinidogion Cymru, mae'r myfyriwr wedi ymddieithrio oddi wrth ei rieni ar seiliau eraill fel nad oes modd cymodi.

Achos 6

Mae rhieni'r myfyriwr yn preswylio y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ac mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) y byddai asesu incwm yr aelwyd drwy gyfeirio at incwm y rhieni yn gosod y rhieni hynny mewn perygl, neu

(b) na fyddai'n rhesymol ymarferol i'r rhieni anfon arian i'r Deyrnas Unedig at ddibenion rhoi cymorth i'r myfyriwr.

Achos 7

Pan fo paragraff 6 (rhieni yn gwahanu) yn gymwys, mae'r rhiant a ddewisir gan Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (3) o'r paragraff hwnnw wedi marw, ni waeth a oedd gan y rhiant hwnnw bartner ai peidio.

Achos 8

Ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol, mae gan y myfyriwr ofal dros berson sydd o dan 18 oed.

Achos 9

Mae'r myfyriwr wedi cael ei gefnogi gan enillion y myfyriwr am unrhyw gyfnod o dair blynedd (neu gyfnodau sydd, gyda'i gilydd, yn dod i gyfanred o dair blynedd o leiaf) sy'n dod i ben cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

Achos 10

Mae'r myfyriwr yn berson sy'n ymadael â gofal o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 29.

(2) At ddibenion Achos 9, mae myfyriwr cymwys yn cael ei drin fel pe bai'n cael ei gefnogi gan enillion y myfyriwr os, yn ystod y cyfnod neu'r cyfnodau y cyfeirir ato neu atynt yn Achos 9, yw un o'r seiliau a ganlyn yn gymwys—

Sail 1

Roedd y myfyriwr cymwys yn cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer hyfforddi personau di-waith o dan gynllun a weithredir, a noddir neu a gyllidir gan gorff cyhoeddus.

Sail 2

Roedd y myfyriwr cymwys yn cael budd-dal sy'n daladwy gan gorff cyhoeddus mewn cysylltiad â pherson sydd ar gael ar gyfer cyflogaeth ond sy'n ddi-waith.

Sail 3

Roedd y myfyriwr cymwys ar gael ar gyfer cyflogaeth ac wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad cofrestru gan gorff cyhoeddus fel amod o hawlogaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer hyfforddiant neu i gael budd-daliadau.

Sail 4

Roedd gan y myfyriwr cymwys efrydiaeth wladol neu ddyfarndal cyffelyb.

Roedd y myfyriwr cymwys yn cael pensiwn, lwfans neu fudd-dal arall a delir oherwydd anabledd, anaf neu salwch y myfyriwr neu am reswm sy'n gysylltiedig â geni plentyn.

Rhiant myfyriwr cymwys yn marw gan adael rhiant sydd wedi goroesi

5.—(1) Pan fo—

(a) rhiant myfyriwr cymwys yn marw cyn y flwyddyn academaidd gyfredol, a

(b) incwm y rhiant wedi, neu y byddai incwm y rhiant wedi, cael ei ystyried at ddibenion penderfynu ar incwm yr aelwyd,

dim ond incwm gweddilliol y rhiant sydd wedi goroesi a gyfrifir yn gyfanred at ddibenion Cam 1 ym mharagraff 3(1).

(2) Pan fo'r rhiant yn marw yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, incwm gweddilliol rhieni'r myfyriwr cymwys, at ddibenion Cam 1 ym mharagraff 3(1), yw cyfanred—

(a) incwm gweddilliol y ddau riant ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys wedi ei luosi ag X/52, a

(b) incwm gweddilliol y rhiant sydd wedi goroesi ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys wedi ei luosi ag Y/52,

pan—

X yw nifer yr wythnosau yn y flwyddyn academaidd gyfredol pan oedd y ddau riant yn fyw, ac

Y yw nifer yr wythnosau sy'n weddill yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

Rhieni myfyriwr cymwys yn gwahanu

6.—(1) Pan fo rhieni'r myfyriwr cymwys wedi gwahanu drwy gydol y flwyddyn academaidd gyfredol, dim ond incwm gweddilliol y rhiant a ddewisir o dan is-baragraff (3) sy'n cael ei gyfrifo'n gyfanred at ddibenion Cam 1 ym mharagraff 3(1).

(2) Pan fo rhieni'r myfyriwr wedi gwahanu yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, incwm gweddilliol rhieni'r myfyriwr cymwys, at ddibenion Cam 1 ym mharagraff 3(1), yw cyfanred—

(a) incwm gweddilliol y ddau riant ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys wedi ei luosi ag X/52, a

(b) incwm gweddilliol y rhiant a ddewisir o dan is-baragraff (3) ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys wedi ei luosi ag Y/52,

pan—

X yw nifer yr wythnosau yn y flwyddyn academaidd gyfredol pan nad oedd y rhieni wedi gwahanu, ac

Y yw nifer yr wythnosau yn y flwyddyn academaidd gyfredol pan oedd y rhieni wedi gwahanu.

(3) Pan fo is-baragraff (1) neu (2) yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru ddewis y rhiant a chanddo'r incwm gweddilliol sydd fwyaf priodol ei ystyried o dan yr amgylchiadau.

Rhiant myfyriwr cymwys neu fyfyriwr cymwys annibynnol yn gwahanu o'i bartner

7.—(1) Pan fo—

(a) rhiant myfyriwr cymwys, neu

(b) myfyriwr cymwys annibynnol,

wedi gwahanu o'i bartner drwy gydol y flwyddyn academaidd gyfredol, nid yw incwm y partner yn cael ei gyfrifo'n gyfanred o dan Gam 1 ym mharagraff 3(1).

(2) Pan fo—

(a) rhiant y myfyriwr cymwys, neu

(b) myfyriwr cymwys annibynnol,

wedi gwahanu o'i bartner yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, cyfrifir swm incwm gweddilliol y partner sydd i'w gyfrifo'n gyfanred o dan Gam 1 drwy gymhwyso'r fformiwla yn is-baragraff (3).

(3) Y fformiwla sydd i'w chymhwyso yw—

$$X \, x \, (\frac{C}{52})$$

Pan—

X yw incwm gweddilliol—

(a) partner rhiant y myfyriwr cymwys, pan fo Rhestr A o Gam 1 yn gymwys, neu

(b) partner y myfyriwr cymwys annibynnol, pan fo Rhestr B o Gam 1 yn gymwys,

ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys;

C yw nifer wythnosau cyflawn y flwyddyn academaidd gyfredol pan nad oedd—

(a) rhiant y myfyriwr cymwys a'i bartner, neu

(b) y myfyriwr cymwys annibynnol a phartner y myfyriwr,

wedi gwahanu.

(4) Pan fo gan fyfyriwr cymwys fwy nag un partner mewn unrhyw un flwyddyn academaidd, mae'r paragraff hwn a Cham 1 o baragraff 3(1) yn gymwys mewn perthynas â phob partner.

Myfyriwr cymwys annibynnol neu bartner yn rhiant i fyfyriwr cymwys

8. Pan fo—

(a) myfyriwr cymwys annibynnol ("A") neu bartner y myfyriwr cymwys annibynnol ("PA") yn rhiant i fyfyriwr cymwys ("M"), a

(b) dyfarndal statudol sy'n daladwy i M wedi ei gyfrifo drwy gyfeirio at incwm gweddilliol A neu PA, neu'r ddau,

nid yw incwm gweddilliol PA yn cael ei gyfrifo'n gyfanred o dan Restr B o Gam 1 ym mharagraff 3(1) at ddibenion cyfrifo incwm aelwyd A.

RHAN 3

Incwm trethadwy

Incwm trethadwy

9.—(1) Yn yr Atodlen hon, ystyr incwm trethadwy person yw—

(a) cyfanred—

(i) cyfanswm yr incwm y codir treth incwm ar y person amdano o dan Gam 1 o adran 23 o Ddeddf Treth Incwm 2007(**1**), a

(ii) os nad ydynt eisoes yn elfen o gyfanswm yr incwm o dan is-baragraff (i), daliadau a budd-daliadau eraill a bennir yn adran 401(1) o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003(**2**) a geir gan y person neu sy'n cael eu trin fel pe baent wedi eu cael gan y person (ond diystyrir adran 401(2) o'r Ddeddf honno at ddibenion yr is-baragraff hwn), neu

(b) pan fo deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall yn gymwys i incwm y person, gyfanswm incwm y person o bob ffynhonnell fel y'i penderfynir at ddibenion deddfwriaeth treth incwm yr Aelod-wladwriaeth honno.

(**1**) 2007 p. 3; diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf Cyllid 2009 (p. 10), Atodlen 1, paragraff 6(o)(i), Deddf Cyllid 2013 (p. 29), Atodlen 3, paragraff 2(2) a Deddf Cyllid 2014 (p. 26), Atodlen 17, paragraff 19.

(**2**) 2003 p. 1; diwygiwyd adran 401 gan O.S. 2005/3229, O.S. 2011/1037 ac O.S. 2014/211.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(b), pan fo deddfwriaeth treth incwm mwy nag un Aelod-wladwriaeth yn gymwys i'r person mewn cysylltiad â'r flwyddyn sydd o dan ystyriaeth, cyfanswm incwm y person o bob ffynhonnell yw'r swm sy'n deillio o'r penderfyniad sy'n arwain at swm mwyaf cyfanswm yr incwm, gan gynnwys unrhyw incwm y mae'n ofynnol ei ystyried o dan baragraff 18.

(3) Ond nid yw incwm trethadwy person yn cynnwys incwm a delir i berson arall o dan orchymyn trefniadau pensiwn.

RHAN 4

Incwm gweddilliol

PENNOD 1

Incwm gweddilliol myfyriwr cymwys

Cyfrifo incwm gweddilliol myfyriwr cymwys

10. At ddibenion cyfrifo incwm aelwyd myfyriwr cymwys o dan Ran 2, cyfrifir incwm gweddilliol y myfyriwr fel a ganlyn—

Incwm trethadwy'r myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd gyfredol.

Plws

Incwm sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys o dan orchymyn trefniadau pensiwn yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, ar ôl didynnu treth incwm.

Minws

Cyfanred y didyniadau a nodir ym mharagraff 11 (oni bai eu bod eisoes wedi eu didynnu at ddibenion penderfynu ar incwm trethadwy'r myfyriwr).

Didyniadau at ddiben cyfrifo incwm gweddilliol myfyriwr cymwys

11. At ddibenion cyfrifo incwm gweddilliol myfyriwr cymwys, y didyniadau yw—

Didyniad A

Tâl a roddir i'r myfyriwr cymwys yn y flwyddyn academaidd gyfredol am waith a wneir yn ystod unrhyw flwyddyn academaidd o'r cwrs, ond nid tâl mewn cysylltiad ag—

(a) unrhyw gyfnod o absenoldeb a gymerir gan y myfyriwr, neu

(b) unrhyw gyfnod arall pan fydd y myfyriwr wedi ei ryddhau o ddyletswydd i fod yn bresennol yn y gwaith,

fel y caiff y myfyriwr ymgymryd â'r cwrs.

Didyniad B

Swm gros unrhyw bremiwm neu swm a delir gan y myfyriwr cymwys yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol mewn perthynas â phensiwn—

(a) y rhoddir rhyddhad mewn cysylltiad ag ef o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004(**1**), neu

(b) pan fo incwm y myfyriwr yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn cysylltiad ag ef pe bai'r ddeddfwriaeth honno yn gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth yn y Deddfau Treth Incwm,

ond nid yw'n cynnwys unrhyw swm a delir fel premiwm o dan bolisi aswiriant bywyd.

Incwm myfyriwr cymwys a geir mewn arian cyfred ac eithrio sterling

12.—(1) Pan fo'r myfyriwr cymwys yn cael incwm mewn arian cyfred ac eithrio sterling, gwerth yr incwm yw—

(a) swm y sterling y mae'r myfyriwr cymwys yn ei gael ar gyfer yr incwm, neu

(b) pan na fo'r myfyriwr yn troi'r incwm yn sterling, gwerth y sterling y byddai'r incwm yn ei brynu gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid CThEM.

(2) Cyfradd gyfnewid CThEM(**2**) yw'r gyfradd a gyhoeddir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y mis sy'n cyfateb i'r mis y ceir yr incwm ynddo.

PENNOD 2

Incwm gweddilliol personau ac eithrio myfyriwr cymwys

Personau y mae'r bennod hon yn gymwys iddynt

13. Mae'r Bennod hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrifo incwm gweddilliol person ("P") pan fo P yn golygu'r canlynol—

(a) rhiant y myfyriwr cymwys,

(b) partner y myfyriwr cymwys, neu

(c) partner rhiant y myfyriwr cymwys,

(**1**) 2004 p. 12; diwygiwyd adran 188 gan Ddeddf Cyllid 2007 (p. 11), adrannau 68 a 114 ac Atodlenni 18, 19 a 27, Deddf Cyllid 2013 (p. 29), adran 52 a Deddf Cyllid 2014 (p. 26), Atodlen 7.

(**2**) *Gweler* https://www.gov.uk/government/collections/exchange-rates-for-customs-and-vat.

yn ôl y digwydd, a phan fo incwm P yn cael ei gyfrifo'n gyfanred o dan Gam 1 ym mharagraff 3(1) at ddiben cyfrifo incwm aelwyd myfyriwr cymwys.

Cyfrifo incwm gweddilliol personau ac eithrio myfyriwr cymwys

14. Cyfrifir incwm gweddilliol P fel a ganlyn—

Incwm trethadwy P ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys.

Plws

Incwm sy'n daladwy i P o dan orchymyn trefniadau pensiwn yn ystod y flwyddyn ariannol gymwys, ar ôl didynnu treth incwm.

Minws

Cyfanred y didyniadau a nodir ym mharagraff 15 (oni bai eu bod eisoes wedi eu didynnu at ddibenion penderfynu ar incwm trethadwy P).

Didyniadau at ddiben cyfrifo incwm gweddilliol personau ac eithrio myfyriwr cymwys

15.—(1) At ddiben cyfrifo incwm gweddilliol P, y didyniadau yw—

Didyniad A

Swm gros unrhyw bremiwm neu swm a delir gan P mewn cysylltiad â phensiwn yn ystod y flwyddyn ariannol gymwys—

(a) y rhoddir rhyddhad mewn perthynas ag ef o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004, neu

(b) pan fo incwm P yn cael ei gyfrifiannu at ddiben deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, y byddai rhyddhad wedi cael ei roi mewn perthynas ag ef pe bai'r ddeddfwriaeth honno yn gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth yn y Deddfau Treth Incwm,

ond nid yw'n cynnwys unrhyw swm a delir fel premiwm o dan bolisi aswiriant bywyd.

Didyniad B

Pan fo paragraff 18 yn gymwys, swm sy'n cyfateb i Ddidyniad A ar yr amod nad yw'r swm hwn yn fwy na'r didyniadau a fyddai'n cael eu gwneud pe bai holl incwm P yn incwm at ddibenion y Deddfau Treth Incwm mewn gwirionedd.

Didyniad C

£1,130, pan fo P—

(a) yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd gyfredol ond hefyd yn rhiant myfyriwr cymwys, neu

(b) wedi cael dyfarndal statudol mewn cysylltiad â'r un cyfnod.

Blynyddoedd ariannol cymwys: cyfrifo incwm gweddilliol personau ac eithrio myfyriwr cymwys

16.—(1) Mae'r paragraff hwn yn pennu'r flwyddyn ariannol gymwys at ddibenion cyfrifo incwm gweddilliol P.

(2) Oni bai bod is-baragraff (3) yn gymwys, y flwyddyn ariannol gymwys yw BF-1.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod incwm gweddilliol P ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai nag incwm gweddilliol P ar gyfer BF-1, y flwyddyn ariannol gymwys yw BG.

Incwm o fusnes neu broffesiwn

17.—(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys pan—

(a) y flwyddyn ariannol gymwys at ddibenion cyfrifo incwm gweddilliol P yw BF-1, a

(b) bo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod incwm P yn deillio'n gyfan gwbl neu'n bennaf o elw busnes neu broffesiwn a gynhelir gan P.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, incwm gweddilliol P yw ei incwm ar gyfer y cyfnod cynharaf o ddeuddeng mis sy'n dod i ben yn BF-1 y cedwir cyfrifon mewn cysylltiad ag ef sy'n ymwneud â busnes neu broffesiwn P.

Trin incwm nas trinnir fel incwm at ddibenion treth incwm

18.—(1) Mae is-baragraff (3) yn gymwys pan fo P yn cael unrhyw incwm nad yw, am unrhyw un neu ragor o'r rhesymau a nodir yn is-baragraff (2), yn ffurfio rhan o incwm P at ddiben y Deddfau Treth Incwm neu ddeddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall.

(2) Y rhesymau yw—

Rheswm 1

(a) nid yw P yn preswylio nac wedi ymgartrefu yn y Deyrnas Unedig, neu

(b) cyfrifiennir incwm P at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall ac nid yw P yn preswylio nac wedi ymgartrefu yn yr Aelod-wladwriaeth honno.

Rheswm 2

(a) nid yw incwm P yn codi yn y Deyrnas Unedig, neu

(b) nid yw incwm P yn codi yn yr Aelod-wladwriaeth y cyfrifiennir incwm P ynddi at ddibenion deddfwriaeth treth incwm y Wladwriaeth honno.

Rheswm 3

Mae'r incwm yn codi o swydd, gwasanaeth neu gyflogaeth y mae'r incwm ohoni neu ohono yn esempt rhag treth.

(3) Mae incwm trethadwy P i'w gymryd i gynnwys yr incwm a ddisgrifir yn is-baragraff (1) fel pe bai'n rhan o incwm P at ddibenion y Deddfau Treth Incwm neu ddeddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, yn ôl y digwydd.

Incwm P mewn arian cyfred ac eithrio sterling

19.—(1) Pan fo incwm P wedi ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, mae incwm gweddilliol P i'w gyfrifo yn unol â'r Rhan hon yn arian cyfred yr Aelod-wladwriaeth honno ac i'w gymryd fel gwerth sterling yr incwm hwnnw a benderfynir yn unol â chyfradd berthnasol CThEM.

(2) Cyfradd berthnasol CThEM yw'r gyfradd gyfnewid ar gyfartaledd a ddyroddir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y flwyddyn galendr sy'n dod i ben yn union cyn diwedd BF-1.

RHAN 5

Dehongli

Dehongli

20.—(1) Yn yr Atodlen hon, ystyr unrhyw gyfeiriad at bartner person ("A") yw—

(a) priod neu bartner sifil A, neu

(b) person sy'n byw fel arfer gydag A fel pe bai'r person yn briod neu'n bartner sifil A.

(2) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "BF" ("*PY*") yw'r flwyddyn ariannol yn union cyn BG;

ystyr "BF-1" ("*PY-1*") yw'r flwyddyn ariannol yn union cyn BF;

ystyr "BG" ("*CY*") yw'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis y cyfrifiennir incwm person mewn cysylltiad ag ef at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm sy'n gymwys iddo;

ystyr "blwyddyn ariannol gymwys" ("*applicable financial year*") yw'r flwyddyn ariannol y penderfynir arni yn unol â pharagraff 16;

ystyr "corff cyhoeddus" ("*public body*") yw awdurdod neu asiantaeth i'r wladwriaeth, boed yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol;

ystyr "gorchymyn trefniadau pensiwn" ("*pension arrangements order*") yw gorchymyn y mae person yn talu odano fudd-daliadau o dan drefniant pensiwn i berson arall o dan—

(a) adran 23 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973(**1**) sy'n cynnwys darpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 25B(4) (a chan gynnwys gorchymyn o'r fath fel y caiff effaith yn rhinwedd adran 25E(3) o'r Ddeddf honno)(**2**), neu

(b) Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(**3**) sy'n cynnwys darpariaeth a wneir yn rhinwedd Rhan 6 o'r Atodlen honno (a chan gynnwys gorchymyn o'r fath fel y caiff effaith yn rhinwedd Rhan 7 o'r Atodlen honno).

(**1**) 1973 p. 18; diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 (p. 53), adran 16.

(**2**) Mewnosodwyd adran 25B gan Ddeddf Pensiynau 1995 (p. 20), adran 166(1) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 (p. 30), Atodlen 4. Mewnosodwyd adran 25E gan Ddeddf Pensiynau 2004 (p. 35), adran 319(1), Atodlen 12, paragraff 3 ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Pensiynau 2008 (p. 30), Atodlen 6, paragraffau 1 a 6 ac Atodlen 11, Rhan 4.

(**3**) 2004 p. 33; addaswyd paragraff 25 o Atodlen 5 gan O.S. 2006/1934 a diwygiwyd paragraff 30 o Atodlen 5 gan Ddeddf Pensiynau 2008 (p. 30), Atodlenni 6 ac 11.

ATODLEN 4 Rheoliad 4(2)

Mynegai o dermau wedi eu diffinio

1. Mae Tabl 3 yn rhestru ymadroddion sydd wedi eu diffinio neu sydd wedi eu hesbonio fel arall yn y Rheoliadau hyn.

Tabl 3

Ymadrodd	*Wedi ei ddiffinio, neu y cyfeirir ato, yn...*
"AEE"	Atodlen 2, paragraff 13
"aelod o deulu"	Atodlen 2, paragraff 6(3)
"aelod o'r lluoedd arfog"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"awdurdod academaidd"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"awdurdod lleol Cymreig"	Atodlen 2, paragraff 12(2)
"benthyciad" (at ddibenion Eithriadau 1 a 2 yn rheoliad 10(1))	Rheoliad 10(2)
"benthyciad cyfrannu at gostau"	Rheoliad 30
"BF"	Atodlen 3, paragraff 20(2)
"BF–1"	Atodlen 3, paragraff 20(2)
"BG"	Atodlen 3, paragraff 20(2)
"blwyddyn academaidd"	Atodlen 1, paragraff 1
"blwyddyn academaidd gyfredol"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"blwyddyn ariannol"	Atodlen 3, paragraff 20(2)
"blwyddyn ariannol gymwys"	Atodlen 3, paragraff 20(2)
"bwrsari gofal iechyd"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"carcharor" a "carchar"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"carcharor cymwys"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"cofrestr"	Atodlen 1, paragraff 2(2)
"corff cyhoeddus"	Atodlen 3, paragraff 20(2)
"cronfeydd cyhoeddus"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"cwrs"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"cwrs dynodedig"	Pennod 1 o Ran 4
"cwrs dysgu o bell"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"cwrs newydd"	Rheoliad 17(1)
"Cyfarwyddeb 2004/38"	Atodlen 2, paragraff 13
"cyfnod cymhwystra"	Rheoliad 11
"cyfnodau o brofiad gwaith"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"cymhwyster cyfatebol neu uwch"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"cymorth"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"Cynllun KESS 2"	Atodlen 1, paragraff 3(1)
"Cytundeb y Swistir"	Atodlen 2, paragraff 13
"darparwr cynllun Seisnig"	Atodlen 1, paragraff 2(1)(f)
"Deddf 1998"	Rheoliad 5
"derbyn gofal"	Atodlen 2, paragraff 12(2)
"dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" (at ddiben	Atodlen 2, paragraff 3(4)(b)

penderfynu a yw person yn aelod o deulu person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth)	
“dyddiad y cais i gael caniatâd i aros” (at ddiben penderfynu a yw person yn blentyn i berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67)	Atodlen 2, paragraff 5(3)(b)
“dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros” (at ddiben penderfynu a yw person yn aelod o deulu person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros)	Atodlen 2, paragraff 4(5)
“dyfarndal statudol”	Atodlen 1, paragraff 3(1)
“y ddeddfwriaeth ar fenthyciadau i fyfyrwyr”	Atodlen 1, paragraff 3(1)
“ffioedd”	Atodlen 1, paragraff 3(1)
“ffoadur”	Atodlen 2, paragraff 13
“gorchymyn trefniadau pensiwn”	Atodlen 3, paragraff 20(2)
“grant cyfrannu at gostau”	Rheoliad 24
“grant sylfaenol”	Rheoliad 24
“gweithiwr”	Atodlen 2, paragraff 6(4)
“gweithiwr mudol AEE”	Atodlen 2, paragraff 6(3)
“gweithiwr trawsffiniol AEE”	Atodlen 2, paragraff 6(3)
“gweithiwr Twrcaidd”	Atodlen 2, paragraff 10(2)
“gwladolyn AEE”	Atodlen 2, paragraff 6(4)
“gwladolyn UE”	Atodlen 1, paragraff 3(1)
“gwybodaeth”	Atodlen 1, paragraff 3(1)
“hawl i breswylio’n barhaol”	Atodlen 2, paragraff 13
“incwm aelwyd”	Atodlen 3, Rhan 2
“incwm gweddilliol”	Atodlen 3, Rhan 4
“incwm trethadwy”	Atodlen 3, paragraff 9
“myfyriwr cymwys”	Rheoliad 9(1)
“myfyriwr cymwys annibynnol”	Atodlen 3, paragraff 4
“partner”	Atodlen 3, paragraff 20(1)
“person cyflogedig”	Atodlen 2, paragraff 6(4)
“person cyflogedig Swisaidd”	Atodlen 2, paragraff 6(3)
“person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd”	Atodlen 2, paragraff 6(3)
“person hunangyflogedig”	Atodlen 2, paragraff 6(4)
“person hunangyflogedig AEE”	Atodlen 2, paragraff 6(3)
“person hunangyflogedig Swisaidd”	Atodlen 2, paragraff 6(3)
“person hunangyflogedig trawsffiniol AEE”	Atodlen 2, paragraff 6(3)
“person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd”	Atodlen 2, paragraff 6(3)

“person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67”	Atodlen 2, paragraff 5(3)(a)
“person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros”	Atodlen 2, paragraff 4(4)
“person sy’n ymadael â gofal”	Rheoliad 29
“person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth”	Atodlen 2, paragraff 3(4)(a)
“perthynas agos”	Atodlen 1, paragraff 3(1)
“rheolau mewnfudo”	Atodlen 2, paragraff 13
“Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol 2018”	Rheoliad 7(c)
“Rheoliadau Benthyciadau at Radd Feistr 2017”	Rheoliad 2(3)
“Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr 2017”	Rheoliad 7(a)
“Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr 2018”	Rheoliad 7(b)
“rhiant” a “plentyn” (at ddibenion penderfynu ar gategori person o dan Atodlen 2)	Atodlen 2, paragraff 13
“sefydliad a gyllidir gan yr Alban”	Atodlen 1, paragraff 2(1)(b)
“sefydliad a gyllidir gan Gymru”	Atodlen 1, paragraff 2(1)(a)
“sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon”	Atodlen 1, paragraff 2(1)(c)
“sefydliad rheoleiddiedig Seisnig”	Atodlen 1, paragraff 2(1)(d)
“sefydliad Seisnig cofrestredig”	Atodlen 1, paragraff 2(1)(e)
“wedi setlo”	Atodlen 2, paragraff 13
“Ynysoedd”	Atodlen 2, paragraff 13

Explanatory Memorandum to the Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Higher Education Division and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019. I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

Kirsty Williams AM
Minister for Education
30 April 2019

1. Description

The Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019, ('the Regulations') provide for the payment of postgraduate Master's degree loans and grants for courses beginning on or after 1 August 2019.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

None.

3. Legislative background

Section 22 of the Teaching and Higher Education Act 1998 ('the 1998 Act') provides the Welsh Ministers with the power to make regulations authorising or requiring the payment of financial support to students studying courses of higher or further education designated by or under those regulations. In particular, this power enables the Welsh Ministers to prescribe the amount of financial support (grant or loan) and categories of attendance on higher education courses. This provision, together with section 42(6) of the 1998 Act, provide the Welsh Ministers with the power to make the Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019.

Section 44 of the Higher Education Act 2004 ('the 2004 Act') provided for the transfer to the National Assembly for Wales of the functions of the Secretary of State under section 22 of the 1998 Act (except insofar as they relate to the making of any provision authorised by subsections (2)(a), (c), (j) or (k), (3)(e) or (f) or (5) of section 22). Section 44 of the 2004 Act also provided for the functions of the Secretary of State in section 22(2)(a), (c) and (k) to be exercisable concurrently with the National Assembly for Wales.

The functions of the Secretary of State under section 42(6) of the 1998 Act were transferred, so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

Each year, a number of functions of the Welsh Ministers in regulations made under section 22 of the 1998 Act are delegated to the Student Loans Company under section 23 of the 1998 Act.

This instrument will follow the Negative Resolution procedure.

4. Purpose and intended effect of the legislation

The Welsh Ministers intend to continue to support students undertaking a postgraduate Master's degree and have introduced a new package of support in response to the *Review of higher education and student finance arrangements in Wales* ('the Diamond Review'). The Diamond Review highlighted the financial barrier for students wishing to access postgraduate education and recommended that such students receive a similar level of support as undergraduate students.

The Regulations provide for the making of grants and loans to students who are ordinarily resident in Wales and those from the EU studying at a Welsh institution for postgraduate Master's degree courses which begin on or after 1 August 2019. To qualify for grants or loans, a student must be an 'eligible student' studying on a 'designated course'. Support under the Regulations is available to full-time students and part-time students studying at 50% or greater intensity.

Support is paid directly to the student and consists of a mixture of grant and loan support as a contribution to costs. A £1,000 non-means tested universal grant is available for all eligible students. The remaining support includes a means-tested grant up to a maximum of £5,885, available to those with a household income of up to £18,370. The grant reduces by £1 for every £6.937 of household income above that threshold. In addition to the grants a non-means tested contribution to costs loan is available to make up the difference between the total amount of grant support available to the student and the maximum total maintenance support of £17,000. Students who are eligible prisoners are in scope for support, including the £1,000 non-means tested universal grant and loan. However, they are not able to access the means-tested grant. Support for prisoners is capped at the fee amount charged which is paid directly to the student's higher education provider.

Rydym bellach yn gweld bod mwy a mwy o geisiadau yn cyrraedd sy'n gofyn i Weinidogion fod yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgor ar ddydd Llun a hynny ar adegau sy'n golygu eu bod naill ai'n colli cyfarfod y Cabinet neu yn hwyr yn cyrraedd cyfarfod y Cabinet. Byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod Gweinidogion yn gallu bod yn bresennol mewn Pwyllgorau, ond nid yw'n ymarferol i Weinidogion drefnu busnes y Llywodraeth ar sail amserlenni'r pwyllgorau, yn enwedig ar fyr rybudd.

Rydych eisoes yn gwybod fy mod ar adegau wedi ad-drefnu fy nyddiadur ac wedi newid amser a lleoliad cyfarfodydd y Cabinet er mwyn fy ngalluogi i fod yn bresennol yn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, ond nid yw bob amser yn bosibl i mi wneud hynny.

Gallaf eich sicrhau y byddwn yn parhau i fod mor hyblyg â phosibl ond pan fo'n ofynnol i Weinidogion fod yn bresennol ar ddydd Llun, byddai o gymorth mawr pe bai'r Pwyllgor yn ystyried dechrau'r cyfarfod am 1.30pm er mwyn sicrhau bod Gweinidogion yn gallu gadael ar ôl awr.

Rydych wedi fy ngwahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor ddydd Llun 29 Ebrill. Rwy'n gwneud trefniadau i gynnal cyfarfod y Cabinet yn y Bae ar y diwrnod hwnnw er mwyn sicrhau fy mod yn gallu bod yn bresennol, ond bydd yn rhaid i fi adael y Pwyllgor erbyn 3pm.

Gyda chyfaddawdu yn digwydd ar y ddwy ochr, rwy'n sicr y gallwn ddod o hyd i ffordd o gydbwyso'r holl ofynion sy'n ein hwynebu.

Yn gywir



MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 060 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 060 4400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru PS.FirstMinister@gov.wales

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/CG/0379/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3 Mai 2019

Annwyl Mick

BIL DEDDFWRIAETH (CYMRU)

Yn ystod dadl Cyfnod 1 ar 2 Ebrill, dywedais y byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn ymateb yn fanwl i'ch adroddiad ar y Bil. Mae'r llythyr hwn yn nodi ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion hynny yn adroddiad y Pwyllgor a oedd ar gyfer y Llywodraeth.

Argymhelliad 1

Argymhellodd y Pwyllgor y dylwn roi'r newyddion diweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol am gynnydd o ran trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil. Rhoddais ddiweddariad yn fy sylwadau agoriadol i gefnogi'r cynnig i gymeradwyo egwyddorion cyffredinol y Bil (gweler paragraffau 364 a 365 o Gofnod y Trafodion). Ers hynny, bydd y Pwyllgor wedi cael copi o lythyr a anfonwyd ataf gan y Cyfreithiwr Cyffredinol ar y Bil. Rydym bellach yn ystyried hyn.

Argymhellion 3 a 4

Rwyf yn derbyn y ddau argymhelliad hyn.

Bydd y “mesurau anneddfwriaethol” y bydd y Llywodraeth yn eu cyflwyno o dan raglen hygyrchedd yn amrywio yn dibynnu ar yr anghenion ar yr adeg berthnasol, a mater i Lywodraeth y dydd fyddant. Fel yr wyf wedi nodi gynt, rydym yn bwriadu ymgynghori â defnyddwyr yr union brosiectau a ddylai fod yn rhan o'r rhaglenni hygyrchedd. Rwyf yn cadarnhau y byddwn yn disgwyl i'r rhaglenni gynnwys mesurau yn y tri maes a grybwyllir gan y Pwyllgor yn ei adroddiad.

Byddent yn cynnwys prosiectau hygyrchedd digidol, megis cynnal a datblygu gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales, datblygu'r gronfa ddata ar gyfer deddfwriaeth Cymru a drefnir yn ôl pwnc, a gweithio gyda'r Archifau Gwladol i sicrhau bod deddfwriaeth Cymru ar wefan legislation.gov.uk ar gael mewn ffurf gyfredol yn y ddwy iaith. Byddwn yn canolbwyntio i ddechrau ar y prosiectau digidol hyn a fydd yn arwain at y rhaglen gyntaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Bydd rôl sylweddol i wefan Cyfraith Cymru/Law Wales wrth helpu'r cyhoedd i ddeall y gyfraith ac wrth godi ymwybyddiaeth o newidiadau sylweddol yn y gyfraith. Mae'n uchelgais gennym gyhoeddi deunydd esboniadol ar feysydd allweddol o gyfraith Cymru ochr yn ochr â fersiynau hawdd eu deall o'r gyfraith, a thaflenni sy'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i fywyd bob dydd pobl (er enghraifft, cyfrifoldebau'r awdurdod lleol neu glybiau brecwast).

Hoffem hyrwyddo gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales fel cartref ar gyfer sylwebaeth gan academyddion ac ymarferwyr ar gyfraith Cymru. Mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau â rhai ymarferwyr cyfreithiol ac academyddion i'w hannog i ysgrifennu ar gyfer y wefan, ond mae angen gwaith pellach i annog pobl i roi cynnwys arni. Bydd hyn yn rhan o'n gwaith yn ystod cam “ymchwil y defnyddiwr” ar y gwaith o ail-ddylunio’r wefan sy'n digwydd eleni, yn ogystal â'n strategaeth tymor hwy ar gyfer sicrhau bod y wefan yn dal yn gyfoes ac yn berthnasol.

Byddai rhaglenni hefyd yn cynnwys gweithgareddau i hwyluso defnydd o'r Gymraeg, y tu hwnt i'r buddion i'r iaith sy'n deillio o gydgrynhoi'r gyfraith yn ddwyieithog a gwella hygyrchedd digidol. Gallai'r rhain gynnwys trefnu bod mwy o eirfaon cyfreithiol a mentrau pellach i ddatblygu terminoleg wedi’i safoni, lle bo hynny’n ddefnyddiol.

Rwyf yn nodi sylwadau Comisiynydd y Gymraeg yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor ac rwyf yn glir bod angen i ddatblygu arbenigedd yn y Gymraeg fod yn rhan o waith ehangach i gynllunio'r gweithlu y tu mewn i'r Llywodraeth a'r tu allan iddi. Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i “arwain trwy esiampl” trwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ei gweithlu ei hun. Mae Safonau'r Gymraeg hefyd yn gosod dyletswydd arnom i gyhoeddi polisi ar hyrwyddo'r iaith yn y gweithle. Mae gwaith ar hyn yn parhau ac mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi comisiynu papur pellach ar arferion gorau yn sefydliadau eraill y sector cyhoeddus.

Argymhelliad 5

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae trafodaethau ag academyddion yng Nghymru eisoes wedi dechrau ynghylch sut y gallent gyfrannu at y deunydd esboniadol a gyhoeddir ar wefan Cyfraith Cymru/Law Wales. Rydym yn gobeithio cryfhau'r cysylltiadau hyn yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, a gobeithio y bydd academyddion yn chwarae rhan hanfodol wrth wella dealltwriaeth o gyfraith Cymru.

Mae CCAUC yn ariannu addysg uwch ac ymchwil yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad ar gyfer Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, y bwriedir iddo gynnwys pwyllgor statudol a fydd yn gyfrifol am ymchwil ac arloesi. Er hynny, yn ein hymdrechion i gynyddu ymchwil academaidd ar y gyfraith rhaid inni barhau i barchu a chefnogi annibyniaeth academaidd.

Argymhellion 6 a 10

Argymhelliad 6 o adroddiad y Pwyllgor oedd y dylai'r Llywodraeth ymrwymo i adolygiad o'r ddeddfwriaeth yng nghanol y tymor Cynulliad cyntaf y daw'r ddeddfwriaeth i rym, hy erbyn diwedd 2023. Fel y crybwyllais yn ystod dadl Cyfnod 1, rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Rydym hefyd yn derbyn argymhelliad 10 o'r Pwyllgor ac rwyf wedi cyflwyno gwelliant i'r Bil, a fyddai, pe bai'n cael ei dderbyn, yn darparu ar gyfer adroddiadau blynyddol o dan raglen.

Ar gyfer yr adolygiad canol ffordd y bwriad fyddai i adroddiad blynyddol y Cwnsler Cyffredinol yn 2023 gael ei ymestyn i gynnwys adolygiad o effeithiolrwydd Rhan 1 o'r Bil ei hun. Byddai'r adroddiad hwn hefyd yn ymateb i argymhelliad 2 o adroddiad y Pwyllgor Cyllid (ac fe fyddai felly'n ymdrin â goblygiadau ariannol ac adnoddau).

Byddai'r Llywodraeth hefyd yn cefnogi'r Cynulliad Cenedlaethol wrth iddo adolygu'r ddeddfwriaeth ar unrhyw adeg y byddai'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny.

Argymhelliad 7

Argymhellodd y Pwyllgor y dylwn ddarparu esboniad, yn ystod dadl Cyfnod 1, o'r hyn a olygir wrth "hygyrchedd cyfraith Cymru". Roeddwn yn falch o dderbyn yr argymhelliad hwnnw, a cheisiais roi esboniadol yn fy sylwadau agoriadol yn ystod dadl Cyfnod 1: gweler paragraffau 365 i 368 o Gofnod y Trafodion. Ar yr amod y caiff y Bil ei basio, rwyf wedi nodi hefyd fy mod yn bwriadu cyhoeddi datganiad sefyllfa ynghylch cydgrynhoi a chodeiddio yr haf hwn, a fydd yn amlinellu fy syniadau am y cwestiynau hyn yn fanylach.

Argymhelliad 8

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Bil gael ei ddiwygio fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol roi rhaglen hygyrchedd ar waith a baratoir o dan adran 2(1).

Fel y crybwyllais yn Nadl Cyfnod 1, mae'n anochel mai mater o farn oddrychol fydd y cwestiwn a yw hygyrchedd cyfraith Cymru wedi gwella a gallai fod gwahaniaeth barn yn hyn o beth. Byddai dyletswydd statudol i sicrhau gwelliannau o ran hygyrchedd felly'n peri problem. Yn hytrach , dylai cwestiynau ynghylch a oes cynnydd digonol wedi'i wneud fod yn ddarostyngedig i broses wleidyddol (er enghraifft, trwy adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol) ac nid i broses gyfreithiol.

Diben Rhan 1 yw sicrhau bod y llywodraeth yn ystyried hygyrchedd ac yn nodi'r camau y dylid eu cymryd i'w wella. Nid ydym o'r farn y byddai rhwymedigaeth statudol i gymryd yr holl gamau hynny yn briodol, am nifer o resymau.

Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae'r |Llywodraeth yn cymryd cam anghyffredin iawn wrth osod dyletswydd glir a thryloyw arni hi ei hun a'i gwneud ei hun yn destun beirniadaeth os na fydd yn ei chyflawni. Byddai ei gwneud ei hun yn agored i broses gyfreithiol yn mynd y tu hwnt i hyn am reswm sy'n ansicr.

Yn fy marn i fe ddylid osgoi sefyllfa lle y gellid gofyn i lys benderfynu pa gamau neu faint o gamau sydd wedi'u cymryd - neu pa mor gyflym y cawsant eu cymryd - i fynd i'r afael â phroblem aml-ddimensiwn a goddrychol yn aml fel hygyrchedd y gyfraith. Yn ôl pob tebyg mae'n amhriodol gofyn i lys ddelio â'r hyn sydd i bob golwg yn broses wleidyddol ac rwyf yn cwestiynu pa rwymedi addas allai gael ei geisio neu ei orfodi. A fwriedir y dylai hyn fod yn rhwymedigaeth lem fel y gallai Llys ei gwneud yn ofynnol i bob cam gael ei gyflawni i'r llythyren? Beth os yw'r rhaglen yn nodi uchelgais i ymdrin â phroblem neu ganlyniad penodol ond ddim yn pennu yn union sut y caiff ei wneud - beth y byddai gofyn i'r llys ei benderfynu?

Dylid cofio y bydd y mesurau a nodir mewn rhaglen yn cynnwys gwelliannau, ar y cyfan, nad ydynt o fewn pwerau'r Llywodraeth yn unig, gan eu bod yn gofyn am gymorth neu gytundeb gan eraill. Yn fwyaf amlwg bydd y Llywodraeth yn gallu cynnig Biliau cydgrynhoi ond mater i'r Cynulliad Cenedlaethol fydd penderfynu a yw am eu pasio. Yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor soniais am y dull gweithredu sydd wedi'i ddefnyddio yn Seland Newydd. Mae adran 30 o'u Deddf Deddfwriaeth 2012 yn gofyn am raglen ddrafft sy'n benodol i "revision Bills" sy'n cydgrynhoi'r gyfraith. Rhaid i'r rhaglen ddiwygio ddrafft a osodir gerbron Senedd

Seland Newydd nodi pa ddiwygiadau (are) “proposed to be started” a “expected to be enacted”. Mae'r cyfeiriadau at ddiwygiadau “proposed” ac “expected” yn adlewyrchu'r safbwynt cyfansoddiadol mai'r Senedd sy'n penderfynu a ddylid pasio Biliau diwygio neu beidio.

Yn ychwanegol, i ddefnyddio enghraifft anneddfwriaethol, bydd unrhyw welliannau wrth gyhoeddi deddfwriaeth yn golygu bod y Llywodraeth yn gweithio gyda'r Yr Archifau Gwladol. Nid yw penderfynu ar sut y gellid gwella cyhoeddi yn rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud ar ei phen ei hun.

Yn ymarferol effaith debycaf gorfodi dyletswydd o'r fath ar y Llywodraeth fyddai'r gwrthwyneb i'r hyn a oedd yn cael ei fwriadu. Gan y byddai cynnwys cychwynnol y rhaglen yn dal yn rhywbeth sydd o fewn disgresiwn y Llywodraeth, mae'n anochel y byddai dyletswydd o'r math hwn yn golygu y byddai llywodraethau'r dyfodol yn ymddwyn yn betrus ac yn cyfyngu eu huchelgais. Byddai rhywbeth a ddylai fod yn ddyheadol ac yn heriol yn oddefol ac yn hawdd, ac ni fyddai'n cynnwys ond y pethau hynny y gallai'r Llywodraeth fod yn hyderus y gallai eu cyflawni.

Mae'n briodol i'r Llywodraeth orfod ymrwymo i raglen o weithgarwch a chael ei dal i gyfrif yn hynny o beth, gan gynnwys gan y llysoedd os bydd yn methu â gwneud hyn. Ond fe ddylai'r cwestiwn eilaidd a mwyaf goddrychol o *ba mor* dda y mae'r rhaglen honno wedi'i chyflawni fod yn gwestiwn gwleidyddol ac nid yn gwestiwn cyfreithiol.

Argymhelliad 9

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid diwygio adran 2 o'r Bil fel bod rhaid i raglen gynnwys gweithgareddau arfaethedig y bwriedir iddynt hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru. Cadarnheais yn ystod dadl Cyfnod 1 fod y Llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad hwn ac rwyf bellach wedi cyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn rhoi effaith i hyn (gweler diwygiadau 1 a 2).

Argymhelliad 11

Argymhellodd y Pwyllgor y dylwn gyhoeddi datganiad yn egluro fy nghynigion a'm bwriad ar gyfer codeiddio cyfraith Cymru. Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Os bydd y Cynulliad yn pasio'r Bil, rwyf wedi ymrwymo i gyhoeddi datganiad sefyllfa ar gydgrynhoi a chodeiddio, a manylion pellach ar Godau Cyfraith Cymru, yn yr haf.

Argymhelliad 14

Ni welodd y Pwyllgor unrhyw reswm dros anghytuno â'm cynnig y dylai'r Bil ailddatgan adran 156(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ynghylch statws cyfartal testunau Cymraeg a Saesneg o ddeddfwriaeth. Er hynny, argymhellodd y dylwn roi rhagor o wybodaeth am y cynnig. Rwyf yn derbyn yr argymhelliad.

Rwyf bellach wedi cyflwyno diwygiadau sy'n dangos sut y mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai'r Bil ymdrin â'r mater hwn. Gweler diwygiadau 4, 5, 7 ac 11 a gyflwynais ar 4 Ebrill. Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd at bob un o Aelodau'r Cynulliad ar 5 Ebrill yn amgáu esboniad manwl o ddiben ac effaith pob un o ddiwygiadau'r Llywodraeth.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r wybodaeth a ddarperais ymdrin â'm bwriadau ar gyfer canllawiau ar y ddarpariaeth a ailddatganwyd. Roeddwn wedi sôn mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor y gallai canllawiau gael eu rhoi yn y Nodyn Esboniadol i'r adran 156(1) wedi'i hailddatgan, ac yn ystod dadl Cyfnod 1 ymrwymais i ddarparu Nodyn Esboniadol drafft i gyd-fynd â'r darpariaethau newydd. Mae atodiad A i'r llythyr hwn yn nodi'r testun yr wyf yn

bwriadu ei ychwanegu at y Nodiadau Esboniadol i'r Bil, ar ôl Cyfnod 2, os cytunir ar ddiwygiadau'r Llywodraeth.

Hoffwn achub y cyfle hwn i ailadrodd fy sylwadau yn Nadl Cyfnod 1, a diolch i'r Pwyllgor am eu gwaith yn craffu ar y Bil a'u hadroddiad defnyddiol, a diolch hefyd i staff cymorth y Pwyllgor.

Yn gywir,



Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Atodiad A – Nodiadau Esboniadol drafft ar gyfer ailddatgan a diwygio adran 156

Ar ôl y paragraff 45 presennol o Nodiadau Esboniadol y Bil:

Adran [5] – Statws cyfartal testunau Cymraeg a Saesneg

46. Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig wedi ei deddfu neu wedi ei ddeddfu yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae adran [5] yn darparu bod i destunau'r ddwy iaith statws cyfartal at bob diben. Ystyr hyn yw mai cynnwys y ddau destun sy'n mynegi'r gyfraith yn llawn ac nid un testun yn unig.

47. Mae'r arfer o ddeddfu'n ddwyieithog i Gymru wedi ei hen sefydlu. Yn benodol, rhaid i Ddeddfau'r Cynulliad gael eu deddfu yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael ei deddfu, bron yn ddieithriad, yn y ddwy iaith[1].

48. Ar hyn o bryd, mae adran 156(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer statws cyfartal testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth ddwyieithog. Mae adran [5] o'r Bil yn ailddatgan y ddarpariaeth honno, i'r graddau y mae'n gymwys i Ddeddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt.

49. Yn debyg i adran 156(1) o Ddeddf 2006, mae adran [5] o'r Bil yn gymwys at bob diben ac nid at ddiben dehongli yn unig. Fodd bynnag, mae i statws cyfartal y testunau nifer o oblygiadau ar gyfer dehongli deddfwriaeth ddwyieithog. Ystyriwyd y rhain gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei bapur ymgynghori a'i adroddiad terfynol ar *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*[2]. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch ystyr mewn darn o ddeddfwriaeth Cymru, mae'n arbennig o bwysig sylweddoli y bydd angen ystyried fersiynau'r ddwy iaith er mwyn penderfynu ar ystyr y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn rhywbeth sy'n effeithio ar bawb sy'n ymwneud â gwneud, gweithredu, gweinyddu a dehongli deddfwriaeth Cymru.

50. Nid yw effaith adran [5] yn ddarostyngedig i'r eithriad yn adran 4(1) o'r Bil. Mewn geiriau eraill, nid yw'r Bil yn darparu bod y rheol yn adran [5] i'w heithrio mewn achosion pan fo darpariaeth wedi ei gwneud i'r gwrthwyneb neu pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

51. Nid yw adran [5] yn ailddatgan adran 156(1) o Ddeddf 2006 ond ar gyfer deddfwriaeth y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi. Bydd adran 156(1) yn parhau i fod yn gymwys i Fesurau'r Cynulliad, ac i Ddeddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig nad yw Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt (yn bennaf y rheini sydd wedi eu deddfu cyn i Ran 2 ddod i rym yn llawn). Mae Rhan 4 o'r Bil yn diwygio adran 156(1) o Ddeddf 2006 i osgoi unrhyw orgyffwrdd ag adran [5] o'r Bil.

---

[1] Rhaid i Fil Cynulliad fod yn y ddwy iaith ar adeg ei gyflwyno ac ar adeg ei basio: gweler Rheolau Sefydlog 26.5 a 26.50 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac adran 111(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar gyfer offerynnau statudol a osodir gerbron y Cynulliad, mae methu â chyflwyno offeryn yn y ddwy iaith yn sail dros ei ddwyn i sylw'r Cynulliad: gweler Rheol Sefydlog 21.2(ix).

[2] Gweler pennod 12 o Bapur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 223 (Gorffennaf 2015), a phennod 12 o Adroddiad Comisiwn y Gyfraith Rhif 336 (Hydref 2016).

Adran 39 ac Atodlen 2 – Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

Yn lle'r paragraff 190 presennol:

190. Mae paragraff 2 o Atodlen 2 yn gwneud sawl diwygiad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

191. Mae'r diwygiad cyntaf yn ganlyniadol i adran [5] o'r Bil, sy'n darparu ar gyfer statws cyfartal testunau deddfwriaeth ddwyieithog Cymru. Mae adran [5] yn ailddatgan adran 156(1) o Ddeddf 2006 mewn perthynas â deddfwriaeth y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi. Felly, mae paragraff 2(2)(a) o Atodlen 2 yn diwygio adran 156 o Ddeddf 2006 fel nad yw is-adran (1) yn gymwys i ddeddfwriaeth y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi. Bydd adran 156(1) yn parhau i fod yn gymwys i ddeddfwriaeth ddwyieithog arall Cymru (yn bennaf deddfwriaeth sydd wedi ei deddfu cyn i Ran 2 ddod i rym yn llawn).

192. Mae paragraff 2(2)(b) o Atodlen 2 yn diddymu adran 156(2) i (5) o Ddeddf 2006. Mae'r darpariaethau hynny yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion sy'n darparu, pan ddefnyddir geiriau ac ymadroddion Cymraeg penodol mewn darn o ddeddfwriaeth Cymru, fod iddynt yr un ystyr â'r geiriau a'r ymadroddion Saesneg a bennir yn y gorchymyn. Ni ddefnyddiwyd y pŵer hwn erioed, ac nid oes cynlluniau i'w ddefnyddio[3]. Gellid dweud hefyd fod y darpariaethau hyn yn anghyson â'r gosodiad cyffredinol sy'n eu rhagflaenu – sef bod i'r ddwy iaith statws cyfartal. Mae Atodlen 1 i'r Bil bellach yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch ystyr amryw o eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn neddfwriaeth Cymru, y gellir ei diwygio os oes angen diffinio geiriau ac ymadroddion ychwanegol; a gall Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig unigol wneud ei darpariaeth neu ei ddarpariaeth ei hun ynghylch ystyr geiriau ac ymadroddion yn y Ddeddf benodol neu'r offeryn penodol.

193. Mae paragraff 2(3) o Atodlen 2 yn diddymu cyfeiriad at adran 156(2) i (5) o Ddeddf 2006 sydd wedi ei ddisbyddu o ganlyniad i ddiddymu adran 156(2) i (5).

194. Mae paragraff 2(4) o Atodlen 2 yn diddymu'r ddarpariaeth yn Neddf 2006 a fewnosododd yn wreiddiol adran 23B yn Neddf 1978, oherwydd bod paragraff 1 o Atodlen 2 yn disodli'r cyfan o adran 23B.

[3] Roedd y pŵer yn adran 156 yn seiliedig ar bŵer blaenorol yn adran 122 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ac ni ddefnyddiwyd y pŵer hwnnw erioed ychwaith.

Cabinet Office

Rt Hon David Lidington CBE MP
Chancellor of the Duchy of Lancaster
Minister for the Cabinet Office
70 Whitehall
London
SW1A 2AS

Web www.cabinetoffice.gov.uk

Our Ref: CDL/2962

Mick Antoniw AM
National Assembly for Wales
Chair, Constitutional and Legislative Affairs
Cardiff Bay
CF99 1NA

3 May 2019

Dear Mick,

I believe that the regular and ongoing engagement between the four UK administrations is vital for effective intergovernmental working. I am pleased to provide an overview of the recent Ministerial engagement with the devolved administrations and an update on the review of intergovernmental relations.

Review of intergovernmental relations

At the Joint Ministerial Committee (Plenary) on 14 March 2018, Ministers from the UK Government and devolved administrations agreed to review the existing intergovernmental structures. The review of intergovernmental relations is a joint review between all four administrations, with leads from each administration charged with taking forward each of the five thematic workstreams.

On 19 December 2018, the Joint Ministerial Committee (Plenary) reviewed the progress made so far on the review. They remitted work back to officials from the four administrations to make progress against the five workstreams. It was agreed that the governments will continue to work together to:

1. Develop a set of **principles** to provide the context for future relations, which in turn will continue to shape the work of the review;

2. Ensure that the **governance of common frameworks** is being developed to ensure they can function effectively. Governance structures are being designed to facilitate agreement and provide clarity on the roles and responsibilities of each party, and to strengthen intergovernmental working on a substantial number of policy areas;

3. Ensure that the existing **dispute resolution** mechanism in the overarching MoU on Devolution is adapted to manage the range of policy differences that may arise as the UK leaves the EU, including those involving third parties. The majority of our differences are resolved through dialogue rather than detailed procedures, which we believe is the best way to conduct effective intergovernmental relations. We expect the principle of dispute avoidance to remain central to managing disputes in the future and we are supporting common frameworks teams to bolster their dispute avoidance processes.

4. Maintain and build upon existing **machinery**, including the Joint Ministerial Committees, reflecting the range of views on the effectiveness of the current arrangements. We are considering the machinery required in relation to:
    a. The coordination of relevant domestic issues, particularly the governance of future common frameworks;
    b. Ongoing EU business and the UK's future partnership with the EU; and
    c. The UK's wider international interests.

5. Ensure that there are effective arrangements for **engagement on international matters**. This work continues to be informed by further thinking on the machinery and principles for effective intergovernmental working.

This is a live body of work that has many interdependencies. In many areas, the four administrations are already taking significant steps to outline new processes for the devolved administrations, such as the enhanced role of the devolved administrations in the next phase of EU negotiations and the work on establishing common frameworks. The revised version of the frameworks analysis published on 4 April 2019 demonstrates the significant progress made jointly by the four administrations on common frameworks. As mentioned above, this joint work includes the arrangements needed to govern common frameworks in the future to facilitate agreement and promote effective intergovernmental working.

Joint Ministerial Committee (EU Negotiations)

The Joint Ministerial Committee (EU Negotiations) (JMC(EN)) has met once since our last correspondence for the sixteenth time, on 7 February 2019. At the meeting, the Secretary of State for Exiting the European Union provided an update on the progress of the EU exit negotiations as well as developments in Parliament. The Committee also discussed domestic issues, including updates on operational readiness, the EU (Withdrawal Agreement) Bill and common frameworks. They also noted the publication of the second EU Withdrawal Act and Common Frameworks report.

The next meeting of JMC(EN) is currently being organised. As well as the formal JMC(EN) meeting, the Chancellor of the Duchy of Lancaster has also kept in close contact with his counterparts in the devolved administrations to keep them updated on the latest EU exit developments.

Joint Ministerial Committee (Europe)

The Joint Ministerial Committee (Europe) (JMC(E)) has continued to meet quarterly, mainly ahead of European Council meetings. The meetings are chaired by the DExEU Minister of State, Lord

Callanan, and provide an opportunity for ministers from the devolved administrations to provide input on UK positions on ongoing EU business. There have been two meetings since our last letter.

A meeting was held on 28 January 2019 where the Chair gave an update on the December European Council, and the Committee was joined by Her Majesty's Ambassador to Romania for a discussion on priorities for the Romanian Presidency. Ministers also discussed a paper on Blue Growth as well as the role of the forum during the Implementation Period. In line with this and in preparation for the March meeting, the Committee commissioned officials to jointly develop a Common Priorities Framework that could be used to identify shared priority areas with the intention of developing joint campaigns to informally influence the EU once the UK is no longer a Member State.

The most recent meeting of JMC(E) took place on 18 March 2019. As well as the standing agenda item of the UK's priorities for the European Council, the forum also received an update on the Multiannual Financial Framework from a representative from Her Majesty's Treasury. The Committee also discussed preparations for the UK being a third country, in addition to the work commissioned at the January JMC(E) on developing a Common Priorities Framework. The next JMC(E) is due to take place in early June and will consider the progress on this work as well as the priorities for the Finnish Presidency.

Ministerial Forum (EU Negotiations)

The Ministerial Forum (EU Negotiations) (MF(EN)), co-chaired by the Parliamentary Under Secretary of State at the Department for Exiting the European Union, Robin Walker MP, and the Minister for the Constitution, Chloe Smith MP, has now met eight times since it was established in May 2018. Since our last correspondence, there have been two further meetings of MF(EN), on 31 January and 25 February 2019.

On 31 January, MF(EN) met in Edinburgh to discuss the UK Government's proposal for a future security partnership, led by Kwasi Kwarteng MP from the Department for Exiting the European Union; internal security, led by Nick Hurd MP from the Home Office; and civil judicial cooperation, led by Lucy Frazer MP from the Ministry of Justice. This followed Minister Walker's regular update on negotiations in Brussels. In addition to the regular ministerial attendees from the devolved administrations, Graeme Dey MSP, Minister for Parliamentary Business and Veterans for the Scottish Government and Jeremy Miles AM, Counsel General and Brexit Minister for the Welsh Government, Ash Denham MSP, Minister for Community Safety for the Scottish Government, was also in attendance. Senior officials from the Northern Ireland Civil Service attended in the continued absence of a Northern Ireland Executive.

MF(EN) also met on 25 February in Cardiff to discuss data protection in the context of our future relationship with the EU, led by Margot James MP from the Department for Digital, Culture, Media and Sport. Ministers also discussed a review of the work of the Forum to date and the role of the devolved administrations in the next phase of negotiations, following the commitment the Prime Minister made in the House of Commons on 21 January 2019 to an enhanced role for the devolved administrations in the next phase.

Underpinning this ministerial engagement, there is ongoing official-level engagement to discuss the policy detail behind topics relating to the future relationship with the EU; there have been over 30 such meetings to date. These discussions continue to highlight policy areas and issues for discussion at future meetings of MF(EN).

We hope that this provides a useful summary of recent engagement with the devolved administrations.

Rt Hon David Lidington CBE MP

Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

7 Mai 2019

Annwyl Eluned

Y Bil Masnach - cydsyniad deddfwriaethol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Ebrill 2019, a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill 2019.

Rydym yn ddiolchgar am eich dadansoddiad o'r gwelliannau a wnaed yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Yn arbennig, mae eich asesiad o'r ffordd y mae'r gwelliannau yn rhyngweithio â'r cydsyniad deddfwriaethol a roddir gan y Cynulliad yn arbennig o ddefnyddiol.

Mewn perthynas â gwelliant 14, rydych chi'n nodi:

"Un o effeithiau gwelliant 14 yw ehangu pwerau datganoledig dan y Bil ac felly nid wyf yn meddwl bod y Cynulliad wedi cydsynio i'r newid hwn wrth iddo roi ei gydsyniad gwreiddiol. Fel arfer, byddwn yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer gwelliant o'r math hwn ond yn realistig nid wyf yn rhagweld y byddai amser i gydymffurfio â gweithdrefnau'r Memorandwm. Nid wyf, felly, yn bwriadu gwneud hynny."

Rydym yn cytuno â'ch asesiad o'r angen i geisio cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad yn yr amgylchiadau hyn.

Mae ein barn ni yn wahanol i'ch un chi gan ein bod yn credu y dylid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol fel mater o frys.

Gan nad oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer trafod gwelliannau'r Arglwyddi yn Nhŷ'r Cyffredin, efallai y bydd modd i'r Cynulliad drafod cynnig cydsyniad deddfwriaethol cysylltiedig cyn i'r broses graffu Seneddol ddod i ben.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

Hyd yn oed mewn amgylchiadau lle nad yw amserlenni Senedd y DU yn caniatáu i gydymffurfio'n llawn â gweithdrefnau cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad, credwn y dylai Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod ac, os yn bosibl, ei drafod.

Nodwn mai dyma'r ail achlysur y mae deddfwriaeth San Steffan yn ymwneud â Brexit yn mynd rhagddi gyda'r angen am gydsyniad deddfwriaethol yn codi yn ystod camau olaf y broses ddeddfwriaethol.

Rydym wedi anfon copi o'r llythyr hwnnw at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/AJ

07 Mai 2019

Annwyl Mick,

Diolch i chi am eich llythyr ynghylch cymhwyso Rheol Sefydlog 30A.

Fel y gwyddoch, mae'n gonfensiwn sydd wedi'i hen sefydlu na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad y Cynulliad. Yn y cyd-destun hwnnw, mae Rheolau Sefydlog 29 a 30A yn nodi gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer rhoi cydsyniad mewn perthynas â darpariaethau mewn Biliau ac Offerynnau Statudol sydd gerbron Senedd y DU, sy'n gwneud darpariaeth sydd naill ai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Er bod yna gryn ddibyniaeth ar waith rhynglywodraethol wrth weithredu'r confensiwn yn ymarferol, confensiwn rhyng-Seneddol ydyw yn ei hanfod, gan mai'r Cynulliad sy'n rhoi cydsyniad i Senedd y DU ddeddfu o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Adlewyrchir y dimensiwn rhyng-Seneddol hwnnw yn y ffaith bod Clerc y Cynulliad, ers 2013, wedi hysbysu ei swyddogion cyfatebol yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi pan fydd y Cynulliad wedi pasio neu wrthod cynnig cydsyniad, fel bod modd hysbysu Aelodau Seneddol o benderfyniad y Cynulliad drwy'r papur trefn.

Er nad yw Rheol Sefydlog 29 na 30A yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o'r Llywodraeth, nac unrhyw un arall, gyflwyno cynnig cydsyniad mewn perthynas â darpariaethau perthnasol mewn unrhyw Fil neu Offeryn Statudol y DU, yr unig ffordd y gellir ceisio, a rhoi, cydsyniad y Cynulliad i'r fath ddarpariaethau yw drwy gyflwyno a phasio cynnig o'r fath. Os na fydd cynnig o'r fath wedi'i ystyried – heb

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

sôn am ei basio – gan y Cynulliad mewn perthynas â darpariaeth berthnasol mewn unrhyw Fil neu Offeryn Statudol y DU, ni ellir dweud bod y Cynulliad wedi rhoi ei gydsyniad i'r ddarpariaeth honno. Byddai'n peri pryder i mi pe bai Senedd y DU yn bwrw ymlaen i ddeddfu o dan yr amgylchiadau hynny, gan y byddai'n ymddangos i mi yn groes i'r confensiwn o beidio â deddfu heb gydsyniad datganedig y Cynulliad.

O ran eich pwynt olaf, cyflwynwyd y ddarpariaeth i Aelod ac eithrio aelod o'r Llywodraeth gyflwyno cynnig cydsyniad yn 2013, ochr yn ochr â dileu'r gofyniad i'r Llywodraeth gyflwyno cynnig mewn perthynas â phob memorandwm a osodir. Cynlluniwyd y weithdrefn i'w defnyddio mewn amgylchiadau pan fydd memorandwm y Llywodraeth yn nodi nad yw'n briodol rhoi cydsyniad ym marn y Llywodraeth, ac mae'n galluogi Aelodau eraill i ddadlau'r safbwynt croes ac i gyflwyno cynnig cydsyniad i'r perwyl hwnnw. Ni ragwelwyd y byddai ei angen mewn sefyllfaoedd pan fo'r Llywodraeth yn cefnogi deddfwriaeth arfaethedig y DU, gan mai'r disgwyliad o dan yr amgylchiadau hynny yw y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno ei chynnig ei hun yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad i'r ddeddfwriaeth fynd rhagddi.

Gobeithio bod hynny'n rhoi eglurder i'r Pwyllgor o ran fy nehongliad o'r Rheolau Sefydlog perthnasol.

Yn gywir,

Elin Jones AC
Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Elin Jones AC
Llywydd

25 Mawrth 2019

Annwyl Lywydd

Rheol Sefydlog 30A – Cydsyniad mewn Perthynas ag Offerynnau Statudol a Wneir gan Weinidogion y DU

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â Rheol Sefydlog 30A. Mae'r Rheol Sefydlog hon yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o Lywodraeth Cymru osod memorandwm cydsyniad offeryn statudol (memorandwm) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol perthnasol a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad diweddar, sef *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Adroddiad cynnydd* (adroddiad cynnydd), nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynigion yn ceisio cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol i'r rheoliadau sy'n ddarostyngedig i femoranda cydsyniad offeryn statudol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig esboniadau amrywiol dros hyn mewn gohebiaeth â ni, sef:

- nid yw'n credu y byddai cynnal dadl ar y memoranda perthnasol yn ffordd gynhyrchiol o ddefnyddio "amser gwerthfawr y Cyfarfod Llawn";
- mae'r rheoliadau perthnasol wedi'u cyfyngu i gywiro diffygion yn y gyfraith a fydd yn deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd;
- mae darpariaethau'r rheoliadau perthnasol yn dechnegol eu natur, ac nid oes dim gwahaniaeth rhwng polisi Llywodraeth Cymru a pholisi Llywodraeth y DU.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Yn ein hadroddiad cynnydd, nodwyd ein pryderon nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio proses Rheol Sefydlog 30A fel rydym yn credu y dylai fod. Rydym hefyd wedi dweud nad ydym, hyd yn hyn, wedi gwneud sylwadau ynghylch a ddylai memoranda fod yn ddarostyngedig i gynnig cydsyniad oherwydd nad ydym yn credu y dylai ddod yn fater i ni benderfynu arno'n rheolaidd. Dywedasom y canlynol:

> Credwn y dylai pob Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol cysylltiedig â Brexit fod yn ddarostyngedig i gynnig cydsyniad a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae proses y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn cael ei defnyddio fel modd i Weinidogion Cymru roi cydsyniad yn ddiofyn. I ddefnyddio cymhareb gymharol gyfarwydd, mae'r broses gydsynio'n awr yn ymdebygu i broses y weithdrefn negyddol ar gyfer ystyried offerynnau statudol; ystyrir bod cydsyniad wedi'i roi oni bai bod Aelod Cynulliad yn ymyrryd. Nid yw hynny'n briodol ac nid yw'n gydnaws ag ysbryd Rheol Sefydlog 30A.

Hefyd, daethom i'r casgliad, os yw Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r egwyddor, ar y cyd â Llywodraeth y DU, nad oes angen cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol yn gyffredinol, nid yw'n glir pa effaith fyddai unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol i bleidleisio yn erbyn cynnig cydsyniad yn ei chael.

Yn ei lythyr dyddiedig 11 Mawrth 2019 atom, gan ymateb i'n hadroddiad cynnydd, dywedodd y Prif Weinidog y canlynol:

> Sylwaf y byddai'n well gan y Pwyllgor pe bai Gweinidogion Cymru yn gosod cynigion ar gyfer holl Femoranda Cydsyniad Offerynnau Statudol.
>
> Mae Gorchmynion Sefydlog yn nodi'n glir mai dewis i'r Gweinidogion neu Aelodau yw gosod cynnig. Mae'r ffaith bod Suzy Davies AC wedi gallu gosod cynnig i drafod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yr Amgylchedd Morol yn dangos bod y Rheolau Sefydlog yn gweithredu yn unol â'r bwriad. Fel y nodais uchod, gan fod eich adroddiad yn datgan y gallai'r Cynulliad, pe bai angen, fod wedi gallu ymdopi ag unrhyw gynnydd o ran llwyth gwaith yn deillio o Brexit, mae'n galonogol imi y byddai'r adnoddau ar gael i Aelodau Cynulliad ddrafftio memorandwm a gosod cynnig yn y Cynulliad os oeddent o'r farn bod hynny'n hanfodol.

Fel Pwyllgor, rydym bellach yn teimlo ei bod yn briodol gofyn am eich barn am Reol Sefydlog 30A a'ch dehongliad ohoni.

Hefyd, hoffwn achub ar y cyfle i awgrymu, gyda pharch, nad yw ymateb y Prif Weinidog (fel y nodwyd uchod) i'n pryderon ynghylch dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran proses Rheol Sefydlog 30A yn adlewyrchu'n gywir ein sylwadau ar y ffordd y mae busnes y Cynulliad yn cael ei gynnal.

O ganlyniad i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran proses Rheol Sefydlog 30A, cyflwynodd Suzy Davies AC gynnig mewn perthynas ag un memorandwm cydsyniad offeryn statudol. Ar yr achlysur hwn, nid oedd yr Aelod yn anghytuno â memorandwm Llywodraeth Cymru ei hun, dim ond penderfyniad y Llywodraeth i beidio â chyflwyno'r cynnig cysylltiedig o dan Reol Sefydlog 30A.10. Fodd bynnag, roedd y Rheolau Sefydlog, fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, yn dal i'w gwneud yn ofynnol iddi gyflwyno ei memorandwm ei hun (Rheol Sefydlog 30A.3). Yn ein barn ni, mae'n ymddangos yn ddiangen ei gwneud yn ofynnol i Aelod Cynulliad gyflwyno ei femorandwm ei hun yn yr amgylchiadau hyn, lle mae'n cytuno â Llywodraeth Cymru.

Yn sgil yr uchod, byddwn yn croesawu eich barn am sut y mae Rheol Sefydlog 30A yn cael ei defnyddio a'i dehongli.

Yn gywir

Mick Antoniw AC
Y Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AM
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

08 Mai 2019

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi y bydd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) yn cyfarfod yn Llundain ar 9 Mai.

Bydd yr agenda yn ymdrin â'r negodiadau gyda'r UE ar ymadawiad y DU, rôl y gweinyddiaethau datganoledig a'r cynnydd o ran Fframweithiau Cyffredin.

Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor ar ganlyniad y cyfarfod.

Yn gywir,

Jeremy Miles AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Ymateb Interim Llywodraeth Cymru i Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru**
DYDDIAD	**09 Mai 2019**
GAN	**Julie James AC, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

Comisiynwyd Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad manwl o gyfraith cynllunio yng Nghymru er mwyn symleiddio a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth. Daeth yr adolygiad i ben ar 30 Tachwedd 2018 pan gyflwynwyd ei adroddiad, 'Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Adroddiad Terfynol' i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru. Gosodwyd yr adroddiad terfynol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Comisiwn y Gyfraith.

Yn unol â'r protocol y cytunwyd arno rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith ar 2 Gorffennaf 2015, rhaid i'r Llywodraeth roi ymateb interim i'r Adroddiad i Gomisiwn y Gyfraith o fewn chwe mis i'r dyddiad y'i cyflwynwyd ac y'i cyhoeddwyd. Rhaid rhoi ymateb manylach o fewn 12 mis.

Heddiw, rwy'n falch o fod wedi cyflwyno a chyhoeddi ymateb interim Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad, sy'n canolbwyntio ar y casgliadau craidd a nodir yn Rhan 1 o'r Papur Ymgynghori (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017) a'r Adroddiad Terfynol. Yn benodol, mae'n nodi ymateb y Llywodraeth i farn Comisiwn y Gyfraith ar y canlynol:

- yr angen i symleiddio a chydgrynhoi cyfraith cynllunio;
- yr achos dros god cynllunio;
- cwmpas yr ymarfer cydgrynhoi cychwynnol.

Gallwch weld yr ymateb interim yn:

https://llyw.cymru/ymateb-dros-dro-i-adroddiad-comisiwn-y-gyfraith-ar-y-gyfraith-gynllunio-yng-nghymru

Rydym yn parhau i ystyried y 192 o argymhellion a nodir yn Rhan 2 o'r Adroddiad, y bydd ein hymateb manwl, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni, yn canolbwyntio arnynt.

Julie James AC
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Regeneration

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Ustus Green
Cadeirydd
Comisiwn y Gyfraith
1st Floor Tower
52 Queen Anne's Gate
London
SW1H 9AG

Nicholas.Green@lawcommission.gov.uk

9 Mai 2019

Annwyl Nicholas

YMATEB INTERIM I'R ADRODDIAD AR GYFRAITH CYNLLUNIO YNG NGHYMRU

Ar ran Llywodraeth Cymru, rwy'n ddiolchgar i chi, Nicholas Paines CF a'r Tîm Cyfraith Gyhoeddus am y gwaith a wnaed i lunio eich adroddiad manwl ar gyfraith cynllunio yng Nghymru. Mae'n amlwg bod gwaith sylweddol wedi'i wneud a bod dadansoddiad trylwyr wedi'i gynnal er mwyn nodi sail dystiolaeth gynhwysfawr i lywio'r adroddiad ac ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Yn y llythyr hwn ceir Ymateb Interim Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad, a gyflwynir yn unol â'r Protocol rhwng Comisiwn y Gyfraith a Gweinidogion Cymru (Gorffennaf 2015).

Nid yw'n fwriad gennyf ymateb i'r 192 o argymhellion a nodir yn Rhan 2 o'ch adroddiad, am ein bod yn parhau i'w dadansoddi a'u hystyried yn fanwl. Dyma fydd testun ein hymateb ffurfiol yn ddiweddarach eleni.

Yn lle hynny, mae'r ymateb hwn yn canolbwyntio ar y casgliadau craidd a nodir yn Rhan 1 o'r Papur Ymgynghori (Tachwedd 2017) a'r Adroddiad Terfynol (Tachwedd 2018), yn enwedig barn Comisiwn y Gyfraith ar y canlynol:

- yr angen i symleiddio a chydgrynhoi cyfraith cynllunio;
- yr achos dros god cynllunio;
- cwmpas yr ymarfer cydgrynhoi cychwynnol.

Ymdrinnir â'r pwyntiau hyn yn eu tro isod.

Yr angen i symleiddio a chydgrynhoi cyfraith cynllunio

Mae'r adroddiad yn dangos yn glir fod deddfwriaeth gynllunio yn faes cyfreithiol y mae angen rhoi sylw iddo ar fyrder o ran symleiddio a chydgrynhoi. Mae'n atgyfnerthu barn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Llywodraeth Cymru, y mae wedi'i harddel ers tro, ynghylch cymhlethdod y fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r system gynllunio.

Tynnodd ein gwaith ar Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a'r sail dystiolaeth ategol a ddarparwyd gan Grŵp Cynghori Annibynnol, sylw at y mater hwn, a arweiniodd at brosiect cydweithredol â Chomisiwn y Gyfraith i gynnal yr adolygiad manwl hwn. Nodaf hefyd i faterion sy'n ymwneud â chymhlethdod a hygyrchedd y gyfraith yn fwy cyffredinol gael eu hystyried gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad, *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru* (Mehefin 2016), a gyfeiriodd at agweddau ar gyfraith cynllunio.

Mae'r adolygiad diweddar o'r system gynllunio yn Lloegr a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref[1] hefyd yn atgyfnerthu casgliadau eich adroddiad drwy argymell y dylid symleiddio a chydgrynhoi deddfwriaeth gynllunio yn Lloegr. Dengys hyn nad yw'r broblem yn unigryw i Gymru. Fodd bynnag, mae adolygiad cynhwysfawr a manwl Comisiwn y Gyfraith i Lywodraeth Cymru yn ein rhoi ar y blaen i'r syniadaeth gyffredinol ynglŷn â'r mater pwysig hwn.

Ar ôl ymarfer ym maes cyfraith cynllunio, rwy'n adnabod anawsterau'r fframwaith deddfwriaethol presennol a nodwyd yn eich adolygiad ac yn eu derbyn. Mae deddfwriaeth gynllunio bresennol yn swmpus ac yn dameidiog, gyda'r adroddiad yn nodi tua 30 o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol gydgysylltiedig (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) sy'n ymwneud â'r maes cyfreithiol hwn. Mae'n amlwg bod hyn yn effeithio ar hygyrchedd y gyfraith, yn ogystal â'i hansawdd o ran cymhlethdod ac eglurder.

Mae'r problemau a achosir gan hyn yn sylweddol. Gall anawsterau neu wallau o ran gweithredu a dehongli'r ddeddfwriaeth sy'n creu'r posibilrwydd o her gyfreithiol arwain at oedi cyn sicrhau datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd cynaliadwy i'n cymunedau. Mae'r angen cynyddol am gyngor cyfreithiol er mwyn gweithredu neu ddefnyddio'r system gynllunio neu gymryd rhan ynddi a'r costau cysylltiedig yn destun pryder hefyd. Ni ddylai pa mor effeithiol y mae'r system gynllunio yn gweithredu na pha mor effeithiol y mae cymunedau yn ymgysylltu â'r system ddibynnu ar b'un a ellir cael neu fforddio cyngor cyfreithiol.

Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir y gall yr anawsterau a nodwyd gyda'r fframwaith deddfwriaethol rwystro'r system gynllunio. Credwn ei bod yn hanfodol symleiddio a chydgrynhoi'r gyfraith er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn. Mae'n bwysig bod pob rhanddeiliad sy'n gweithredu neu'n defnyddio'r system neu'n cymryd rhan ynddi yn cael mynediad at y gyfraith sy'n effeithio'n arno'n uniongyrchol ac yn ei deall yn glir. Mae hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau system gynllunio effeithlon, effeithiol a syml sy'n diwallu anghenion penodol Cymru.

Bydd deddfwriaeth gynllunio sydd wedi cael ei symleiddio a'i chydgrynhoi yn sicrhau manteision ymarferol gwirioneddol i bob rhanddeiliad yn y system gynllunio – o'r rhai sy'n ei gweithredu a'i defnyddio i'r rhai sydd am gael mynediad at y gyfraith er mwyn cymryd rhan yn y system. Yn bwysig ddigon, wrth i gyfraith cynllunio ddod yn fwy hygyrch ac yn gliriach, bydd yn helpu i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd yn y system.

Mae'r prosiect hwn y mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit a minnau yn ymrwymedig i'w ddatblygu yn un pwysig. Fel y gwyddoch, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrthi'n craffu ar y Bil Deddfwriaeth (Cymru) ar hyn o bryd. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru i gyflwyno rhaglen sydd â'r nod o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Bydd y rhaglen gyntaf yn dechrau yn ystod y Cynulliad nesaf yn amodol ar y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol, ond mae'n dda gennyf

[1] Planning 2020: Adolygiad Raynsford o Gynllunio yn Lloegr, Adroddiad Terfynol, Tachwedd 2018

ddweud, cyn i unrhyw raglen ffurfiol gael ei phennu, fod gwaith eisoes wedi dechrau ar Fil Cydgrynhoi Cynllunio.

Yr achos dros god cynllunio

Fel y gwyddoch, mae mater codeiddio cyfraith Cymru wrthi'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit. Mae eisoes wedi nodi ein gweledigaeth o'r hyn y bydd Cod Deddfwriaethol yn ei gynnwys ac mae wrthi'n ystyried sut y dylid trefnu cyfraith Cymru yn y Codau hynny.

Rwy'n cefnogi barn Comisiwn y Gyfraith bod angen penodol am God sy'n dwyn ynghyd y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir. Bydd y ffaith bod y ddeddfwriaeth mewn un lle yn helpu i fynd i'r afael â natur wasgaredig y fframwaith deddfwriaethol presennol. Bydd hyn ynddo'i hun yn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch i randdeiliaid.

Mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit yn cytuno. Ar hyn o bryd mae'r *Tacsonomeg Drafft ar gyfer Codau Cyfraith Cymru* a gyhoeddwyd i gyd-fynd â chyflwyno'r Bil Deddfwriaeth (Cymru) i'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi “Cod Cynllunio, Tir ac Adeiladu”. Mae hyn yn adlewyrchu''r angen i ddwyn deddfwriaeth ynglŷn â chynllunio defnydd tir ynghyd mewn un lle er budd y rhai sy'n gweithredu neu'n defnyddio'r system gynllunio neu'n cymryd rhan ynddi. Yn bwysig ddigon, mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod cynllunio defnydd tir yn faes allweddol ac arwyddocaol o gyfraith ddatganoledig.

Nodaf farn Comisiwn y Gyfraith a rhanddeiliaid ar y meysydd cyfreithiol eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio defnydd tir a allai elwa o gael eu cynnwys mewn Cod sy'n ymwneud â chynllunio, neu o ymarferion codeiddio a chydgrynhoi yn y dyfodol i lunio Codau ar wahân. Nodaf hefyd y safbwyntiau a'r amheuon a fynegwyd gan randdeiliaid ynglŷn â gweithrediad cyffredinol Codau Deddfwriaethol a'r egwyddorion sy'n sail iddynt.

Bydd y safbwyntiau pwysig hyn yn llywio trafodaethau parhaus y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit a'r broses o fireinio'r strwythur a'r dacsonomeg yn y dyfodol. Yn amodol ar y Cynulliad Cenedlaethol yn pasio'r Bil Deddfwriaeth (Cymru), mae'r Cwnsler Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi rhagor o wybodaeth am gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru yn ystod yr haf.

Cwmpas yr ymarfer cydgrynhoi cychwynnol

Fel y noda'r Adroddiad, bydd angen i'r broses o gydgrynhoi cyfraith cynllunio a deddfwriaeth gysylltiedig i greu Cod Cyfraith i Gymru gael ei chyflawni fesul cam. Mae hyn yn synhwyrol o gofio maint y dasg a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ymgymryd å'r ymarfer hwn.

Croesawaf yr ystyriaeth y mae Comisiwn y Gyfraith wedi'i rhoi i'r mater hwn a'i farn y dylai cwmpas yr ymarfer cydgrynhoi cychwynnol a'r Bil a fydd yn deillio o hynny gynnwys, hyd y gellir, yr holl ddeddfwriaeth gynllunio sylfaenol sy'n ymwneud â'r canlynol:

- cynllunio a rheoli gwaith datblygu;
- darparu seilwaith a gwelliannau eraill;
- hysbysebion awyr agored a gwaith ar goed;
- gwelliannau a gweithgarwch adfywio a arweinir gan y sector cyhoeddus (i'r graddau y bônt yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd);
- darpariaethau atodol ac amrywiol.

Mae'r cynnwys yr awgrymir y dylid ei gynnwys o dan y pum maes pwnc hyn, fel y'u nodir yn Nhabl 3.1 o'r papur ymgynghori, yn nodi y dylai cwmpas yr ymarfer cychwynnol hwn arwain at ddileu'r prif ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n sail i'r system yng Nghymru a chyflwyno deddfwriaeth newydd yn eu lle. Yn benodol, Deddf Cymru Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol fel y maent yn gymwys i Gymru; yn ogystal â'r rhai sy'n diwygio'r prif Ddeddfau hyn, megis Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, Deddf Cynllunio 2008 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Cytunwn fod hwn yn ddull gweithredu synhwyrol a bydd hyn yn sail i'n hymarfer cydgrynhoi cychwynnol a'r Bil a fydd yn deillio ohono. Mae'n ategu ein barn bod angen i'r ymarfer cychwynnol ymdrin â swyddogaethau craidd y system gynllunio, yn enwedig y rhai a ddefnyddir yn aml gan weithredwyr a defnyddwyr y system. Fodd bynnag, bydd p'un a allwn ddileu Cymru yn gyfan gwbl o gwmpas Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a rhannau perthnasol o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn enwedig cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Dim ond yn ystod y broses o lunio a drafftio'r Bil cydgrynhoi cynllunio y daw hyn yn gwbl amlwg.

Mae cwmpas a strwythur posibl Bil cydgrynhoi cynllunio cychwynnol a awgrymwyd gan Gomisiwn y Gyfraith hefyd yn adlewyrchu eich argymhellion i uno caniatâd adeiladu rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth â chaniatâd cynllunio. Nid ydym wedi penderfynu eto a fydd cwmpas yr ymarfer cychwynnol yn darparu ar gyfer cynigion o'r fath am ein bod yn parhau i ystyried eich argymhellion ynglŷn â'r mater penodol hwn yn ofalus.

Yn ogystal â'r uchod, nodaf fod yr adroddiad hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer meysydd eraill o gyfraith cynllunio i'w cynnwys o fewn cwmpas yr ymarfer cychwynnol hwn. Rwy'n cefnogi'r farn a nodir yn Argymhelliad 10.1 y dylid cynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn yr ymarfer cydgrynhoi cychwynnol a'r Bil a fydd yn deillio ohono. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, dim ond yn ddiweddar y datganolwyd cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol drwy Ddeddf Cymru 2017. Bydd angen ystyried sut y byddwn yn ymdrin â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a rhwymedigaethau cynllunio yn y dyfodol fel rhan o drafodaethau ehangach a hirdymor Llywodraeth Cymru ynghylch trethu tir datblygu, megis ein hymchwiliadau i'r posibilrwydd o gyflwyno treth ar dir gwag.

Mae'n synhwyrol trosglwyddo'r darpariaethau hyn heb eu newid i'r darn cychwynnol o ddeddfwriaeth gynllunio wedi'i chydgrynhoi tra bod y maes polisi hwn yn cael ei adolygu. O ystyried y gydberthynas agos rhwng yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a rhwymedigaethau cynllunio, byddai'n fuddiol i ddefnyddwyr a gweithredwyr y system pe bai'r darpariaethau hyn yn cael eu dwyn ynghyd o dan un darn o ddeddfwriaeth yn hytrach na'u bod wedi'u cynnwys mewn Deddfau ar wahân, sef y sefyllfa ar hyn o bryd.

Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried a ddylid cynnwys y darpariaethau statudol sy'n ymwneud â phrynu gorfodol fel rhan o'r ymarfer cychwynnol hwn. Mae'n awgrymu na ddylid cynnwys darpariaethau statudol cyffredinol ar gyfer prynu gorfodol a digolledu yn yr ymarfer cychwynnol a'r Bil a fydd yn deillio ohono, ond mae'n argymell y dylid cynnwys y pŵer i gaffael tir at ddibenion cynllunio yn Rhan 9 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Argymhelliad 16.14). Credaf y byddai'n synhwyrol cynnwys y darpariaethau hynny o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gyda'r nod o ddisodli Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ei chyfanrwydd a chyflwyno deddfwriaeth i Gymru yn ei lle. Fodd bynnag, byddai angen i'r rhaglen ehangach i gydgrynhoi deddfwriaeth ynglŷn â phrynu gorfodol fod yn destun ymarfer yn y dyfodol o ystyried maint a chymhlethdod y maes cyfreithiol hwn.

Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith wedi rhoi cyfeiriad a chwmpas clir i'r ymarfer cydgrynhoi cynllunio cychwynnol. Bydd cyflwyno Bil cydgrynhoi cynllunio sydd â ffocws tebyg i'r hyn a nodwyd uchod yn sicrhau manteision sylweddol i'n rhanddeiliaid.

Wrth ddatblygu Bil cydgrynhoi cynllunio, nodaf hefyd gasgliadau Comisiwn y Gyfraith bod y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn y fframwaith deddfwriaethol presennol yn gywir, ar y cyfan, a chroesawaf y casgliadau hynny. Byddwn yn ymateb maes o law i'r nifer fach o argymhellion lle mae Comisiwn y Gyfraith wedi amau'r cydbwysedd hwn.

Argymhellion manwl

Er nad wyf mewn sefyllfa i roi ymateb manwl i'r argymhellion a nodir yn Rhan 2 o'r adroddiad, mae'n amlwg o'n hystyriaeth gychwynnol eu bod yn perthyn, yn fras, i dri chategori:

- mae'r rhan fwyaf yn fân ddiwygiadau technegol heb fawr ddim newidiadau mewn polisi, os oes unrhyw rai o gwbl, i hwyluso'r broses gydgrynhoi;
- mae rhai yn cynnig diwygiadau polisi gyda'r nod o symleiddio'r gyfraith a gweithrediad y system gynllunio ymhellach, sy'n amrywio o fân newidiadau i newidiadau sylweddol yn effaith polisi;
- mae rhai yn cynnig newidiadau i is-ddeddfwriaeth a chanllawiau.

Fel y gwyddoch, mae Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno i ddatblygu Rheol Sefydlog ar gyfer craffu ar Filiau cydgrynhoi. Mae'n amlwg y bydd ffurf derfynol y weithdrefn honno yn dylanwadu ar yr hyn y gellir ei weithredu drwy gydgrynhoi. Rhagwelaf mai'r Bil cydgrynhoi cynllunio fydd y prif ddull cyflawni ar gyfer yr argymhellion hynny rydym yn eu derbyn i weithredu arnynt ac sy'n cynnwys mân ddiwygiadau technegol.

Fodd bynnag, lle y gallwn gytuno â'r argymhellion hynny sy'n golygu diwygiadau polisi mwy sylweddol, maent yn annhebygol o gael eu gweithredu o fewn cwmpas Bil cydgrynhoi. Efallai y bydd angen cynnwys y newidiadau hyn mewn Bil diwygio'r gyfraith er mwyn i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu'n fanylach arnynt.

Daw'r dulliau cyflawni ar gyfer yr argymhellion yn gliriach yn dilyn ein hystyriaeth fanwl ohonynt ac ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar unrhyw Reol Sefydlog.

Mae cyflawni unrhyw brosiect cydgrynhoi yn ymarfer sylweddol a thechnegol a all gymryd cryn amser ac ymdrech i'w wneud yn dda. Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu deddfwriaeth hygyrch sydd wedi cael ei hystyried yn drylwyr. Wrth inni ddechrau llunio'r Bil cydgrynhoi cynllunio i Gymru, rwy'n ddiolchgar i Gomisiwn y Gyfraith am ei gefnogaeth a'i gymorth parhaus i'w gyflwyno.

Yn gywir

Julie James AC
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Regeneration

Copi: Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

Y Bil Amaethyddiaeth

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cafodd y Bil Amaethyddiaeth (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Hydref 2018 ac mae wedi cwblhau'r Cyfnod Pwyllgor ar gyfer Bil Cyhoeddus. Mae'r Memorandwm hwn yn nodi'r diwygiadau perthnasol i'r Bil a wnaed yn ystod y Cyfnod Pwyllgor ac mae'n diweddaru'r sefyllfa mewn perthynas â'r cymal ar Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth (Rhan 7). Mae fersiwn ddiweddaraf y BIl, fel y'i diwygiwyd yn ystod y Cyfnod Pwyllgor, i'w gweld yma:

Dogfennau'r Bil ─ Y Bil Amaethyddiaeth 2017-19 ─ Senedd y DU

3. Bydd y Bil yn symud ymlaen bellach i'r Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin cyn mynd i Dŷ'r Arglwyddi.

Amcan(ion) Polisi

4. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcanion polisi yw darparu, ar gyfer Lloegr, system newydd o dalu "arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus" i ffermwyr − yn bennaf, y gwaith y maent yn ei wneud i wella ac i ddiogelu'r amgylchedd – a chael gwared yn raddol ar Daliadau Uningyrchol o dan reolau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC).

Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

6. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i'r Deyrnas Unedig (DU) adael y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ac i sefydlu, yn Lloegr, system newydd a fydd yn seiliedig ar arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr a rheolwyr tir.

7. Mae'r Bil hefyd, ar gais Gweinidogion Cymru, yn darparu pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru.

Darpariaethau atodol yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

8. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Amaethyddiaeth (fel y'i cyflwynwyd ar 12 Medi 2018) ar 4 Hydref. Nodwyd yn y Memorandwm hwnnw bod dau fater yn peri pryder inni, sef Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth a'r Ardoll Cig Coch, ac nad oeddent wedi cael eu datrys mewn ffordd a oedd yn ein bodloni. Nodwyd hefyd y byddai gwaith yn parhau i ddatrys y pryderon hynny wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy Senedd y DU. Ers i'r Memorandwm cyntaf gael ei gyhoeddi, mae'r Bil wedi cael ei ddiwygio wrth i Dŷ'r Cyffredin graffu arno, ac rydym wedi sicrhau cytundeb gyda Llywodraeth y DU ar y ddau fater yr oedd anghytundeb yn eu cylch.

9. Mae'r Memorandwm Atodol hwn yn ymdrin â'r newidiadau hynny a wnaed i'r Bil yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad y Cynulliad ar eu cyfer. Mae hefyd yn esbonio'r cytundeb a sicrhawyd gyda Llywodraeth y DU ar sut y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y pwerau sy'n gysylltiedig â Rhan 7 (Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth) fel y bo buddiannau pob rhan o'r DU yn cael eu hystyried yn llawn. Mae'r diwygiadau a wnaed a'r cytundeb a sicrhawyd yn mynd i'r afael â'r ddau fater y mynegwyd pryder yn eu cylch ym mharagraff 23 o'n Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y gallai rhagor o newidiadau gael eu gwneud i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ac wrth iddo fynd ar ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi. Rhaid ystyried y Memorandwm cyntaf a'r Memorandwm Atodol gyda'i gilydd (ynghyd ag unrhyw Femoranda Atodol pellach a allai gael eu gosod gerbron y Cynulliad mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiadau a gaiff eu gwneud yn y dyfodol) wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio.

10. Mae'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer i'w gweld yn Rhan 7 (Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth); Rhan 8 (Yr Ardoll Cig Coch); Atodlen 3 (Darpariaethau o ran Cymru), a Rhan 10 o'r Bil (Y Darpariaethau Terfynol). Mae rhifau'r cymalau a ddefnyddir isod yn cyfeirio at y fersiwn o'r Bil y gorchmynnwyd ei argraffu ar 20 Tachwedd ac a gyhoeddwyd ar 21 Tachwedd (y fersiwn fel y'i diwygiwyd yn ystod y Cyfnod Pwyllgor).

Rhan 7: Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth

11. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn ei datganiad ar 12 Medi fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn oherwydd y berthynas gryf ac amlwg rhwn pwerau Sefydliad Masnach y Byd a chyfrifoldebau datganoledig dros gymorth ym maes amaethyddiaeth. Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 4 Hydref hefyd yn esbonio safbwynt Llywodraeth Cymru “bod angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau cymal 26 [y cymal ar Sefydliad Masnach y Byd, sef cymal 28 erbyn hyn] oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan eu bod yn ymwneud ag amaethyddiaeth ac ufuddhau i rwymedigaethau rhyngwladol a gweithredu’r rhwymedigaethau hynny, sef y Cytundeb ar Amaethyddiaeth”.

Mae Llywodraeth y DU, fodd bynnag, o'r farn bod y pwerau hyn yn rhai a gadwyd yn ôl, ar y sail eu bod yn ymwneud â masnach ryngwladol.

12. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar ffordd o lywodraethu defnydd o'r pwerau hyn fel y bo buddiannau pob rhan o'r DU yn cael eu hystyried yn llawn. Rydym wedi cytuno fel a ganlyn:

- bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig, gan ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y Cytundeb Rhynglywodraethol, cyn cyflwyno rheoliadau o dan y cymal ar Sefydliad Masnach y Byd;

- bydd Gweinidogion yn ceisio symud yn eu blaen drwy gytundeb ond os ceir anghytundeb, bydd deunydd perthnasol ar gael i ddau Dŷ'r Senedd ei weld cyn i Senedd u DU bleidleisio ar y rheoliadau;

- Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol yn y lle cyntaf am gynnig categoreiddio cynlluniau cymorth amaethyddol Cymru, gan wneud hynny mewn ffordd a fydd yn gyson ag unrhyw reoliadau a wneir o dan y cymal ar Sefydliad Masnach y Byd; a

- bydd rôl i gynghorydd annibynnol fel arfer os bydd y llywodraethau'n anghytuno ar gategorïau'r cynlluniau neu ar faterion perthnasol eraill. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi ystyriaeth i'r cyngor hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniad a rhaid iddo rannu'r cyngor, y penderfyniad a'r rheswm dros y penderfyniad â'r gweinyddiaethau datganoledig.

13. Yn gryno, felly, mae cyfrifoldeb clir i geisio cytundeb. Fodd bynnag, os na fydd hynny'n bosibl, mae trefniadau cryf sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru fynegi barn. Caiff y trefniadau hynny eu rhoi ar bapur mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dweud hynny ar goedd mewn datganiad ar lawr Tŷ'r Cyffredin. Mae hwn yn ganlyniad da sy'n rhoi rôl gref a hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ac fe'i sicrhawyd ar ôl llawer o gydweithio effeithiol rhwng y llywodraethau. Mae'n fodel gwerthfawr y gellid ei ddefnyddio mewn meysydd eraill lle mae angen i lywodraethau gydweithredu ac mae'n arwydd o ymrwymiad y ddwy lywodraeth i gydweithio.

Rhan 8: Yr Ardoll Cig Coch

14. Mae byrddau ardollau cig coch Prydain Fawr (Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, Quality Meat Scotland, a Hybu Cig Cymru) i byd yn gosod ardollau cig coch ar wahân ar gynhyrchwyr a phroseswyr cig coch yn Lloegr, yr Alban a Chymru, yn y drefn honno. Yr unig reswm y ceir gosod yr ardollau hynny yw er mwyn i bob un o'r cyrff hyn fedru cwrdd â'u costau wrth iddynt gefnogi'r diwydiant cig coch yn y wlad lle y codir yr ardoll. Mae ardollau, felly, yn seiliedig ar leoliad daearyddol lladd-dai, yn hytrach nag ar y man o le y daw'r da byw, ac nid ydynt yn rhoi ystyriaeth i'r patrymau masnachu ar draws ffiniau Prydain Fawr. O'r herwydd, mae'n bosibl y bydd yr ardoll a delir gan gynhyrchwyr sy'n gweithredu mewn un ran o Brydain yn cael

ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau hyrwyddo a datblygu mewn rhan arall ohoni.

15. Mae cymal 29 newydd (Yr Ardoll Cig Coch: taliadau rhwng cyrff ardollau ym Mhrydain Fawr), yn galluogi Gweinidogion i sefydlu cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau amaethyddol ym Mhrydain Fawr ailddosbarthu'r ardoll rhwng ei gilydd. Bwriedir i hynny alluogi'r rheini sy'n buddsoddi mewn bridio a magu da byw i elwa ar yr ardoll a gesglir mewn perthynas â'u da byw nhw, hyd yn oed os bydd yr ardoll yn cael ei gasglu gan lladd-dy sydd mewn awdurdodaeth arall. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y cymal newydd yn ffordd briodol o ddatrys y mater.

Atodlen 3, Rhan 2: Cymorth Ariannol ar ôl ymadael â'r UE

16. Mae Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Bil yn gwneud darpariaeth ynglŷn â phwerau Gweinidogion Cymru i addasu, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, gyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas ag ariannu, rheoli a monitro taliadau i ffermwyr. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chyfnod pontio amaethyddol i Gymru y gellir ei estyn drwy gyfrwng rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

17. Mae paragraff 7 newydd (Pŵer i leihau'r terfynau uchaf ar gyfer taliadau uniongyrchol hyd at 15% yng Nghymru yn 2020) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i leihau'r terfyn uchaf ar gyfer taliadau uniongyrchol hyd at 15% yng Nghymru yn 2020). Bydd y pŵer hwnnw'n golygu y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cadw taliadau uniongyrchol yn 2020 ar yr un lefel ag yn 2019. Ni ellir arfer y pŵer ar ôl diwedd 2020. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (fel y'i diffinnir gan gymal 32(7)(b)).

18. Mae paragraff 8 newydd (Pŵer i barhau â chynllun y taliad sylfaenol ar ôl 2020) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i barhau â chynllun y taliad sylfaenol ar ôl 2020, yn ystod y cyfnod pontio amaethyddol ar gyfer Cymru. Mae hwn yn cynnwys pŵer i ragnodi drwy reoliadau y dull a fydd yn cael ei ddefnyddio ar ôl 2020 i benderfynu ar derfynau uchaf taliadau uniongyrchol. Mae'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol (1307/2013) yn cynnwys terfynau uchaf (y dulliau ar gyfer cyfrifo taliadau i ffermwyr) hyd at ddiwedd blwyddyn gynllun 2020 yn unig. Heb derfynau uchaf na ffordd arall o benderfynu ar swm, ni allai cynllun y taliad sylfaenol barhau. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (fel y'i diffinnir gan gymal 32(7)(b)).

19. Mae paragraff 9 (Pŵer i ddarparu ar gyfer dileu'n raddol daliadau uniongyrchol a thaliadau datgysylltiedig), yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

    a) Diwygir is-baragraff (1)(b) fel nad oes gofyniad bellach i ddod â thaliadau uniongyrchol i ben. Diwygiad technegol yw hwn mewn perthynas â pwerau Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy gyfrwng rheoliadau ar gyfer taliadau datgysylltiedig yn lle taliadau o dan gynllun y taliad sylfaenol. Mae'r diwygiad yn ei gwneud yn glir hefyd na ellir gwneud taliadau

datgysylltiedig ar yr un pryd â thaliadau uniongyrchol o dan gynllun y taliad sylfaenol.

b) Diwygir is-baragraff (8) er mwyn cywiro camgymeriad drafftio. Cynhwysir testun i egluro bod paragraff 9(8) yn gymwys os gwneir darpariaeth o dan baragraff 6(2) ar gyfer dod â thaliadau gwyrddu i ben naill ai cyn neu ar ôl dechrau'r cyfnod pontio amaethyddol i Gymru. Mae'r diwygiad yn golygu bod y darpariaeth ar gyfer Cymru yr un peth â'r un ar gyfer Lloegr.

Atodlen 3, Rhan 4: Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol

20. Mae Rhan 4 o Atodlen 3 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddatgan cyfnod o amodau eithriadol yn y farchnad, ac, yn ystod y cyfnod y mae'r datganiad yn cael effaith, i roi cymorth ariannol, neu i gytuno i roi cymorth ariannol, i gefnogi cynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru y mae'r amodau eithriadol yn y farchnad a ddisgrifir yn y datganiad yn cael effaith andwyol ar eu hincymau, neu'n debygol o gael effaith o'r fath. Mae Rhan 4 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio mewn unrhyw ffordd yr ystyriant yn briodol unrhyw bwerau sydd ar gael o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n darparu ar gyfer gweithredu ymyrraeth gyhoeddus a chymorth ar gyfer systemau storio preifat mewn ymateb i'r datganiad.

21. Diwygir paragraff 18 (Datganiad ynglŷn ag amodau eithriadol yn y farchnad), fel a ganlyn:

a) Diwygir is-baragraff (2) er mwyn egluro mai bwriad y ddarpariaeth yw nodi'r unig amgylchiadau pryd y caiff Gweinidogion Cymru wneud datganiad yn dweud bod amodau eithriadol yn y farchnad. Mae'r diwygiad yn golygu bod y darpariaeth ar gyfer Cymru yr un peth â'r un ar gyfer Lloegr.

b) Diwygir is-baragraff (3)(c) i adlewyrchu camgymeriad drafftio. Dylai'r testun yn y Bil fod wedi cyfeirio at "conditions" (yn hytrach na "decisions").

Rhan 10: Darpariaethau Terfynol

22. Mae Rhan 10 o'r Bil yn darparu ar gyfer mathau gwahanol o ddarpariaethau ategol y gellid eu gwneud mewn rheoliadau a wneir o dan y Bil.

23. Diwygir cymal 32 (Rheoliadau) fel y bo is-gymal (5) newydd yn darparu y bydd rheoliadau o dan adran 32(3)(c) sy'n gwneud darpariaeth atodol, cysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu arbed yn addasu deddfwriaeth sylfaenol, yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae hyn yn gwella'r gwaith craffu a wneir ar ddeddfwriaeth pan fo rheoliadau a wneir o dan adran 32(3)(c) yn addasu deddfwriaeth sylfaenol. Mewnosodir cyfeiriadau at gymal 32(5) i'r darpariaethau ar gyfer gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad negyddol ym mharagraffau 6(3), 11(5), 12(4), 20(3) a 22(3) o Atodlen 3, i'r perwyl y dylid defnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn lle'r un negyddol os defnyddir y pŵer perthnasol, yn rhinwedd adran 32(3)(c), i

wneud darpariaeth atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol neu arbed sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol.

24. Diwygir cymal 33 (Dehongli) i egluro bod y diffiniad o “subordinate legislation” yn cynnwys deddfwriaeth a wneir o dan deddfwriaeth sylfaenol gan y deddfwrfeydd datganoledig.

Cydsyniad

25. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth (Rhan 7) oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y mae’n ymwneud ag amaethyddiaeth a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.

26. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Ardoll Cig Coch (Rhan 8), y diwygiadau i Atodlen 3 (Darpariaeth o ran Cymru) a'r diwygiadau i Ran 10 (Darpariaethau Terfynol) oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru oherwydd fel y mae’n ymwneud ag amaethyddiaeth ac nad ydynt yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl.

27. Nodir bod mân gamgymeriad drafftio yn y Memorandwm a osodwyd ar 4 Hydref. Roedd yn dweud bod darpariaethau penodol yn ymwneud â Chymru ac yn gymwys o ran Cymru (cyfeirir at baragraff 18 o'r Memorandwm gwreiddiol hwnnw). Mae'r darpariaethau perthnasol yn ymwneud â Chymru a Lloegr (ac maent yn gymwys i Gymru, fel y nodwyd yn gywir).

Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

28. Nodir yn yr Atodiad restr wedi ei chydgrynhoi o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir i Weinidogion Cymru, ac sydd wedi ei diweddaru ers y Memorandwm a osodwyd ar 4 Hydref er mwyn ystyried y diwygiadau a wnaed yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ac a ddisgrifir yn y Memorandwm hwn. Mae ‘gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol’ a ‘gweithdrefn penderfyniad negyddol’ yn cael eu diffinio yng Nghymal 32(7)(b) ac (8)(b) o'r Bil, yn y drefn honno, oherwydd bod y termau hynny'n gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Amaethyddiaeth

29. Fel y nodwyd yn y Memorandwm cyntaf, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen deddfwriaeth ar mwyn darparu sylfaen gyfreithiol ar gyfer cymorth i ffermwyr yn y dyfodol, ar ôl Brexit, wrth inni ymadael yn raddol â’r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Drwy gynnwys darpariaethau yn awr ym Mil Amaethyddiaeth y DU, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cefnogi ffermwyr yng Nghymru, a byddant yn gallu gwneud yr hyn a fydd orau i Gymru.

30. Mae pŵer newydd wedi'i gynnwys yn y Bil hefyd i ailddosbarthu'r ardoll cig coch er mwyn datrys yr anghysonderau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn gyfle delfrydol i gael y pwerau angenrheidiol i gyflwyno cynllun priodol a fydd yn cywiro'r anghydbwysedd hwn.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd

31. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Weinidogion Llywodraeth y DU yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin mewn perthynas â'r Ardoll Cig Coch (Rhan 8), y gwelliannau i Atodlen 3 (Darpariaeth o ran Cymru) a'r gwelliant i Ran 10 (Darpariaethau Terfynol). Mae hefyd yn fodlon â'r darpariaethau sy'n ymwneud â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth o gofio'r cytundeb a sicrhawyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar arfer y pŵer hwnnw i wneud rheoliadau. Mae'n debygol y bydd rhagor o newidiadau'n cael eu gwneud i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac wrth iddo fynd ar ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi, ac yn eu plith bydd newidiadau er mwyn ymateb i bwyntiau a godir wrth i Bwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y Bil. Mewn achos o'r fath, bydd Memoranda pellach yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad fel y bo'n briodol. Gwneir argymhelliad terfynol ynglŷn â chydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol unwaith y bydd yr holl welliannau wedi cael eu gwneud i'r Bil.

Goblygiadau ariannol

32. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru nac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ganlyniad i'r ffaith bod y pwerau hyn yn cael eu cyflwyno yn y Bil hwn.

Casgliad

33. Mae'r memorandwm atodol hwn yn disgrifio'r newidiadau perthnasol a wnaed i'r Bil ers iddo gael ei gyflwyno ac y mae angen cydsyniad y Cynulliad ar eu cyfer. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftiwyd. Dylid nodi, er hynny, nad oes modd argymell yn bendant y dylai'r Cynulliad roi cydsyniad i'r Bil nes y bydd yn nes at ddiwedd ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi, oherwydd ei bod yn bosibl y bydd rhagor o welliannau. Os bydd rhagor o welliannau a fydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, bydd rhagor o Femoranda Cydsyniad Atodol yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad fel y bo'n briodol, a bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud argymhelliad ynglŷn â chydsyniad y Cynulliad ar yr adeg briodol.

Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Mawrth 2019

Atodiad

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL: Y BIL AMAETHYDDIAETH – RHESTR WEDI'I CHYDGRYNHOI O DDARPARIAETHAU AC YNDDYNT BWERAU I WEINIDOGION CYMRU WNEUD IS-DDEDDFWRIAETH FEL Y'U DIWYGIWYD YN YSTOD Y CYFNOD PWYLLGOR YN NHŶ'R CYFFREDIN

Paragraff yn Atodlen 3	Disgrifiad o'r Pŵer	Y weithdrefn ddeddfwriaethol
2(7)	Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru neu berson arall gyhoeddi gwybodaeth benodedig ynghylch cymorth ariannol a roddwyd o dan Baragraff 1 o Atodlen 3, neu i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â hynny.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
3(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer gwirio, gorfodi a monitro cydymffurfiaeth pan fo cymorth ariannol i'w roi, neu wedi ei roi, o dan Baragraff 1 o Atodlen 3, neu i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â hynny.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
5(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru estyn drwy reoliadau y cyfnod pontio amaethyddol i Gymru a nodir ym Mharagraff 5(1) o Atodlen 3.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
6(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth sy'n rheoli cynllun y taliad sylfaenol.	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath).
7(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer, neu mewn cysylltiad â lleihau hyd at 15% y terfynau uchaf ar gyfer taliadau uniongyrchol cenedlaethol a net yng Nghymru a fyddai, fel arall, yn gymwys yn 2020.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
8(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu drwy reoliadau ddeddfwriaeth sy'n rheoli cynllun y taliad sylfaenol er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer, neu mewn cysylltiad â sicrhau bod	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol

	cynllun y taliad sylfaenol yn parhau i weithredu mewn perthynas â Chymru am un neu fwy o flynyddoedd ar ôl 2020 (yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan baragraff 9).	
9(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer, neu mewn cysylltiad â, y naill neu'r llall, neu'r ddau, o'r canlynol: dirwyn i ben yn raddol daliadau uniongyrchol o dan gynllun y taliad sylfaenol o ran Cymru dros y cyfnod pontio amaethyddol cyfan i Gymru, neu ran o'r cyfnod hwnnw, neu derfynu taliadau uniongyrchol o dan y cynllun hwnnw o ran Chymru, ac yn hytrach gwneud taliadau datgysylltiedig o ran Cymru mewn cysylltiad â'r cyfnod pontio amaethyddol cyfan ar gyfer Cymru, neu ran o'r cyfnod hwnnw.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
11(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu drwy reoliadau ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin a'r is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno.	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath)
12(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu drwy reoliadau ddeddfwriaeth uniongyrchol y UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno.	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath)
13(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n rhan o gadwyn gyflenwi bwyd amaeth, neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn gyflenwi o'r fath, ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o weithgareddau'r person sy'n gysylltiedig â'r	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol

	gadwyn gyflenwi, i'r graddau y cyflawnir y gweithgareddau hynny yng Nghymru.	
17(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer gorfodi gofyniad a osodir o dan baragraff 13(1) neu (2) o Atodlen 3 (cadwyni cyflenwi bwyd amaeth: gofyniad i ddarparu gwybodaeth).	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
20 (1)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu drwy reoliadau ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion newid y ffordd y mae darpariaethau'r ddeddfwriaeth honno yn gweithredu, i'r graddau y maent yn cael effaith o ran Cymru mewn cysylltiad ag amodau eithriadol yn y farchnad sy'n destun datganiad o dan baragraff 18 o Atodlen 3 (datganiad sy'n ymwneud ag amodau eithriadol yn y farchnad).	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath)
20(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu drwy reoliadau ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion penodedig.	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath)
21(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â chynhyrchion sy'n dod o fewn sector penodedig ac a farchnetir yng Nghymru, wneud darpariaethau drwy reoliadau ynglŷn â'r safonau y mae'n rhaid i'r cynhyrchion hynny gydymffurfio â hwy.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
21(3)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynglŷn â chategoreiddio, adnabod a chyflwyno carcasau buchol, carcasau moch a charcasau defaid gan ladd-dai yng Nghymru.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
22(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio drwy reoliadau y rhestr o sectorau amaethyddol ym mharagraff 22(1) o Atodlen 3 i ychwanegu neu ddileu sector, ac i nodi cynhyrchion sy'n dod o fewn pob sector, neu fel arall i roi manylion pellach am y sectorau.	Y weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 32(5) yn gymwys. Defnyddir y weithdrefn

		penderfyniad cadarnhaol mewn achosion o'r fath)
29	Pwerau i Weinidogion Cymru (gan weithredu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol a/neu Weinidogion yr Alban) wneud cynllun i ddarparu bod symiau'r ardoll cig coch a gesglir gan y corff ardollau ar gyfer un wlad ym Mhrydain Fawr yn cael eu talu i'r corff ardollau ar gyfer gwlad arall o'r fath.	Dim gweithdrefn

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Lesley Griffiths AC / AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Mawrth 2019

Annwyl Mick

Bil Amaethyddiaeth y DU – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

Diolch ichi am y craffu gwerthfawr gan y Pwyllgor o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â Bil Amaethyddiaeth y DU a'u hadroddiad fis Ionawr 2019. Mae swyddogion yn ystyried yr argymhellion a wnaethpwyd yn ofalus a byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd maes o law.

Yn y cyfamser, rwyf am sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i Fil Amaethyddiaeth y DU sydd wedi ei gyflwyno gennyf heddiw. Rwy'n atodi copi er gwybodaeth ichi.

Mae fersiwn ddiweddaraf y Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod Pwyllgor y Bil Cyhoeddus, i'w gweld yma:
https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2017-2019/0292/18292.pdf

Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a gyflwynwyd ar 4 Hydref 2018, rhoddais amlinelliad o ddau o bryderon oedd gennyf yn weddill yn gysylltiedig â'r Lefi Cig Coch a Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Rwyf yn falch o gadarnhau ein bod bellach wedi datrys y ddwy broblem hon.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, rydym wedi llwyddo i ddiwygio'r Bil i gynnig ffyrdd addas o ddatrys y broblem hirdymor o gael y lefi cig coch yn ôl. Mae hwn bellach yn rhan o'r Bil (fel y'i diwygiwyd ym Mhwyllgor y Bil Cyhoeddus) yng Nghymal 29. Mae'r Cymal newydd yn galluogi Gweinidogion, drwy weithredu ar y cyd, i sefydlu cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau amaethyddol ym Mhrydain Fawr ailddosbarthu'r lefi rhwng ei gilydd. Bydd swyddogion bellach yn parhau i ddatblygu cynllun ar yr un pryd â'r ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy'r Senedd i sicrhau bod system deg wedi'i sefydlu cyn gynted â phosib.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rwyf hefyd yn falch o hysbysu'r Pwyllgor ein bod wedi sicrhau cytundeb sylweddol gyda Llywodraeth y DU i reoli'r defnydd o bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ym Mil Amaethyddiaeth y DU o ran sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Mae hyn yn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn. Amgaeaf gopi o'r cytundeb er gwybodaeth ichi. Mae'r cytundeb yn pennu dull cadarn a thryloyw i gynnwys Gweinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau yn ogystal â dull o ddatrys anghydfodau. Mae hwn yn ganlyniad da sy'n rhoi rôl gref a hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ac fe'i sicrhawyd ar ôl llawer o gydweithio effeithiol rhwng y Llywodraethau. Mae hefyd yn fodel gwerthfawr y gellid ei ddefnyddio mewn meysydd eraill lle mae angen i lywodraethau gydweithredu, ac mae'n arwydd o ymrwymiad y ddwy lywodraeth i gydweithio.

Mae'r Memorandwm Atodol yn diweddaru'r sefyllfa o ran y pryderon a amlinellwyd uchod yn ogystal â nodi diwygiadau pellach a wnaethpwyd i Fil Amaethyddiaeth y DU yn ystod Pwyllgor y Bil Cyhoeddus sy'n gwneud darpariaeth berthnasol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Hoffwn ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor os oes angen.

Mae'n debygol y bydd rhagor o newidiadau'n cael eu gwneud i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac wrth iddo fynd ar ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi, er mwyn ymateb i bwyntiau a godir wrth i'r Pwyllgor graffu ar y Bil. Felly, rwyf yn disgwyl gosod Memorandwm Atodol arall yn nes ymlaen yn ystod proses y Bil, fel y bo'n briodol, cyn cyflwyno trafodaeth i'r Cynulliad i ystyried cydsynio i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Yn gywir
Lesley

Lesley Griffiths AC / AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon